Ymchwil Gymdeithasol Rhif:
05/2024
Dyddiad cyhoeddi:
31/12/2024

# Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Nodweddion a phrofiadau'r cyfranogwyr

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-483-0

Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Nodweddion a phrofiadau'r cyfranogwyr

Dr Duncan Holtom, Nia Bryer, Rhodri Bowen a Rhys Davies

Holtom, D; Bryer, N; Bowen, Rh; Davies, Rh; (2024) *Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Nodweddion a phrofiadau'r cyfranogwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 05/2024.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-cymunedau-am-waith-cymunedau-am-waith-mwy-nodweddion-phrofiadaur-cyfranogwyr

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Joshua Parry
Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn:
E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o'r tablau ..... 2

Rhestr o siartiau a ffigurau ..... 4

Geirfa ..... 6

1. Cyflwyniad ..... 7

2. Methodoleg ..... 10

3. Perfformiad: ymgysylltu â gwahanol grwpiau a'u cefnogi ..... 15

4. Profiadau a thaflwybrau'r cyfranogwyr ..... 38

5. Data yr arolygon o gyfranogwyr ..... 71

6. Casgliadau ..... 95

Cyfeiriadau ..... 103

Atodiad A: Data ychwanegol ar nodweddion y rhai a gymerodd ran yn yr arolygon ..... 106

Atodiad B: Tablau ychwanegol yr arolygon ..... 108

Atodiad C. Data ychwanegol ar gyfranogwyr ..... 126

Atodiad D: Canllaw cyfweld ..... 127

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 2.1: Proffil y rhai a gyfwelwyd ........ 11
Tabl 2.2: Proffil cyfranogwyr y grwpiau ffocws ........ 11
Tabl 2.3: Proffil yr ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ o gymharu â'r holl gyfranogwyr ..... 13
Tabl 3.1: Canran y cyfranogwyr CaW (Mai 2015 – Mawrth 2023) a CaW+ (Ebrill 2018 - Mawrth 2023) â nodweddion gwahanol ........ 17
Tabl 3.2: Canran y cyfranogwyr CaW â rhwystrau dethol, Mai 2015 - Mawrth 2023 ........ 18
Tabl 3.3: Dull o ddod i wybod am raglenni CaW a CaW+ (y 10 prif ymateb) ........ 24
Tabl 3.4: Canran cyfranogwyr CaW a CaW+ a chanddynt nodweddion gwahanol a gafodd swyddi, Mai 2015 - Mawrth 2023 ........ 30
Tabl 3.5: Canran cyfranogwyr CaW+ a chanddynt nodweddion gwahanol a gafodd swyddi, Ebrill 2021 - Mawrth 2023 ........ 30
Tabl 3.6: Canran cyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd CaW a chanddynt nodweddion gwahanol a gafodd swyddi, Mai 2015 - Mawrth 2023 ........ 32
Tabl 5.1: Y prif reswm dros gymryd rhan yn CaW/CaW+ ........ 73
Tabl 5.2: Anawsterau a nodwyd gan yr ymatebwyr i'r arolygon o ran dod o hyd i waith cyn ymuno â'r rhaglenni CaW/CaW+ ........ 74
Tabl 5.3: Y cymwysterau a gafodd y rhai a gymerodd ran yn arolygon CaW a CaW+ ........ 75
Tabl 5.4: Sgiliau y gwnaeth ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ eu meithrin neu eu gwella ........ 76
Tabl 5.5: Sefyllfa gyflogaeth ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ adeg yr arolwg ........ 77
Tabl 5.6: Barn ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ ynghylch a oedd y rhaglen wedi eu helpu i gael eu swydd ........ 77
Tabl 5.7: Math o swyddi a gafwyd adeg arolygon CaW a CaW+ ........ 78
Tabl 5.8: Proffil y swyddi a ddaliwyd adeg arolygon CaW a CaW+ ........ 79
Tabl 5.9: Rhwystrau o ran dod o hyd i waith ymhlith yr ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ a oedd heb waith adeg yr arolwg ........ 80
Tabl 5.10: Pa mor dda yr oedd mentor neu gynghorydd yn deall rhwystrau'r ymatebwyr i'r arolygon ........ 81
Tabl 5.11: Effeithiolrwydd mentor neu gynghorydd o ran helpu i lunio cynllun gweithredu personol realistig ar gyfer yr ymatebwyr i'r arolygon ........ 82

Tabl 5.12: I ba raddau yr heriodd mentor neu gynghorydd yr ymatebwyr i'r arolygon i wneud pethau newydd neu wahanol....83
Tabl 5.13: Sut y bu i gynghorwyr CaW a mentoriaid CaW+ helpu'r ymatebwyr i'r arolygon....84
Tabl 5.14: Sut y bu i gynghorwyr CaW a mentoriaid CaW+ helpu'r ymatebwyr i'r arolygon....85
Tabl 5.15: Cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi a gweithgareddau cymorth eraill a drefnwyd gan gynghorwyr a mentoriaid CaW....86
Tabl 5.16: Cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi a gweithgareddau cymorth eraill a drefnwyd gan fentoriaid CaW+....88
Tabl 5.17: Dull yr ymatebwyr i'r arolwg o gael mynediad i weithgareddau hyfforddi a chymorth CaW+....89
Tabl 5.18: Effaith cymryd rhan yn CaW a CaW+ ar waith....91
Tabl 5.19: Effaith bersonol cymryd rhan yn CaW a CaW+....92
Tabl 5.20: Effaith y pandemig COVID-19 ar y cynnydd a wnaed gan yr ymatebwyr i'r arolygon ers gadael CaW a CaW+....94
Atodiad A.1: Cymwysterau a ddaliwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg pan wnaethant ymuno â rhaglenni CaW a CaW+....106
Atodiad A.2: Amgylchiadau economaidd ymatebwyr i'r arolygon cyn cymryd rhan yn y rhaglenni....107
Atodiad B.1: Y prif reswm dros ymuno â'r rhaglen CaW/CaW+ yn ôl nodweddion y cyfranogwr....109
Atodiad B.2: Anawsterau'n gysylltiedig â dod o hyd i waith cyn cymryd rhan yn y rhaglenni yn ôl nodweddion y cyfranogwyr....110
Atodiad B.3: Gweithio tuag at gymwysterau yn ystod CaW/CaW+ yn ôl nodweddion y cyfranogwyr....112
Atodiad B.4: Sgiliau a Gwnaeth y Cyfranogwyr eu Meithrin neu eu Gwella yn sgil Cymryd Rhan yn Cymunedau am Waith....113
Atodiad B.5: Statws gweithgaredd 6 mis ar ôl CaW/CaW+ ac adeg yr arolwg....114
Atodiad B.6: Statws gweithgaredd 6 mis ar ôl CaW/CaW+ ac adeg yr arolwg yn ôl nodweddion y cyfranogwyr....115
Atodiad B.7: Nodweddion y swyddi a ddaliwyd adeg yr arolwg yn ôl rhaglen....116
Atodiad B.8: Nodweddion y swyddi a ddaliwyd adeg yr arolwg yn ôl nodweddion yr ymatebwyr....117

Atodiad B.9: Anawsterau o ran dod o hyd i waith adeg yr arolwg fesul rhaglen.................118
Atodiad B.10: Anawsterau o ran dod o hyd i waith adeg yr arolwg yn ôl nodweddion yr ymatebwyr.........................................................................................................119
Atodiad B.11: Pa mor dda yr oedd mentor neu gynghorydd yn deall rhwystrau'r ymatebwyr i'r arolygon.........................................................................................................120
Atodiad B.12: Effeithiolrwydd mentor neu gynghorydd o ran helpu i lunio cynllun gweithredu personol realistig ar gyfer yr ymatebwyr i'r arolygon .............................................121
Atodiad B.13: I ba raddau yr heriodd mentor neu gynghorydd yr ymatebwyr i'r arolygon i wneud pethau newydd neu wahanol ......................................................................122
Atodiad B.14: Pa mor ddefnyddiol oedd hyfforddiant neu weithgareddau CaW.................123
Atodiad B.15: Y niferoedd a gymerodd ran mewn cyrsiau hyfforddi a gweithgareddau cymorth eraill a drefnwyd gan fentoriaid CaW+, wedi'u rhannu yn ôl rhyw............124
Atodiad B.16: Pa mor ddefnyddiol yw hyfforddiant CaW+..................................................125
Atodiad C.1: Canran cyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd CaW a chanddynt nodweddion gwahanol a gafodd swyddi ...........................................................................126

**Rhestr o siartiau a ffigurau**

Siart 3.1: Canran y cyfranogwyr economaidd anweithgar B1 CaW â nodweddion gwahanol (dros y cyfnod Mai 2015 - Mawrth 2023) o gymharu â phoblogaeth economaidd anweithgar Cymru ............................................................................................19
Siart 3.2: Canran y cyfranogwyr sy’n CaW sy'n ddi-waith yn yr hirdymor gyda nodweddion gwahanol (dros y cyfnod Mai 2015 - Mawrth 2023), o gymharu â phoblogaeth ddi-waith Cymru ...........................................................................................................20
Siart 3.3: Canran y cyfranogwyr B3 CaW â gwahanol nodweddion (dros y cyfnod Mai 2015 - Mawrth 2023), o gymharu â phoblogaeth Cymru o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant..........................................................................21
Siart 3.4: Canran y cyfranogwyr CaW+ â nodweddion gwahanol (dros y cyfnod Ebrill 2018-Mawrth 2023), o gymharu â phoblogaethau economaidd anweithgar a di-waith Cymru.............................................................................................................22

Siart 3.5 Anawsterau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i waith cyn ymuno â CaW/CaW+, a adroddwyd gan gyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd ............................................33
Siart 3.6. Canran cyfranogwyr CaW a CaW 25+ oed a oedd yn economaidd anweithgar a di-waith a nododd rwystrau gwahanol ...........................................................................35
Siart 3.7. Canran y cyfranogwyr CaW a CaW+ a fu'n ddi-waith am lai na blwyddyn, un i dair blynedd a mwy na thair blynedd, a nododd rwystrau gwahanol ................................36

Ffigur 4.1. Model newid ymddygiad COM-B ..........................................................................41

**Geirfa**

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| ALl | Awdurdod Lleol |
| CaW | Cymunedau am Waith |
| CaW+ | Cymunedau am Waith a Mwy |
| CGGC | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| COM-B | Gallu, Cyfle, Cymhelliant – Ymddygiad |
| COVID | Clefyd y Coronafeirws |
| DC | Dwyrain Cymru |
| DWP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| GCC | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |
| IES | Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth |
| ILO | Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol |
| JCP | Canolfan Byd Gwaith |
| NEET | Y Rhai Nad Ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant |
| PaCE | Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth |
| PTS | Diogelwch Trac Personol |
| SAC | Swyddfa Archwilio Cymru |
| SIA | Awdurdod y Diwydiant Diogelwch |
| SYG | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

# 1. Cyflwyniad

1.1. Ym mis Medi 2022, penododd Llywodraeth Cymru Ymchwil OB3, mewn cydweithrediad â Pobl a Gwaith, IFF Research, Prifysgol Caerdydd a Dateb, i gynnal gwerthusiad o Cymunedau am Waith (CaW) a Cymunedau am Waith a Mwy (CaW+).

1.2. Nod cyffredinol y rhaglenni yw cynyddu cyflogadwyedd (a chyflogaeth) ymysg oedolion sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, a lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Drwy hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy, nod y rhaglenni yw lleihau tlodi.

1.3. Ariennir CaW ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), a ddarperir drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), Llywodraeth Cymru a DWP, ac ariennir CaW+ gan Lywodraeth Cymru.

### Y rhaglenni

1.4. Disgrifir y dull o gyflawni'r ddwy raglen, y cyllid a'u targedau, yn fanylach yn yr adroddiad gwerthusiad proses a theori newid (Llywodraeth Cymru, 2023a). I grynhoi, mae'r cymorth a ddarperir gan y rhaglenni yn cael ei ddarparu gan gynghorwyr a mentoriaid[1], yn achos CaW a mentoriaid yn achos CaW+. Eu nod yw cefnogi cyfranogwyr drwy gyfarfod yn rheolaidd, naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn a/neu drwy alwad fideo, meithrin cydberthynas ac ymddiriedaeth a darparu cymorth mentora dwys a chyngor arbenigol ar gyflogaeth. Maent hefyd yn hwyluso mynediad i hyfforddiant, lleoliadau gwaith a/neu gyfleoedd gwirfoddoli ac yn cyfeirio pobl at wasanaethau cymorth, i helpu i gryfhau hunanhyder a chymhelliant y cyfranogwyr a'u helpu i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth (fel chwilio am swydd mewn ffordd aneffeithiol, lefel isel o sgiliau galwedigaethol a/neu sgiliau meddal neu ddim sgiliau o'r fath o gwbl). Yn ogystal â hynny, yn 2019, cyflwynwyd y cyfle i ddarparu hyd at dri mis o

[1] Mae Cynghorwyr Cyflogaeth Cymunedol yn gynghorwyr cyflogaeth profiadol sydd ar secondiad o DWP i weithio gyda'r rhai yr aseswyd bod angen y lleiaf o gymorth arnynt; ac mae Mentoriaid Ieuenctid ac Oedolion ar secondiad o awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i weithio gyda chyfranogwyr yr aseswyd bod angen 12 mis o gymorth arnynt cyn y byddant yn barod i gael swydd, sef cymorth dwysach na'r hyn a ddarperir gan gynghorwyr.

gymorth yn y gwaith i'r rhai a gefnogir drwy CaW yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt i gynnal eu cyflogaeth ar ôl iddynt ddechrau gweithio.

1.5. Mae model cyflawni CaW+ yn adlewyrchu rhaglen CaW yn fras, ond gyda rhai gwahaniaethau o ran: strwythurau a rolau staff (er enghraifft, dim ond CaW+ sydd â swyddogion ymgysylltu â chyfranogwyr [2]; y ffordd y caiff hyfforddiant ei gomisiynu (comisiynodd CaW ACT i ddarparu'r rhaglen, ond roedd CaW+ yn caffael hyfforddiant yn lleol); a chwmpas a chymhwystra (gan fod CaW+ yn rhaglen sy'n cwmpasu Cymru gyfan, mae ganddi feini prawf cymhwystra ychydig yn ehangach na CaW).

1.6. Effeithiwyd ar ddarpariaeth y rhaglenni gan y pandemig COVID-19 ac ymatebion polisi megis cyfnodau clo cenedlaethol a lleol. Trafodir effaith hyn ar gyflwyno'r rhaglen yn yr adroddiad gwerthusiad proses a theori newid (Llywodraeth Cymru, 2023a) ac mae'r adroddiad hwn yn ategu hyn, drwy ystyried yr effaith ar gyfranogwyr.

**Yr adroddiad hwn**

1.7. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar brofiadau cyfranogwyr ac yn mynd i'r afael â'r amcanion canlynol:

- asesu i ba raddau yr oedd y rhaglenni'n ymgysylltu ag unigolion o'r grwpiau blaenoriaeth yr oeddent wedi'u bwriadu i ymgysylltu â nhw
- cymharu canlyniadau ar gyfer unigolion ar draws gwahanol grwpiau demograffig ac is-grwpiau, fel y'u diffinnir gan y grwpiau targed ar gyfer y rhaglenni

[2] Er enghraifft, roedd gan CaW Gynghorwyr Cyflogaeth Cymunedol, sef cynghorwyr cyflogaeth profiadol ar secondiad o DWP i weithio gyda'r rhai yr aseswyd bod angen y cymorth lleiaf arnynt; Mentoriaid Ieuenctid ac Oedolion ar secondiad o awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i weithio gyda chyfranogwyr yr aseswyd bod angen cymorth arnynt am fwy 12 mis cyn eu bod yn barod i gael swydd ac felly bod angen cymorth mwy dwys arnynt na'r hyn a ddarparwyd gan gynghorwyr (gyda mentoriaid sy'n oedolion yn gweithio gyda'r rhai 25 oed a hŷn); a swyddogion brysbennu, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar asesu cymhwystra a dyrannu cyfranogwyr i gynghorwyr neu fentoriaid, i sicrhau eu bod yn cael y lefel briodol o wasanaeth a chymorth. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae gan CaW+ Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr a Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr (yn wahanol i CaW) sy'n cefnogi'r ddwy raglen, ond dim staff ar secondiad o DWP (cynghorwyr) a dim staff brysbennu penodedig (mae staff brysbennu CaW yn darparu'r swyddogaeth hon ar gyfer y ddwy raglen). Hefyd, yn wahanol i CaW, nid yw Mentoriaid CaW+ wedi'u cyfyngu i weithio gyda phobl ifanc neu oedolion dros 25 oed.

- adolygu a yw’r rhesymeg dros dargedu grwpiau a daearyddiaethau penodol yn briodol ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd cymunedol presennol a rhaglenni tebyg yn y dyfodol
- adolygu i ba raddau y mae'r modelau cyflawni yn diwallu anghenion grwpiau penodol
- adolygu sut y mae elfennau newydd o'r rhaglen CaW a CaW+, megis yr 'elfen cymorth yn y gwaith' yn cael eu cyflawni a sut y maent wedi cyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion y rhaglen
- adolygu sut y bu i'r rhaglenni nodi anghenion ieithyddol y cyfranogwyr ac felly sicrhau mynediad i'r ddarpariaeth yn newis iaith y cyfranogwyr (Cymraeg neu Saesneg).

1.8. Yn dilyn yr adran ragarweiniol hon, mae gweddill yr adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- mae adran dau yn amlinellu dull a methodoleg y gwerthusiad
- mae adran tri yn trafod perfformiad y rhaglenni ac yn asesu i ba raddau y maent wedi ymgysylltu ag unigolion o’r grwpiau blaenoriaeth y maent wedi eu bwriadu i ymgysylltu â nhw, ac wedi cefnogi’r unigolion hyn i symud ymlaen i waith neu i symud yn agosach at waith
- mae adran pedwar yn seiliedig ar ymchwil ansoddol ac yn trafod profiadau a theithiau'r cyfranogwyr er mwyn ystyried:
    - yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn nad yw wedi gweithio cystal ar gyfer gwahanol grwpiau targed; ac
    - i ba raddau y mae’r model cyflawni, gan gynnwys cymorth yn y gwaith, a’r cynnig Cymraeg, yn diwallu anghenion grwpiau penodol
- mae adran pump yn defnyddio arolygon o gyfranogwyr CaW a CaW+ i ystyried eu cymhellion, y rhwystrau a adroddwyd ganddynt a'u profiadau o'r rhaglen; ac
- mae adran chwech yn amlinellu'r casgliadau, gan gynnwys ystyried y rhesymeg dros dargedu grwpiau a daearyddiaethau penodol.

# 2. Methodoleg

### Cyflwyniad

2.1. Mae’r adroddiad hwn yn defnyddio tair ffynhonnell ddata allweddol, a drafodir ymhellach isod:

- dadansoddiad o ddata'r rhaglenni;
- ymchwil ansoddol manwl;
- arolygon o gyfranogwyr CaW a CaW+.

### Dadansoddiad o ddata'r rhaglenni

2.2. Dadansoddwyd data'r rhaglenni i nodi nodweddion y rhai sy'n defnyddio CaW a CaW+, a lle bo modd, y deilliannau ar gyfer gwahanol grwpiau o gyfranogwyr.

### Ymchwil ansoddol

2.3. Roedd gwaith ymchwil ansoddol gyda 58 o gyfranogwyr cyfredol, a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023, yn cynnwys:

- cyfweliadau gyda 46 o gyfranogwyr yn canolbwyntio ar drafod eu profiadau a'u teithiau yn fanwl. Ceir copi o'r canllaw cyfweld yn Atodiad D;
- hwyluso tri grŵp ffocws (gyda 12 o gyfranogwyr) mewn dwy ardal (Casnewydd a Thorfaen);
- arsylwi hyfforddiant a ddarparwyd gan y rhaglen (yng Nghasnewydd);
- cyfweliadau gyda phedwar Swyddog Ymgysylltu â Chyfranogwyr (neu swyddogion cyfatebol[3]) (yn Ynys Môn, Blaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin a Chasnewydd).

2.4. Fel y dengys Tabl 2.1, dewiswyd y sampl o'r rhai i'w cyfweld yn bwrpasol er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o grwpiau diddordeb allweddol megis: y rhai sydd wedi cael cymorth yn y gwaith; siaradwyr Cymraeg; pobl anabl a chyfranogwyr Du, Asiaidd ac

[3] Er enghraifft, nid oedd gan ddwy ardal Swyddog Ymgysylltu, ond roedd aelod arall o staff yn cyflawni rôl debyg a chafodd ei gyfweld.

ethnig leiafrifol eraill, er mwyn sicrhau bod profiadau grwpiau gwahanol yn cael eu hystyried.

**Tabl 2.1: Proffil y rhai a gyfwelwyd**

| Rhaglen | Oedolyn (25+) | Person ifanc (16-24) | Gwrywaidd | Benywaidd | Anabl | Siaradwr Cymraeg | Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol | Wedi manteisio ar gymorth yn y gwaith[4] | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CaW | 10 | 19 | 13 | 16 | 8 | 2 | 4 | 4 | **29** |
| CaW+ | 11 | 6 | 10 | 7 | 3 | 1 | 1 | 1 | **17** |

**Tabl 2.2: Proffil cyfranogwyr y grwpiau ffocws**

| Rhaglen | Oedolyn (25+) | Person ifanc (12-24) | Gwrywaidd | Benywaidd[5] | Anabl | Siaradwr Cymraeg | Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol | Wedi manteisio ar gymorth yn y gwaith | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CaW a CaW+ | 8 | 4 | 12 | 0 | 2 | 1 | 3 | Dd/B | **12** |

2.5. Er mwyn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â thuedd dethol (e.e., pe bai cyfranogwyr â phrofiadau cadarnhaol yn cael eu 'dewis â llaw' gan gynghorwyr neu fentoriaid y rhaglenni), lle bynnag y bo'n bosibl, cafodd y rhai a gyfwelwyd eu dewis ar hap o gronfeydd data CaW a CaW+. Yna rhannwyd y samplau a ddewiswyd gyda rheolwr/rheolwyr lleol CaW/CaW+ i gadarnhau a oedd unrhyw gyfranogwyr yn anaddas neu ddim ar gael ar gyfer cyfweliad. Lle nad oedd hyn yn bosibl (er enghraifft, pan oedd cronfeydd data yn anghyflawn) cysylltwyd â rheolwyr CaW/CaW+ a gofynnwyd iddynt nodi cyfranogwyr posibl eu hunain[6]. Yna cysylltwyd â chyfranogwyr posibl dros y ffôn a/neu e-bost a'u gwahodd i gymryd rhan yn y gwerthusiad.

[4] Roedd pryd y manteisiwyd ar gymorth yn y gwaith yn amrywio, ond fel arfer manteisiwyd arno o fewn y tri mis cyntaf ar ôl cael swydd.
[5] Yn anffodus, ar hap, dim ond dynion a gymerodd ran yn y ddau grŵp ffocws. Gwnaed nifer o ymdrechion i drefnu grwpiau ffocws eraill, ond ni fu'r rhain yn llwyddiannus.
[6] Cofnodwyd bod naw o'r cyfranogwyr wedi'u dewis yn y dull hwn yn nodiadau'r cyfweliad.

2.6. Mae’n bosibl bod y dull hwn wedi creu rhywfaint o duedd yn y sampl, tuag at y rhai a gafodd brofiadau mwy cadarnhaol o’r rhaglen (lle y’u dewiswyd gan y rhaglen) a/neu a fu'n ymwneud yn fwy â’r rhaglen, gan y gallai’r rhai ag ymgysylltiad mwy cyfyngedig â’r rhaglen fod wedi wedi bod yn llai tebygol o ddewis cymryd rhan pan gysylltwyd â nhw.

2.7. Mae enwau'r holl gyfrangwyr a gyfwelwyd wedi'u newid er mwyn sicrhau eu bod yn ddienw.

**Yr arolwg o gyfranogwyr**

2.8. Yn ystod Ionawr a Chwefror 2023, cynhaliwyd arolygon dros y ffôn gyda 451 o gyfranogwyr CaW+ a 236 o gyfranogwyr CaW gan IFF Research[7]. Cafodd data’r arolwg ar gyfer carfan CaW 2023 (236) eu cyfuno ag ymatebion a dderbyniwyd i arolygon blaenorol o gyfranogwyr ESF a gynhaliwyd yn ystod 2018 a 2022[8] (1,201[9]) i gynhyrchu sampl o 1,437 o gyfranogwyr CaW.

*Proffil y rhai a holwyd*

2.9. Mae Tabl 2.3 yn amlinellu proffil yr ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ yn ôl rhyw, ethnigrwydd, anabledd, a nodweddion eraill, o gymharu â holl gyfranogwyr CaW a CaW+. At ei gilydd, mae proffil y rhai a gymerodd ran yn yr arolygon yn weddol debyg i’r holl gyfranogwyr, ond mae'n werth nodi bod cyfrannau uwch o ddynion a phobl ethnig leiafrifol wedi ymateb i arolwg CaW+ o gymharu â’r sampl o ymatebwyr i arolwg CaW tra bod cyfrannau uwch o gyfranogwyr anabl a chyfranogwyr â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio wedi ymateb i arolwg CaW. Mae'r olaf yn adlewyrchu'r cwotâu a osodwyd ar gyfer yr arolwg a amlinellir yn fanylach mewn

[7] Mae adroddiad technegol ar gael sy'n nodi'r dull samplu, y cyfraddau ymateb, proffil yr ymatebwyr, y dull o wneud y gwaith maes a'r holiaduron a ddefnyddiwyd.
[8] Comisiynodd Llywodraeth Cymru IFF Research i gynnal Arolygon o Gyfranogwyr ESF yn 2018 a 2022. Roedd y rhain yn cynnwys arolwg o bobl a oedd wedi dilyn hyfforddiant neu wedi cael cymorth a ariannwyd gan raglen ESF 2014-2020 ac roeddent yn cynnwys cyfranogwyr CaW. Roedd Arolwg o Gyfranogwyr ESF 2018 yn cynnwys cwestiynau ychwanegol yn ymwneud â'r rhaglen CaW ond nid felly'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF 2022.
[9] Cafodd 55 o ymatebion i'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF eu dileu fel rhan o'r dadansoddiad gwrthffeithiol, gan nad oedd ganddynt rif adnabod unigryw i ganiatáu iddynt gael eu cysylltu â'r cofnodion gweinyddol, a gwnaed hyn cyn paratoi tablau'r arolwg.

adroddiad technegol ar yr arolwg. Ceir gwybodaeth ychwanegol am broffil y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn yr atodiad ac mewn adroddiad technegol ar yr arolwg.

**Tabl 2.3: Proffil yr ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ o gymharu â'r holl gyfranogwyr**

| | CaW | | CaW+ | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfranogwyr | Ymatebwyr i'r arolwg | Cyfranogwyr | Ymatebwyr i'r arolwg |
| Dynion | 48% | 49% | 63% | 67% |
| Menywod | 52% | 51% | 37% | 33% |
| Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | 7% | 7% | 20% | 13% |
| Anabl | 11% | 44% | 7% | 32% |
| Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio | 31% | 33% | 18% | 24% |
| Aelwydydd sengl | 41% | 39% | Ddim ar gael[10] | Ddim ar gael |
| Dibynyddion | 38% | 37% | Ddim ar gael[11] | Ddim ar gael |
| Gofalwyr | 35% | 32% | 23% | 17% |
| Sylfaen | 37,917 | 1,437 | 42,390 | 451 |

Ffynhonnell: Cronfeydd data rhaglenni, Arolygon Cyfranogwyr ESF (2018, 2022) ac arolygon CaW a CaW+ (2023)

**Cryfderau a chyfyngiadau'r sylfaen dystiolaeth ar nodweddion a phrofiadau'r cyfranogwyr**

2.10. Mae'r cyfle i driongli data'r rhaglenni, data arolwg a data o’r ymchwil ansoddol ar gyfer y gwaith maes hwn a gwaith maes cynharach gyda staff y rhaglen (Llywodraeth Cymru, 2023a), y gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith (Llywodraeth Cymru, 2024a) a hefyd y llenyddiaeth ymchwil ehangach, yn rhoi hyder ynghylch dilysrwydd mewnol y canfyddiadau. Mae integreiddio’r gwahanol ffynonellau yn rhoi adroddiad cadarn o’r hyn a ddigwyddodd, o ran y cysylltiadau, y profiadau a’r deilliannau ar gyfer

[10] Nid yw'r data hyn yn cael eu cofnodi ar gyfer cyfranogwyr CaW+.
[11] Nid yw'r data hyn yn cael eu cofnodi ar gyfer cyfranogwyr CaW+.

gwahanol grwpiau, ac, fel yr amlinellir isod, disgrifiad credadwy o sut a pham y digwyddodd y deilliannau hynny.

2.11. Oherwydd bod yr ymchwil ansoddol, a ddefnyddir i archwilio sut a pham y digwyddodd y deilliannau a welwyd, yn seiliedig ar sampl llai na'r ffynonellau cynradd eraill (h.y., data'r rhaglenni, y gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith a data'r arolwg), mae'n fwy agored i'r risgiau sy'n gysylltiedig â sampl anghynrychioliadol. Felly, er bod grwpiau gwahanol o gyfranogwyr â gwahanol fathau o brofiadau, er enghraifft, yn cael eu nodi a'u trafod yn adran 4, mae'n bosibl y gallai sampl mwy o faint, sy'n fwy cynrychioliadol, fod wedi arwain at nodi grwpiau eraill â gafodd brofiadau gwahanol neu unigryw. Er enghraifft, roedd profiadau ffoaduriaid, a all wynebu rhwystrau ychwanegol (gweler e.e., Llywodraeth Cymru, 2020) wedi'i gyfyngu i adroddiad un cyfranogwr a gyfwelwyd. Felly, ni ellir tybio ei fod yn adroddiad cynhwysfawr o brofiadau a theithiau'r cyfranogwyr.

2.12. Serch hynny, drwy driongli'r adroddiadau o'r ymchwil ansoddol gyda chyfranogwyr, gydag ymchwil ansoddol gyda staff y prosiect (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr) gallwn fod yn hyderus ei fod yn ddisgrifiad teg o brofiadau gwahanol grwpiau. Mae'r dull damcaniaethol trylwyr, gan ddefnyddio'r Model Newid Ymddygiad COM-B (Michie et al., 2011) hefyd yn rhoi hyder ynghylch y dehongliad o'r adroddiadau.

2.13. Y prif densiwn posibl yw rhwng canfyddiadau'r gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith, sy'n awgrymu effaith gymedrol ar ddeilliannau cyflogaeth, a'r data o'r arolwg a'r cyfweliadau ansoddol gyda chyfranogwyr, sy'n awgrymu effaith fwy. Fel yr amlinellir yn adran 4, gellid priodoli hyn i'r ffaith bod gwahanol fathau o effaith yn cael eu mesur neu eu hadrodd gan ddefnyddio'r ddau ddull. Gall yr ymchwil ansoddol hefyd helpu i esbonio pam mae'r effaith wrthffeithiol yn ymddangos yn fach pan gaiff ei mesur ar sail y tebygolrwydd y bydd cyfranogwr mewn swydd 12 mis ar ôl gadael y rhaglen.

## 3. Perfformiad: ymgysylltu â gwahanol grwpiau a'u cefnogi

**Canfyddiadau allweddol**

Mae'r ddwy raglen wedi ymgysylltu â niferoedd mawr o bobl ifanc ac oedolion (25+ oed) sy’n aml yn wynebu rhwystrau cymhleth i waith, gan gynnwys pobl heb gymwysterau neu â fawr ddim cymwysterau, pobl â chyflyrau iechyd sy’n cyfyngu ar eu gallu i weithio, cyfrifoldebau gofal a gofal plant, a oedd yn byw ar aelwydydd lle nad oedd neb yn gweithio a/neu a oedd yn ddigartref. Gwnaed cynnydd cryf iawn, yn enwedig gan CaW+ o ran ymgysylltu â phobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Serch hynny, roedd y cyfrannau o bobl o grwpiau blaenoriaeth eraill, megis pobl anabl, yn is na'r disgwyl. Ar ben hynny, fel yr amlinellir yn yr Adroddiad ar Berfformiad y Rhaglen (Llywodraeth Cymru, 2024b) er bod CaW+ wedi rhagori ar y disgwyliadau, roedd cyfanswm y bobl yr ymgysylltodd CaW â nhw yn is na'r targedau cychwynnol.

*Deilliannau ar gyfer grwpiau blaenoriaeth*
Gyda chymorth y rhaglenni CaW a CaW+, llwyddodd nifer mawr o gyfranogwyr o grwpiau blaenoriaeth i gael swydd. Fodd bynnag, ac eithrio pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, roedd cyfran y cyfranogwyr o grwpiau blaenoriaeth a gafodd swyddi yn is nag ymysg grwpiau eraill.

### Cyflwyniad

3.1. Fel yr amlinellwyd yn yr achos busnes gwreiddiol, nod gweithrediadau CaW o ran blaenoriaeth un ESF[12] oedd:

[12] Darperir cyllid ESF yng Nghymru drwy ddwy Raglen Weithredol: Rhaglen ESF Gorllewin Cymru a’r Cymoedd (GCC) 2014-2020 a Rhaglen ESF Dwyrain Cymru (DC) 2014-2020. Mae'r ddwy Raglen Weithredol yn seiliedig ar Flaenoriaethau sy'n disgrifio nod lefel uchel y Rhaglen Weithredol. Mae CaW yn mynd i'r afael â Blaenoriaeth 1 (B1): Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy, a'r amcan penodol, 'Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy’n Economaidd Anweithgar ac sy’n Ddi-waith yn yr Hirdymor sy’n 25 oed a throsodd, sy’n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth'; a Blaenoriaeth 3 (B3): Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc, sy'n canolbwyntio ar yr amcan penodol i 'Leihau nifer y bobl 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)'.

> ...ymgysylltu â'r bobl sydd bellaf o'r farchnad lafur (y rhai nad ydynt yn draddodiadol yn ymgysylltu â gwasanaethau prif ffrwd; h.y. y rhai sy'n ddi-waith yn yr hirdymor, pobl economaidd anweithgar, a allai fod ag un rhwystr cymhleth neu fwy, megis prinder sgiliau neu ddim sgiliau o gwbl, a chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio, cyfrifoldebau gofalu neu ofal plant, y rhai dros 54 oed, neu o aelwyd ddi-waith) gyda'r nod o'u cefnogi i gael gwaith. (tud.5, 6, Llywodraeth Cymru, dim dyddiad,a)

3.2. Fel yr amlinellwyd yn yr achos busnes gwreiddiol, nod gweithrediadau CaW o ran blaenoriaeth un ESF oedd:

> …ymgysylltu â phobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant mewn…. Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf….sydd yn bennaf heb unrhyw sgiliau neu sgiliau lefel mynediad, gyda'r nod o'u cefnogi i gael gwaith (tud 5, Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, b).

3.3. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae gan y rhaglen CaW+ feini prawf cymhwystra ychydig yn ehangach ac mae wedi'i thargedu at:

> … bobl sy'n byw mewn tlodi neu mewn perygl o fyw mewn tlodi nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cymunedau am Waith neu raglenni rhanbarthol eraill a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. (Llywodraeth Cymru 2022a).

**Cysylltiadau â gwahanol grwpiau**

3.5. Mae Tabl 3.1 yn amlinellu'r canrannau o gyfranogwyr CaW a CaW+ sydd â nodweddion gwahanol. Er bod cyfran y cyfranogwyr CaW+ o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn uwch ar gyfer CaW+, ar gyfer pob mesur arall, roedd cyfran y cyfranogwyr CaW a nododd fod ganddynt nodweddion sy'n gysylltiedig â risg uwch o ddiweithdra yn uwch. Mae hyn yn cefnogi'r ymchwil ansoddol gyda staff lle yr adroddwyd bod gan gyfranogwyr CaW+ yn gyffredinol lai o rwystrau a/neu rwystrau llai cymhleth na chyfranogwyr CaW (Llywodraeth Cymru, 2023a). Er bod hyn yn awgrymu bod y rhaglen yn gallu ymestyn allan i grŵp ehangach na CaW, mae hyn hefyd yn golygu nad yw wedi'i thargedu i'r fath raddau at y rhai â rhwystrau cymhleth.

**Tabl 3.1: Canran y cyfranogwyr CaW (Mai 2015 – Mawrth 2023) a CaW+ (Ebrill 2018 - Mawrth 2023) â nodweddion gwahanol**

| | Cyfranogwyr CaW | | | | Cyfranogwyr CaW+ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion** | **% y Di-waith yn yr Hirdymor (B1)** | **% y Rhai Economaidd Anweithgar (B1)** | **% B3** | **% yr holl gyfranogwyr** | **% yr holl gyfranogwyr** |
| Menywod | 43 | 62 | 41 | **52** | **37** |
| Dynion | 57 | 38 | 59 | **48** | **63** |
| Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | 8 | 8 | 5 | **7** | **20** |
| Yn Siarad Cymraeg | 4 | 6 | 8 | **6** | **8** |
| Dim cymwysterau | 26 | 24 | 19 | **23** | **22** |
| Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio [13] | 38 | 40 | 18 | **31** | **18** |
| Anabl[14] | 13 | 15 | 8 | **11** | **7** |
| Cyfrifoldebau gofal a gofal plant | 36 | 55 | 19 | **35** | **23** |
| O aelwyd heb waith[15] | 84 | 74 | 51 | **68** | **44** |
| Digartref neu wedi'i effeithio gan ddigartrefedd | 3 | 2 | 4 | **3** | **4** |
| Dros 55 oed | 13 | 8 | - | **8** | **Ddim ar gael** |

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli CaW a CaW+ Llywodraeth Cymru; Llywodraeth Cymru , 2023d

3.6. Wrth ddehongli’r data, mae’n bwysig cofio y bydd natur ac effaith pob rhwystr yn wahanol ar gyfer pob unigolyn. Fel y dengys adroddiadau'r cyfranogwyr a drafodir yn adran pedwar, bydd effaith anabledd neu gyfrifoldebau gofalu, er enghraifft, ar allu unigolyn i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth yn amrywio.

3.7. Mae Tabl 3.2 yn amlinellu canrannau'r cyfranogwyr CaW â rhwystrau cymhleth yn ogystal â'r rhai sy'n anabl. Mae hyn yn cadarnhau canfyddiadau ymchwil ansoddol gyda staff, a awgrymodd fod oedolion dros 25 oed (Blaenoriaeth 1) fel arfer yn wynebu mwy o rwystrau na phobl ifanc sy’n NEET (Blaenoriaeth 3) (Llywodraeth Cymru, 2023a).

[13] Gan fod cyfranogwyr yn gallu nodi mwy nag un rhwystr, gallant, er enghraifft, nodi bod ganddynt gyflwr iechyd sy’n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn ogystal ag anabledd

[14] Yn seiliedig ar y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed y nodwyd eu bod yn anabl yn yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth (APS). (Llywodraeth Cymru, 2022e)

[15] Cesglir data ar nifer yr aelwydydd heb waith – ond nid cyfran yr oedolion sy'n byw ar aelwydydd heb waith

**Tabl 3.2: Canran y cyfranogwyr CaW â rhwystrau dethol, Mai 2015 - Mawrth 2023**

| Math o rwystr / Ardal | **Pob un (%)** | **DC B1 (%)** | **GCC B1 (%)** | **DC B3 (%)** | **GCC B3 (%)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio | **31** | 33 | 41 | 20 | 18 |
| Cyfrifoldebau gofal a gofal plant | **35** | 51 | 44 | 18 | 19 |
| Dim cymwysterau | **23** | 16 | 27 | 10 | 22 |
| O aelwyd heb waith | **68** | 79 | 79 | 49 | 51 |
| Digartref neu wedi'i effeithio gan ddigartrefedd | **3** | 3 | 2 | 5 | 3 |
| Anabl | **11** | 14 | 14 | 10 | 7 |
| Dros 55 oed | **8** | 10 | 11 | Ddim ar gael | Ddim ar gael |

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli CaW a CaW+ Llywodraeth Cymru


*Proffil demograffig y cyfranogwyr o'i gymharu â'r boblogaeth 'heb waith'*[16]

3.8. Fel y dengys Siart 3.1, mae canran y dynion a'r menywod sy’n economaidd anweithgar, a’r ganran o bobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 25 oed a hŷn sy’n economaidd anweithgar, y mae'r rhaglen CaW yn ymgysylltu â nhw, yn debyg i boblogaeth economaidd anweithgar Cymru[17]. Fodd bynnag, o gymharu â phoblogaeth economaidd anweithgar Cymru, mae cyfranogwyr CaW:

- yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau;
- yn llai tebygol o fod yn anabl, o fod yn 54 oed neu o allu siarad Cymraeg[18].

[16] Defnyddir 'heb waith' i ddisgrifio'r rhai o oedran gweithio sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar.
[17] At ddibenion cymharu mae hyn yn seiliedig ar ddata ar gyfer oedolion o oedran gweithio (16-64) sy'n economaidd anweithgar.
[18] Nododd cyfrifiad 2021 fod 17% o oedolion 16 oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2023f). Yn yr un modd, amcangyfrifodd Arolwg Cenedlaethol Cymru fod 18% yn gallu siarad Cymraeg ar gyfer yr un garfan (Llywodraeth Cymru, 2022). Fodd bynnag, yn y cyfrifiad, dim ond 13% o’r boblogaeth economaidd anweithgar oedd yn gallu siarad Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2023f).

**Siart 3.1: Canran y cyfranogwyr economaidd anweithgar B1 CaW â nodweddion gwahanol (dros y cyfnod Mai 2015 - Mawrth 2023) o gymharu â phoblogaeth economaidd anweithgar Cymru**





Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW a CaW+ Llywodraeth Cymru, Cyfrifiad 2021, Arolwg o'r Llafurlu (LFS)

3.9. Fel y dengys Siart 3.2, mae canran y bobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 25 oed a throsodd sy'n ddi-waith, y bu i raglen CaW ymgysylltu â nhw, yn debyg i boblogaeth ddi-waith Cymru.[19] Fodd bynnag, o gymharu â phoblogaeth economaidd anweithgar Cymru, mae cyfranogwyr CaW:

- yn fwy tebygol o fod yn fenywod; o fod heb unrhyw gymwysterau; ac o fod yn 55 oed a throsodd; a
- yn llai tebygol o fod yn anabl neu o allu siarad Cymraeg na'r boblogaeth economaidd anweithgar yng Nghymru.

[19] At ddibenion cymharu mae hyn yn seiliedig ar ddata ar gyfer oedolion o oedran gweithio (16-64) sy'n ddi-waith.

**Siart 3.2: Canran y cyfranogwyr sy’n CaW sy'n ddi-waith yn yr hirdymor gyda nodweddion gwahanol (dros y cyfnod Mai 2015 - Mawrth 2023), o gymharu â phoblogaeth ddi-waith Cymru**





Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru, Cyfrifiad 2021, LFS

3.10. Fel y dengys Siart 3.3, o gymharu â'r holl bobl ifanc sy'n NEET[20], mae cyfranogwyr CaW B3:

- yn fwy tebygol o fod yn ddynion;
- yn llai tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau, o fod yn anabl neu o ddod o grŵp Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

[20] At ddibenion cymharu, ac o ystyried y cyfyngiadau yn y data, mae hyn yn seiliedig ar ddata ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed sy’n NEET. O ystyried y nifer bach o gyfranogwyr CaW rhwng 16-18 oed mae hyn hefyd yn briodol. Fodd bynnag, gan nad yw'r dadansoddiad hwn ar gael ar gyfer pobl ifanc anabl, gwneir cymhariaeth â'r holl bobl ifanc 16-24 oed sy'n anabl ac sydd hefyd yn NEET.

**Siart 3.3: Canran y cyfranogwyr B3 CaW â gwahanol nodweddion (dros y cyfnod Mai 2015 - Mawrth 2023), o gymharu â phoblogaeth Cymru o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru, Cyfrifiad 2021, LFS


3.11. Mae cyfyngiadau yn y data a gesglir gan CaW+ yn golygu nad yw'n bosibl eu dadansoddi mor fanwl â data CaW. Er enghraifft, nid yw'n bosibl gwahanu nodweddion cyfranogwyr economaidd anweithgar a di-waith. At hynny, roedd cyfran fach o gyfranogwyr CaW+ yn gyflogedig pan wnaethant ymuno â'r rhaglen. Mae Siart 3.4 felly'n cymharu nodweddion holl gyfranogwyr CaW+ â'r holl bobl economaidd anweithgar a di-waith yng Nghymru fel y mesurau procsi gorau sydd ar gael at ddibenion cymharu.[21]

3.12. Fel y dengys Siart 3.4, o gymharu â'r holl bobl ddi-waith neu'r rhai sy'n economaidd anweithgar yng Nghymru, mae cyfranogwyr CaW+:

- yn fwy tebygol o fod yn ddynion neu o grŵp Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol; ac
- yn llai tebygol o fod yn anabl neu o allu siarad Cymraeg.

[21] Oherwydd bod niferoedd y bobl economaidd anweithgar yn llawer uwch na nifer y bobl ddi-waith yng Nghymru, cânt eu trin fel dau grŵp ar wahân at ddibenion cymharu, yn hytrach na'u cyfrif gyda'i gilydd fel y boblogaeth sydd 'heb waith'.

**Siart 3.4: Canran y cyfranogwyr CaW+ â nodweddion gwahanol (dros y cyfnod Ebrill 2018-Mawrth 2023), o gymharu â phoblogaethau economaidd anweithgar a di-waith Cymru**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW+ Llywodraeth Cymru, Cyfrifiad 2021, LFS

**Cyfranogwyr anabl**

3.13. Fel yr amlinellir uchod, mae'n nodedig bod y ganran o gyfranogwyr anabl yn CaW a CaW+ yn llawer is na’r amcangyfrif o'r gyfran o oedolion anabl o oedran gweithio sy'n anabl neu'n economaidd anweithgar.[22] Fodd bynnag, mae hefyd yn nodedig bod canran cyfranogwyr CaW a CaW+ sy’n dweud bod ganddynt Gyflwr Iechyd sy’n Cyfyngu ar eu Gallu i Weithio yn sylweddol uwch ac o ystyried y tebygrwydd rhwng y diffiniad o anabledd a chyflwr o'r fath, gallai hyn fod yn arwydd bod y cyfraddau anabledd yn cael eu tangofnodi. Nododd staff y rhaglen hefyd fod cyfranogwyr yn dewis ymgysylltu â’r rhaglen yn wirfoddol a’i bod yn bosibl eu bod yn teimlo y gallai datgelu bod ganddynt nam gael effaith negyddol ar eu siawns o gael swydd.

3.14. Trafodir y camau a gymerwyd gan y rhaglenni i ymgysylltu â phobl anabl yn yr adroddiad gwerthusiad proses a theori newid (Llywodraeth Cymru, 2023a) ac ystyrir

[22] Mae’n anodd mesur yn union nifer yr achosion o anabledd, ac efallai nad y diffiniad a ddefnyddir yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a ddefnyddir pan fydd pobl yn hunan-adrodd bod ganddynt anabledd i CaW neu CaW+ (sy’n golygu y dylid bod yn ofalus wrth wneud cymhariaeth uniongyrchol). Serch hynny, mae amcangyfrif bod tua 20% o'r boblogaeth oedran gweithio yn anabl yn ymddangos yn rhesymol (gweler e.e. Llyfrgell Tŷ’r Cyffredin, 2022).

profiadau pobl anabl a gafodd eu cyfweld neu a gyfrannodd at grwpiau ffocws yn adran pedwar. Er eu bod wedi trafod eu namau, ac eithrio’r rhai a oedd yn profi anawsterau iechyd meddwl sylweddol nad oeddent yn teimlo’n barod i weithio neu nad oeddent yn gallu gweithio ar y pryd, ni ddisgrifiodd y rhan fwyaf eu nam fel rhwystr sylweddol i waith. Fodd bynnag, yn eu hanfod, roeddent yn bobl anabl a oedd yn ymgysylltu â'r rhaglen serch hynny, ac felly nid ydynt yn taflu llawer o oleuni ar y rhai a ddewisodd beidio ag ymgysylltu. Mae’n nodedig, er enghraifft, bod cyfran y bobl sy'n economaidd anweithgar (ac felly nad oeddent wrthi'n chwilio am waith, ac yn llai tebygol o ymgysylltu â rhaglenni fel CaW neu CaW+) oherwydd salwch hirdymor wedi bod yn cynyddu, yn enwedig ers y pandemig COVID-19 (SYG, 2023).

**Cymhelliant i ymgysylltu â'r rhaglenni**

3.15. Mae tystiolaeth am gymhellion cyfranogwyr yn deillio o’r cyfweliadau ansoddol, grwpiau ffocws ac arolygon cyfranogwyr yn cael ei thrafod yn fanwl yn adrannau 4 a 5. Mae hyn yn cadarnhau canfyddiadau'r cyfweliadau â staff y rhaglen (Llywodraeth Cymru, 2023a) a ddangosodd er mai’r Ganolfan Byd Gwaith yw’r brif ffynhonnell atgyfeirio, mae niferoedd llai yn dod drwy lwybrau eraill fel atgyfeiriadau gan ymarferwyr eraill (fel staff Awdurdod Lleol (ALl) a gweithwyr cymorth), drwy argymhellion ar lafar, enw da’r sefydliad ac i rai pobl ifanc, drwy gael eu cyflwyno gan eu rhieni. Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr i'r arolygon wedi clywed am raglenni CaW a CaW+ drwy'r Ganolfan Byd Gwaith, a chyfeiriodd 58 y cant o gyfranogwyr CaW a 65 y cant o gyfranogwyr CaW+ a allai gofio sut yr oeddent wedi dod i wybod am y rhaglenni at hynny. Fel y nodir yn Nhabl 3.3, nododd llawer llai o gyfranogwyr ffyrdd eraill y daethant i glywed am y rhaglenni. Roedd cyfranogwyr CaW yn fwy tebygol o fod wedi clywed am y rhaglen drwy ganolfan gymunedol tra bod chwiliadau ar-lein yn ffynhonnell bwysicach i gyfranogwyr CaW+.

**Tabl 3.3: Dull o ddod i wybod am raglenni CaW a CaW+ (y 10 prif ymateb)**

| | CaW | | CaW+ |
|---|---|---|---|
| Canolfan Byd Gwaith | 58% | Canolfan Byd Gwaith | 65% |
| Aelod o'r teulu neu ffrind | 9% | Aelod o'r teulu neu ffrind | 8% |
| Canolfan gymunedol | 5% | Chwilio ar-lein / ar y rhyngrwyd | 6% |
| Cynghorydd Gyrfa Cymru | 4% | Darparwr hyfforddeiaeth | 5% |
| Elusen neu sefydliad dielw | 3% | Coleg neu brifysgol | 3% |
| Sefydliad cymorth cyflogaeth neu hyfforddiant | 3% | Cyflogwr | 2% |
| Arall | 3% | Cynghorydd Gyrfa Cymru | 2% |
| Cyflogwr | 2% | Canolfan gymunedol | 2% |
| Llyfrgell | 2% | Ffair swyddi/gyrfa/prentisiaethau | 2% |
| Gweithiwr iechyd neu wasanaethau cymdeithasol proffesiynol | 2% | Sefydliad neu wefan y llywodraeth | 1% |
| Sampl | 1,287 | | 451 |

Ffynhonnell: Arolygon o Gyfranogwyr ESF (2018, 2022) ac arolwg CaW a CaW+ (2023) a allai gofio sut y clywsant am y rhaglenni

*Y rôl a chwaraewyd gan Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr CaW+*

3.16. Rhagwelwyd y byddai Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr CaW+ yn chwarae rhan allweddol mewn ymgysylltu â chyfranogwyr drwy weithio'n agos gyda grwpiau cymunedol lleol ac unigolion i godi proffil ac ymwybyddiaeth o'r rhaglen, gan greu cyfleoedd i nodi cyfranogwyr newydd, ymgysylltu â nhw a'u cofrestru ar y rhaglen. (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, c).

3.17. Roedd yn nodedig er bod y Swyddogion Ymgysylltu (a swyddogion cyfatebol) a gyfwelwyd yn cefnogi dulliau recriwtio uniongyrchol (fel cyfryngau cymdeithasol, taflenni a phosteri) roedd llawer o'u gwaith yn ymwneud â gweithio gyda phartneriaid. Fel y disgrifiodd un Swyddog Ymgysylltu, roedd partneriaid yn ei chael hi'n llawer

haws pan oeddent yn adnabod aelod o'r tîm ac yn ymddiried ynddo[23] ac y gallai gyflwyno cleientiaid posibl i bobl yr oeddent yn eu hadnabod wrth eu henw (e.e., “Richard” a “Helen” (h.y., Swyddogion Ymgysylltu)), yn hytrach nag atgyfeirio pobl at sefydliad dieithr. Fel y dywedodd Swyddog Ymgysylltu arall 'mae angen un person ac un wyneb ar bobl i'w adnabod ac i ymddiried ynddo' neu ni fyddent yn atgyfeirio pobl atynt.

3.18. Roedd cynnal ymwybyddiaeth partneriaid o'r rhaglenni hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig. Fel y disgrifiodd un Swyddog Ymgysylltu, y brif broblem y mae JCP yn ei hwynebu yw bod y staff mor brysur a bod yn rhaid 'taro'r drwm' yn gyson. Bydd Swyddogion Ymgysylltu yn mynychu eu cyfarfodydd staff rheolaidd i’w briffio am y rhaglenni ac ar ôl yr ymweliadau hyn, adroddwyd eu bod yn derbyn llif o atgyfeiriadau newydd ond wedyn eu bod yn prinhau dros amser, yn aml gydag atgyfeiriadau o’r fath yn cael eu cyfeirio at y fenter cyflogadwyedd ddiweddaraf sy'n cael eu hyrwyddo yng nghyfrafodydd staff JCP.

3.19. Dywedodd y Swyddogion Ymgysylltu hefyd fod mynychu digwyddiadau partneriaid, pan fyddent yn gallu cyfarfod â phobl sy'n mynychu at ddiben arall (e.e., diwrnod hwyl i'r teulu) hefyd yn ffordd fuddiol o recriwtio pobl y gellid eu darbwyllo i fanteisio ar yr hyn a gynigir gan CaW/CaW+. Ceir enghraifft o'r model hwn yn stori Anwen, cyfranogwr a gyfwelwyd, a ddisgrifir yn y testun yn y blwch isod.

**Hybiau a bachau: recriwtio pobl nad ydynt wrthi'n chwilio am waith**

Disgrifiodd Anwen sut y daeth i fyw menw rhan wahanol o'r wlad, lle nad oedd yn adnabod neb, ar ôl ffoi o berthynas gamdriniol. Ar ôl iddi ddechrau mynychu amrywiaeth o gyrsiau yn Hyb ei chyngor lleol, cafodd ei chyflwyno i'r rhaglen CaW ac yna ymuno â hi.

Yn yr un modd, disgrifiodd Swyddog Ymgysylltu hefyd sut y mae'n trefnu ac yn recriwtio pobl i sesiynau hyfforddiant blasu, a gynhelir fel arfer mewn canolfannau/swyddfeydd cymunedol partneriaid y maent yn ymweld â nhw.

[23] Mewn un ardal yn benodol, disgrifiodd Swyddog Ymgysylltu sut mae 'unrhyw un sy'n dod i mewn i'r ardal yn cael ei weld yn amheus' ac fel y dywedant, 'yr allwedd yw os ydych chi'n adnabod rhywun ac yn ffurfio perthynas - yna maen nhw'n sylweddoli: “mae hi'n iawn ac wedi cael eich cefn”. Hyd nes i chi gyrraedd y pwynt hwnnw ni fyddant yn ymddiried ac ni fyddant yn cyfeirio.'

Dywedwyd bod y rhain yn ffyrdd defnyddiol iawn o 'fachu' cleientiaid newydd posibl ar gyfer y rhaglenni. Roedd cyrsiau a llwybrau, fel yr 'Academi Cynorthwywyr Addysgu' hefyd yn cael eu hystyried yn ffordd wych o ymgysylltu â phobl, fel y disgrifiodd un Swyddog Ymgysylltu: 'Mae hynny [swyddi Cynorthwyydd Addysgu] eisoes yn eu meddyliau ac wedyn maen nhw'n gweld y cyfle.'

**Hygyrchedd, amlygrwydd ac enw da sefydliadau**

3.20. Cynlluniwyd CaW a CaW+ fel rhaglenni cymunedol. Er enghraifft, fel y noda'r Achosion Busnes ar gyfer CaW, rhagwelwyd y byddai'r rhaglenni'n elwa ar gysylltiadau â 'thimau Cymunedau yn Gyntaf' yr adroddwyd eu bod yn frand sydd wedi hen ennill ei blwyf o fewn cymunedau (tud. 50, Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a) ac yn cael eu darparu gan Gyrff Cyflawni Arweiniol sydd â phrofiad o ymgysylltu â'r gymuned (tud. 69, ibid).

3.21. Fel y nodwyd yn yr adroddiad gwerthusiad proses a theori newid, nododd staff y rhaglenni y cyfwelwyd â nhw (yn ystod y gwaith maes) yn gyson bod presenoldeb ffisegol CaW a CaW+ mewn cymunedau yn bwysig (Llywodraeth Cymru, 2023a). Ategwyd hyn gan yr arolwg a chan y rhai a gyfwelwyd. Roedd tri chwarter yr ymatebwyr i arolwg CaW (77 y cant neu 183 o blith 236) o'r farn ei bod yn bwysig bod y cymorth a gawsant wedi'i leoli mewn adeiladau cymunedol, yn hytrach na lleoliadau eraill fel swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith. Mae hyn yn cymharu ag ychydig yn llai na dwy ran o dair (64 y cant neu 287 o blith 451) o ymatebwyr i arolwg CaW+ a oedd yn meddwl hynny. Roedd menywod yn fwy tebygol o feddwl bod hyn yn bwysig, gydag 86 y cant (95 o blith 111) o fenywod a ymatebodd i arolwg CaW a 73 y cant (147 o blith 179) o fenywod a ymatebodd i arolwg CaW+ o'r farn hon.

3.22. Roedd hefyd yn nodedig bod staff a chyfranogwyr fel ei gilydd wedi nodi'n gyson bod gan un o Gyrff Cyflawni Arweiniol y sector gwirfoddol [24] a gynhwyswyd yn y gwaith maes enw da iawn yn yr ardal. Roedd hyn yn golygu bod pobl yn ymwybodol ohono a'i staff, fel 'y lle i fynd' i gael cymorth, ac yn hyderus y gallent eu helpu neu'n

[24] Cyrff Cyflawni Arweiniol, a sefydlwyd yn wreiddiol i gyflawni'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, sy'n gyfrifol am ddarparu CaW a CaW+ ym mhob ALl.

ymddiried ynddynt i'w helpu. Roedd cysylltiadau'r sefydliad â chyflogwyr lleol hefyd yn cael eu hystyried yn hanfodol i'w helpu i nodi cyfleoedd cyflogaeth posibl a sicrhau ei fod yn deall disgwyliadau cyflogwyr.

*Pam y dewisodd rhai grwpiau beidio ag ymgysylltu â’r rhaglen*

3.23. Gwyddom lawer llai am y rhesymau pam y dewisodd rhai darpar gyfranogwyr beidio ag ymgysylltu (gan nad oeddent wedi’u cynnwys yn y gwaith maes). Nododd y Swyddogion Ymgysylltu amrywiaeth o resymau gan gynnwys:

- ofnau neu bryderon ynghylch gweithio, megis costau posibl a cholli budd-daliadau, ofn methiant neu'r effaith bosibl ar eu hiechyd meddwl ac yn fwy cyffredinol, 'ofni'r hyn sy'n anhysbys ac ofn ymrwymo i rywbeth'; ofnau a allai fwrw gwreiddiau yr hiraf y byddai rhywun yn ddi-waith;
- dewis opsiynau eraill yn lle cyflogaeth (neu addysg a hyfforddiant), megis gwaith yn yr economi anffurfiol neu anghyfreithlon fel gwaith achlysurol, gwaith rhyw a gwerthu cyffuriau;
- diffyg hunan-gred, er enghraifft canfyddiad:
    - nad oedd ganddynt y sgiliau neu'r galluoedd angenrheidiol;
    - nad oeddent yn gallu manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth, o ystyried y rhwystrau megis gofal plant, anawsterau teithio i'r gwaith, neu wahaniaethu (e.e., ar sail eu hoedran) yr oeddent yn eu hwynebu.

3.24. O ganlyniad, adroddwyd (gan Swyddogion Ymgysylltu) fod gan rai cyfranogwyr posibl ddiffyg hunan-gred (ac felly'r cymhelliant) sydd ei angen i ymgysylltu â'r rhaglen, sy'n gyson â gwaith ymchwil arall (gweler e.e., Llywodraeth Cymru, 2024c). Dywedwyd hefyd y gallai'r diffyg hunan-gred hwn fwrw gwreiddiau yr hiraf y byddai rhywun yn ddi-waith. Mae hyn yn gyson â’r llenyddiaeth ehangach sy’n archwilio effeithiau diweithdra hirdymor, sydd hefyd yn nodi sut y gall sgiliau a galluoedd ddirywio tra bod pobl yn ddi-waith, gan greu effeithiau ‘creithio’ fel y’u gelwir (Arulampalam et al., 2001). Codwyd y ffyrdd y gallai anawsterau iechyd meddwl gyfrannu at, a dwysáu ofnau a phryderon, hefyd gan y Swyddogion Ymgysylltu a

gallai olygu, fel y dywedodd un Swyddog Ymgysylltu, bod rhai 'pobl wedi anobeithio' gan nad oes ganddynt 'ddim hunan-werth na brwdfrydedd'.

3.25. Mae hyn yn gyson ag adroddiadau a straeon y rhai a ddewisodd ymgysylltu â'r rhaglenni, a drafodir yn yr adran nesaf, sy'n dangos faint oedd yn wynebu rhwystrau tebyg, ond y bu i'w cymhelliant gael ei ysgogi gan newid yn eu hamgylchiadau, megis plant yn dechrau'r ysgol neu farwolaeth perthynas agos. Fel y dengys y cyfweliadau (a drafodir yn adran pedwar) a'r arolwg (a drafodir ymhellach yn adran pump), yn gyffredinol y cymhelliant oedd dod o hyd i swydd neu wella rhagolygon swyddi, ond roedd tua thraean y cyfranogwyr CaW a chwarter y cyfranogwyr CaW+ wedi'u cymell yn bennaf gan resymau eraill, megis eisiau gwella eu sgiliau.

**Deilliannau ar gyfer gwahanol grwpiau**

3.26. Fel y dengys Tablau 3.4. a 3.5, mae deilliannau cyflogaeth yn amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau yn CaW a CaW+. Ni ddylid gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng CaW a CaW+ oherwydd (a) bod y cyfnodau amser yn wahanol[25]; (b) mae'r dulliau ar gyfer cyfrifo canrannau yn wahanol ar gyfer CaW a CaW+[26]; a (c) fel yr amlinellir ym mharagraff 3.8, mae'r dystiolaeth yn awgrymu, yn gyffredinol, bod gan gyfranogwyr CaW+ rwystrau llai cymhleth i gyflogaeth na chyfranogwyr CaW.

3.27. Mae dadansoddiad pellach o ddata CaW+ dros oes y rhaglen hefyd yn awgrymu bod y cyfnod a gwmpesir gan y dadansoddiad o ddata CaW+ (h.y., Ebrill 2021 – Mawrth 2023) yn gyfnod pan oedd cyfran y cyfranogwyr a gafodd swydd yn uchel, o gymharu â chyfnodau eraill. Felly, nid yw data sy'n seiliedig ar y cyfnod hwn yn debygol o fod yn gynrychioliadol o gyfran y cyfranogwyr â nodweddion gwahanol sy'n cael swydd dros oes y rhaglen hyd yma (h.y. Ebrill 2018 - Mawrth 2023) ac mae cyfran y

---

[25] Er enghraifft, nid yw data CaW+ yn cynnwys data ar y cyfnod sefydlu, pan oedd cyfranogwyr yn cael eu cynnwys, ond roedd yn rhy gynnar i lawer symud ymlaen i gyflogaeth. Mae hefyd yn cwmpasu cyfnod pan oedd yr economi yn tyfu'n gryf ar ôl y pandemig.

[26] Mae data CaW yn seiliedig ar y gronfa ddata o gyfranogwyr, ac yn seiliedig ar ganran yr unigolion â nodwedd benodol a gafodd swydd. Fodd bynnag, mae dadansoddiad CaW+ yn cymharu canran yr holl gyfranogwyr a ymgysylltodd â'r rhaglen â chanddynt nodwedd benodol a chanran yr holl gyfranogwyr â'r nodwedd benodol honno a gafodd swydd. O ystyried yr amser rhwng y cysylltiadau a deilliannau, gallai newidiadau yng nghyfansoddiad y cyfranogwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ystumio'r ffigurau. Er enghraifft, pe bai ymgysylltiad cyfranogwyr o grwpiau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol yn cynyddu, byddai canran y cyfranogwyr o grwpiau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol sy'n cael swyddi yn gostwng, nes i'r cyfranogwyr newydd hynny ddechrau cael swyddi.

cyfranogwyr CaW+ â nodweddion gwahanol a gafodd swydd dros oes y rhaglen yn debygol o fod ychydig yn is na'r canrannau yn Nhabl 7.7.[27]

[27] Mae hyn yn seiliedig ar gymhariaeth o ganran yr holl gyfranogwyr a gafodd swydd dros oes y rhaglen (Ebrill 2018-Chwefror 2022) a chanran yr holl gyfranogwyr a gafodd swydd yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y dadansoddiad hwn (Ebrill 2021- Medi 2022). Yn anffodus, nid yw'n bosibl cymharu canran y cyfranogwyr â nodweddion gwahanol a gafodd swydd dros oes y rhaglen a chanran y cyfranogwyr â nodweddion gwahanol a gafodd swydd yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y dadansoddiad hwn i gadarnhau hyn.

**Tabl 3.4: Canran cyfranogwyr CaW a CaW+ a chanddynt nodweddion gwahanol a gafodd swyddi, Mai 2015 - Mawrth 2023**

| Nodweddion | Ie | Na |
|---|---|---|
| Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio | 34 | 50 |
| Anabl | 31 | 46 |
| Di-waith yn yr hirdymor | 40 | 48 |
| Economaidd anweithgar (25+ oed yn unig) | 44 | 38 |
| O aelwyd heb waith | 42 | 51 |
| O grwpiau Du, Asiaidd ac Ething Lleiafrifol | 51 | 45 |

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli rhaglen CaW Llywodraeth Cymru

**Tabl 3.5: Canran cyfranogwyr CaW+ a chanddynt nodweddion gwahanol[28] a gafodd swyddi, Ebrill 2021 - Mawrth 2023**

| Nodweddion | Ie | Na |
|---|---|---|
| Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio | 36 | 53 |
| Anabl | 34 | 50 |
| O grwpiau Du, Asiaidd ac Ething Lleiafrifol | 40 | 51 |

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli rhaglen CaW+ Llywodraeth Cymru

3.28. Yn amodol ar y cafeatau a amlinellir uchod, fel y gellid disgwyl, roedd y grwpiau hynny yr ystyriwyd eu bod yn fwy tebygol o fod â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, megis pobl anabl, y rhai sy'n ddi-waith yn yr hirdymor, a’r rhai â chyflwr iechyd sy’n cyfyngu ar eu gallu i weithio, yn llai tebygol o gael swydd. Cadarnheir hyn gan y gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith (Llywodraeth Cymru, 2024a) ac mae'n ganfyddiad pwysig o ystyried dyhead y rhaglen i helpu'r rhai sydd â rhwystrau cymhleth i oresgyn y rhwystrau hynny a chael swydd.

[28] Nid yw data ar gyfranogwyr a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor neu a oedd yn dod o aelwyd heb waith ar gael oherwydd yn wahanol i CaW, nid oes gan CaW+ gronfa ddata o gyfranogwyr sy’n cofnodi’r ystod lawn o nodweddion a deilliannau cyfranogwyr.

*Deilliannau cyflogaeth i bobl anabl*

3.29. Mae cyfraddau cyflogaeth ymhlith pobl anabl yng Nghymru (49 y cant) yn llawer is na'r cyfraddau cyflogaeth ymhlith pobl nad ydynt yn anabl (82 y cant) (StatsCymru, 2022a) ac mae’r rhaglenni wedi gwneud ymdrech sylweddol i rannu arfer gorau wrth gefnogi’r unigolion hyn, gan gynnwys sefydlu rhwydwaith o arweinwyr anabledd ym mhob tîm cyflawni, a gweithio gydag Anabledd Cymru, i ddarparu hyfforddiant ar y Model Cymdeithasol o Anabledd i fentoriaid a chynghorwyr (Llywodraeth Cymru, 2023a). Serch hynny, fel y dengys Tabl 3.4, mae bwlch o hyd yn neilliannau cyflogaeth y rhaglenni rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl.

3.30. Mae dadansoddiad o’r rhwystrau a adroddwyd gan gyfranogwyr CaW a CaW+ sydd â chyflwr iechyd sy’n cyfyngu ar eu gallu i weithio, o gymharu â’r rhai na nododd gyflwr o'r fath, yn awgrymu mai’r prif wahaniaethau yw i ba raddau y mae eu hiechyd yn rhwystr (gweler Tabl B.2). Amlygwyd difrifoldeb a chymhlethdod y rhwystrau y maent yn eu hwynebu, yn adroddiadau rhai o'r cyfranogwyr anabl hynny a gafodd eu cyfweld (ac a drafodir yn adran pedwar). Roedd y rhain yn cynnwys rhwystrau fel anawsterau iechyd meddwl sylweddol, a oedd yn aml yn anodd i’r rhaglenni fynd i’r afael â nhw. Serch hynny, mae'r bwlch cyflogaeth yn bryder o ystyried dyheadau'r rhaglenni mewn perthynas ag amcanion cydraddoldeb ac fe'i trafodir ymhellach isod.

*Deilliannau cyflogaeth i ddynion a menywod*

3.31. Fel yr amlinellir yn Nhabl 3.6 roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o gael swydd ac roedd y patrwm hwn yn gyson ar draws yr holl nodweddion a ystyriwyd. Nid yw'n hysbys pam mae hyn yn wir, ond gallai adlewyrchu'r ffaith bod gan fenywod fwy o gyfrifoldebau gofalu (adroddodd 33 y cant o fenywod bod ganddynt gyfrifoldebau o'r fath o gymharu ag 16 y cant o ddynion). Fel y dengys Siart 3.5, hyn, ynghyd â rhwystrau cysylltiedig fel methu â fforddio gofal plant a bod eisiau gweithio'n rhan-amser yn unig, oedd y gwahaniaeth allweddol rhwng y rhwystrau a adroddwyd gan ddynion a menywod.[29] Fel yr amlinellir yn adran pump, efallai fod cyfrifoldebau gofalu

[29] Er nad oedd y gwahaniaethau mor amlwg, roedd dynion ychydig yn fwy tebygol na menywod o nodi rhwystrau'n gysylltiedig â diffyg sgiliau a chymwysterau neu ddiffyg swyddi addas yn lleol (a allai hefyd adlewyrchu diffyg cyfatebiaeth rhwng eu sgiliau a’u cymwysterau a’r farchnad lafur leol).


wedi bod yn rhwystr arbennig o anodd i'w goresgyn, a gallai hyn fod wedi gwaethygu effaith unrhyw rwystrau eraill a wynebwyd ganddynt.

**Tabl 3.6: Canran cyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd CaW a chanddynt nodweddion gwahanol a gafodd swyddi, Mai 2015 - Mawrth 2023**

| | Gwrywaidd | | Benywaidd | |
|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion** | **Ie (%)** | **Na (%)** | **Ie (%)** | **Na (%)** |
| Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio | 37 | 53 | 31 | 45 |
| Anabl | 34 | 50 | 27 | 42 |
| Di-waith yn yr hirdymor | 42 | 53 | 36 | 43 |
| O aelwyd heb waith | 48 | 54 | 38 | 47 |
| O grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol | 55 | 48 | 46 | 41 |

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli rhaglen CaW+ Llywodraeth Cymru

**Siart 3.5 Anawsterau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i waith cyn ymuno â CaW/CaW+, a adroddwyd gan gyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd**




Ffynhonnell: Arolygon o Gyfranogwyr ESF (2018, 2022) ac arolygon CaW a CaW+ (2023)

*Pobl economaidd anweithgar a'r rhai sy'n ddi-waith yn yr hirdymor*


3.32. Er bod y rhaglen wedi cael trafferth cyrraedd ei tharged ar gyfer ymgysylltu â phobl economaidd anweithgar, fel y dengys Tabl 3.4 cafodd cyfran uwch o bobl economaidd anweithgar 25 oed a throsodd (44 y cant) swyddi o gymharu â phobl a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor (40 y cant). Fel y dengys Siart 3.6, iechyd llawer gwaeth cyfranogwyr economaidd anweithgar (a drafodir uchod), ynghyd â chyfrifoldebau gofalu (a drafodir uchod), oedd y gwahaniaeth allweddol rhyngddynt a’r cyfranogwyr hynny a oedd yn ddi-waith (o ran y rhwystrau a adroddwyd ganddynt). Mae'n drawiadol, o ran llawer o fesurau eraill (fel lefelau cymwysterau, sgiliau a phrofiad gwaith), bod cyfranogwyr economaidd anweithgar wedi nodi llai o rwystrau na'r rhai a oedd yn ddi-waith. Fel y dengys Siart 3.7, mae cysylltiad hefyd rhwng hyd y cyfnod o ddiweithdra a chynnydd yn y rhwystrau a adroddwyd gan gyfranogwyr CaW a CaW+. Mae hyn hefyd yn gyson â chanfyddiadau'r gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith (Llywodraeth Cymru, 2024a).

3.33. Os tybiwn mai'r bobl economaidd anweithgar (25+ oed) heb broblemau iechyd difrifol, neu gyfrifoldebau gofalu cymhleth, oedd y rhai a oedd yn fwy tebygol o gael swydd, gallai hyn helpu i egluro pam yr oedd deilliannau cyflogaeth yn gryfach yn gyffredinol ar gyfer pobl economaidd anweithgar o gymharu â'r rhai a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor. Mae hyn yn awgrymu bod dau is-grŵp o bobl economaidd anweithgar:

- y rhai â rhwystrau cymhleth sy'n gysylltiedig ag iechyd ac anabledd, a ddangosir gan adroddiadau rhai o'r rhai a gyfwelwyd, ac a drafodir yn adran pedwar, a
- y rhai a oedd wedi bod yn economaidd anweithgar tra roeddent, er enghraifft, yn gofalu am blant, ond nad oeddent yn wynebu rhwystrau sylweddol, heblaw am ddiffyg profiad gwaith diweddar. Amlygir hyn hefyd gan adroddiadau rhai o'r cyfranogwyr a gyfwelwyd ac a drafodir yn adran pedwar.


3.34. Fodd bynnag, ni allwn fod yn sicr o hyn ac er enghraifft, mae'n bosibl hefyd bod absenoldeb rhwystrau eraill wedi'i gwneud yn haws i'r rhai â rhwystrau sy'n gysylltiedig ag iechyd ac anabledd neu gyfrifoldeb gofalu, oresgyn yr heriau sy'n gysylltiedig â'u hiechyd, anabledd neu gyfrifoldeb gofalu.

**Siart 3.6. Canran cyfranogwyr CaW a CaW 25+ oed a oedd yn economaidd anweithgar a di-waith a nododd rwystrau gwahanol**




Ffynhonnell: Arolygon o gyfranogwyr CaW a CaW+

**Siart 3.7. Canran y cyfranogwyr CaW a CaW+ a fu'n ddi-waith am lai na blwyddyn, un i dair blynedd a mwy na thair blynedd, a nododd rwystrau gwahanol**




Ffynhonnell: Arolygon o gyfranogwyr CaW a CaW+

*Deilliannau cyflogaeth i bobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol*

3.35. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, fel y dangosir yn Nhabl 3.4, roedd y deilliannau cyflogaeth ar gyfer grŵp blaenoriaeth arall, pobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol, yn uwch na'r rhai ar gyfer cyfranogwyr gwyn Prydeinig neu Gymreig. Mae cyfraddau cyflogaeth cyffredinol ymhlith pobl o gymunedau Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol (65 y cant) yn is nag ymysg y boblogaeth wyn Brydeinig neu Gymreig (74 y cant), er bod y gyfradd gyffredinol hon yn cuddio gwahaniaethau amlwg ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig (StatsCymru, 2022b). Felly, mae'r gyfradd uwch o gyfranogwyr CaW o grwpiau Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol sy'n cael swyddi yn gryfder a gallai fod yn werth ymchwilio ymhellach i hynny. Er enghraifft, gall adlewyrchu cymhelliant cryf, yn enwedig ymhlith Mudwyr Economaidd Ewropeaidd, sydd wedi dod i'r DU i weithio (JRF, 2013), ond mae'n annhebygol mai dyma'r unig

reswm, gan mai dim ond tua 7 y cant o gyfranogwyr CaW Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol oedd yn fudwyr.[30]

[30] Roedd 7% yn fudwyr o'r UE; roedd 26% yn fudwyr o'r tu allan i'r UE ac nid oedd y gweddill yn fudwyr.

# 4. Profiadau a thaflwybrau'r cyfranogwyr

**Canfyddiadau allweddol**

Mae adroddiadau'r cyfranogwyr a drafodir yn yr adran hon yn ei gwneud yn glir, er bod cymhelliant i ddod o hyd i waith yn angenrheidiol, nid yw'n ddigon i alluogi pobl i chwilio am waith a dod o hyd i waith yn effeithiol; mae arnynt angen y gallu a'r cyfle i wneud hynny hefyd. Fel rhaglenni gwirfoddol, mae CaW a CaW+ yn dibynnu ar bobl yn meddu ar gymhelliant i ymgysylltu â’r rhaglenni – ac yn y cyd-destun hwn mae’n nodedig bod yr arolygon o gyfranogwyr wedi canfod nad dod o hyd i swydd yw’r unig gymhelliant. Fodd bynnag, ar ôl i bobl ddechrau ymgysylltu gall y rhaglenni helpu i feithrin cymhelliant pobl, drwy er enghraifft ddatblygu eu hunanhyder a'u gallu i chwilio am waith a gwella eu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth.

Mae adroddiadau’r rhai a gyfwelwyd hefyd yn ei gwneud yn glir ei bod yn ymddangos bod rhai pobl yn 'methu symud ymlaen’ a bod y rhaglen wedi cael trafferth i’w helpu, yn bennaf oherwydd:

- bod diffyg cyfatebiaeth rhwng eu dyheadau a'u galluoedd a/neu fynediad i gyfleoedd cyflogaeth;
- nid oes ganddynt gymhelliant i ddod o hyd i waith yn y cyfnod hwn o'u bywydau; neu
- mae eu galluoedd mor gyfyngedig ar hyn o bryd (e.e., o ganlyniad i iechyd meddwl gwael a/neu ddiffyg sgiliau a phrofiad) a/neu mae eu hamgylchiadau personol mor anodd ar hyn o bryd, fel na allant fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth yn y cyfnod hwn o'u bywydau.

**Cyflwyniad**

4.1. Nid oes unrhyw ddau fywyd yr un fath ac mae amrywiaeth y profiadau yn creu heriau o ran ceisio cynrychioli a disgrifio amrywiaeth teithiau'r cyfranogwyr yn ddigonol. Serch hynny, mae yna themâu cyffredin ac mae dadansoddiad o'r data a gasglwyd o gyfweliadau ansoddol gyda 29 o gyfranogwyr CaW ac 17 o gyfranogwyr CaW+ yn galluogi nifer o wahanol grwpiau, y trafodir eu profiadau yn yr adran hon, i gael eu nodi. Gwahaniaethir rhwng:

- y rhai a gafodd swydd, neu y credwyd eu bod yn debygol o gael swydd;
- y rhai na chawsant swydd ac y credwyd eu bod yn annhebygol o gael swydd.
- ystyrir profiad oedolion 25 oed a throsodd hefyd ar wahân i’r rhai o dan 25 oed.

4.2. Ysyrir hefyd adroddiadau cyfranogwyr a oedd hefyd wedi profi mathau eraill o gymorth cyflogaeth, yn fwyaf nodedig cymorth gan y Ganolfan Byd Gwaith (JCP); profiadau cyfranogwyr anabl; a phrofiadau'r cyfranogwyr hynny o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

4.3. Mae’r adran hon yn canolbwyntio ar brofiadau pobl â nodweddion gwahanol yn hytrach na phrofiadau’r rhai a fanteisiodd ar CaW o’u cymharu â’r rhai a fanteisiodd ar CaW+, oherwydd yn eu hadroddiadau, roedd y gwahaniaethau rhwng y ddwy raglen, yn ôl y disgwyl (o ystyried y tebygrwydd rhwng y ddwy raglen) yn fach. Fodd bynnag, trafodir y gwahaniaethau yn eu profiadau ymhellach yn adran pump.

**Ymchwilio i effaith y rhaglen drwy deithiau a phrofiadau'r cyfranogwyr**

4.4. Drwy ymchwilio i'r gwahaniaethau rhwng y rhai a gafodd swydd neu a oedd yn debygol o gael swydd a’r rhai na chafodd swydd ac y tybiwyd eu bod yn annhebygol o gael un, mae’r adroddiad yn ategu gwerthusiad o effaith empirig (gweler Llywodraeth Cymru, 2024a), sy'n ceisio mesur effaith y rhaglenni drwy ganolbwyntio ar adroddiadau ansoddol a defnyddio dull sy'n seiliedig ar theori i ymchwilio i sut a pham y digwyddodd newid, ac i bwy.

4.5. Fel y dengys hanesion y cyfranogwyr a gyfwelwyd a amlinellir isod, ymhlith y rhai sydd wedi cael swydd, neu debygol o gael swydd, mae effaith debygol y rhaglenni'n amrywio o effaith fach iawn i effaith trawsnewidiol. Mae hyn yn adlewyrchu barn y gwerthuswyr ac ni ellir ei ystyried yn ddiffiniol a chyflwynir storïau'r cyfranogwyr isod i ddangos ar ba sail y ffurfiwyd y farn. Yn y cyd-destun hwn, fel yr amlinellir yn adran pump, mae hefyd yn werth ystyried y canfyddiad bod tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ a oedd yn gweithio adeg yr arolwg yn credu bod y rhaglen wedi eu helpu i gael y swydd, ond nid felly tua thraean o'r cyfranogwyr.

*Gwahanol fetrigau effaith: pa mor gyflym y cafodd y cyfranogwyr swydd ac ansawdd a chynaliadwyedd y swyddi*

4.6. Os caiff effaith ei fesur yn nhermau cael gwaith, y math o waith a pha mor gyflym y mae cyfranogwyr yn cael swydd, caiff yr effaith fwyaf ei gwireddu gan y rhai na fyddent wedi cael gwaith yn absenoldeb y rhaglen; caiff effeithiau llai eu gwireddu gan y rhai sy'n cael swydd yn gyflymach a/neu sy'n cael swydd well; ac nid oes fawr ddim effaith, os o gwbl, ar y rhai sy'n cael yr un math o waith neu waith tebyg ar yr un cyflymder ag yr oeddent yn debygol o fod wedi'i wneud heb y rhaglen. Mae'r dadansoddiad mwy cynnil hwn o wahanol fathau o ddeilliannau yn helpu i egluro canfyddiadau'r gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith (Llywodraeth Cymru, 2024a), sy'n defnyddio mesur effaith deuaidd, sef y rhai a gafodd waith / na chawsant waith.


4.7. Wrth gwrs, mae ffyrdd eraill hefyd o fesur effaith ac er enghraifft, byddai Dulyn seiliedig ar 'allu' yn mesur yr effaith ar ryddid y cyfranogwyr i wneud dewisiadau y maent yn eu gwerthfawrogi, yn hytrach na chanolbwyntio'n ar ddeilliannau yn unig, megis gorfod cymryd unrhyw swydd sydd ar gael (McQuaid, 2014). Yn fwy cyffredinol, fel y dengys y straeon isod yn ei ddangos, gall yr effeithiau ar iechyd meddwl a hapusrwydd pobl, hyd yn oed ymhlith y rhai na wnaethant ddechrau gweithio, fod yn sylweddol.

*Y Model COM-B*

4.8. Fel y dengys Ffigur 4.1., mae'r fframwaith COM-B yn rhoi dealltwriaeth o ymddygiad (**B**ehaviours) a deilliannau fel cael gwaith, fel canlyniad rhyngweithio rhwng:

- galluoedd pobl (**C**apabilities) (fel eu hiechyd a'u sgiliau);
- mynediad i gyfleoedd (**O**pportunities) (fel addysg a hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth); a
- cymhellion **(M**otivations).

**Ffigur 4.1. Model newid ymddygiad COM-B**




Ffynhonnell: Michie, et al, 2011

4.9. Nid yw galluoedd pobl, y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, eu cymhellion a'u hymddygiad yn sefydlog ac maent yn rhyngweithio mewn ffordd ddeinamig. Er enghraifft, fel yr amlinellir yn adran tri, mae'r ffaith bod pobl yn credu bod y cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn gyfyngedig a/neu na allant gyflawni ymddygiad penodol (fel chwilio am swydd) yn tanseilio cymhelliant. Gall hyn olygu nad ydynt yn manteisio ar gyfleoedd, megis cyfleoedd addysg neu hyfforddiant, a allai gynyddu eu galluoedd, gwella eu cymhelliant, a chyflwyno cyfleoedd newydd iddynt (e.e., mynediad i swyddi sy'n gofyn am sgiliau neu gymwysterau penodol). I'r gwrthwyneb, gall llwyddiant, megis cael swydd agor cyfleoedd newydd, gwella galluoedd pobl (e.e., wrth iddynt feithrin sgiliau newydd) a chynyddu eu cymhelliant.

**Cyfranogwyr sydd bellach mewn gwaith neu’n debygol o gael gwaith, a fyddai wedi bod yn annhebygol o fod wedi cael gwaith yn absenoldeb CaW a CaW+**

4.10. Roedd cyfranogwyr yn y grŵp hwn, megis Kate, sy'n fam sengl gyda nifer fawr o blant, ychydig iawn o brofiad gwaith, ac a oedd mewn perthynas gamdriniol i ddechrau (y disgrifir ei stori isod), yn tueddu i nodi'r rhwystrau mwyaf i gyflogaeth. Roeddent wedi bod yn economaidd anweithgar, ond roedd ganddynt oll gymhelliant cryf i ddod o hyd i waith. Roedd angen y cymhelliant hwn arnynt i oresgyn y rhwystrau a wynebwyd ganddynt; ond, o ystyried anawsterau iechyd meddwl, diffyg hyder a/neu ymdeimlad bod y rhwystrau a wynebwyd ganddynt yn anorchfygol, gallai gymryd amser i'r cymhelliant hwn (a'u hunan-gred) ddatblygu. Yn nodweddiadol roedd angen amser a chymorth arnynt hefyd i feithrin eu galluoedd, megis iechyd

meddwl ac i gael mynediad i gyfleoedd, gan gynnwys, mewn rhai achosion, cymorth i gynnal eu cyflogaeth. Er eu bod yn defnyddio llawer o adnoddau, disgrifiwyd bod cael swydd wedi cael effaith drawsnewidiol ar eu bywydau.

**Taith hir ac anodd, ond trawsnewidiol, Kate**

Dechreuodd Kate ymwneud â CaW am y tro cyntaf yn 2016, pan oedd ei gŵr yn cael cymorth gan CaW. Nid oedd erioed wedi gweithio o'r blaen, heblaw am ambell swydd mewn caffi neu siop pan oedd hi'n ifanc iawn. Nid oedd Kate wrthi'n chwilio am waith ar y pryd, ond weithiau byddai'n dod gyda'i gŵr pan oedd yn ymweld â'i fentor, ac awgrymodd y mentor y dylai hithau gofrestru ar y rhaglen hefyd.

Eglurodd Kate fod ei hiechyd meddwl yn wael iawn ar y pryd, ac un o'r pethau cyntaf a wnaeth ei mentor oedd ei hatgyfeirio at gymorth[31] gan ei bod yn amlwg ei bod yn hunan-niweidio, bod ganddi anhwylder bwyta ac wedi dioddef yn sgil perthynas gamdriniol yn y gorffennol. Daeth hefyd yn amlwg yn gynnar iawn i'w mentor fod Kate mewn perthynas lle roedd yn cael ei rheoli drwy orfodaeth ac atgyfeiriwyd Kate at elusen i gael cefnogaeth gyda hyn.

Ar ôl cyfnod o sesiynau cwnsela a therapi, trefnodd ei mentor i Kate fynychu dau ddigwyddiad hyfforddi undydd.[32] Roedd hi'n hynod bryderus ynghylch mynychu'r rhain, i'r graddau y byddai ei mentor yn gwirio ei bod yn dal i fwriadu mynd ac yn ei hebrwng i'r ystafell hyfforddi a'i chyflwyno i gyfranogwyr eraill.

Yn 2017, roedd Kate wedi bod yn gweld neu'n siarad â'i mentor yn rheolaidd, gan gwblhau nifer o gyrsiau hyfforddi a lleoliadau gwaith, ond cafodd ei bwrw oddi ar ei hechel pan ddarganfu ei bod yn feichiog. Dywedodd nad oedd ganddi unrhyw fwriad i gael babi arall, gan fod ganddi nifer o blant eisoes, ond bod ei gŵr wedi ei rhoi dan bwysau – ymgais arall ar ei ran i'w rheoli hi a'i bywyd. Fe wnaeth y mentor CaW gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r cleient yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, gan ddarparu cefnogaeth foesol iddi.

[31] Cyfeiriwyd Kate at elusen a allai ei chefnogi gyda'i hiechyd meddwl a materion eraill, a'i helpu i gysylltu â'i meddyg teulu fel y gallai gael meddyginiaeth briodol ar gyfer ei chyflwr iechyd meddwl.
[32] Byddai'r rhain yn cynnwys cyrsiau fel hylendid bwyd a magu hyder.

Yn 2021, yn ystod y pandemig, penderfynodd Kate wahanu oddi wrth ei gŵr, a gofynnodd iddo adael cartref y teulu. Roedd pethau wedi mynd o ddrwg i waeth o ran ei ymddygiad rheolaethol yn ystod y cyfnod clo. Er bod hyn wedi helpu ei sefyllfa yn aruthrol, roedd Kate bellach yn fam sengl i nifer o blant. Er bod yr ieuengaf bellach yn yr ysgol a oedd yn golygu y gallai weithio, roedd gan nifer o'i phlant anawsterau iechyd.

Er gwaethaf yr her a wynebodd hi a’i phlant, gyda chymorth rhaglen CaW, cafodd gontract gwaith blwyddyn fel cynorthwyydd addysgu yn 2021, yn gweithio gyda disgyblion ag anawsterau dysgu. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd ei mentor yn cysylltu â Kate yn rheolaidd, yn fisol fel arfer, i weld sut roedd hi'n dod yn ei blaen ac i roi gwybod iddi ei bod yno iddi. Roedd Kate wrth ei bodd â'r swydd hon ac roedd yn siomedig o orfod gadael pan ddaeth ei chontract i ben. Roedd ei mentor yn ymwybodol mai contract dros dro yn unig oedd y swydd, ac felly anfonodd wybodaeth ati am gyfleoedd parhaol eraill.

Mae Kate yn dal i gael cyfnodau o iechyd meddwl gwael iawn ac yn ddiweddar fe wnaeth ei theulu ei hanfon i'r ysbyty. Pan ddaeth ei mentor i wybod, roedd hi ar y ffôn ar unwaith yn holi am ei hiechyd a'i theulu.

Ers canol 2022, mae Kate wedi bod yn gweithio fel cynorthwyydd addysgu i asiantaeth gyflenwi ac mae wedi gallu gwneud llawer o waith cyflenwi. Mae'n falch o gael y gwaith hwn, ond byddai'n well ganddi rôl fwy parhaol gan y byddai hyn yn rhoi mwy o sicrwydd iddi, ac yn golygu llai o deithio.

Er ei bod hi eisiau gweithio, o ystyried ei diffyg profiad gwaith a’r rhwystrau sylweddol a wynebodd o ystyried ei hamgylchiadau a’i hiechyd meddwl, mae’r rhaglen wedi bod yn hollbwysig o ran ei helpu i ystyried a chynllunio ei thaith i waith. Rhyw chwe blynedd yn ôl, ni fyddai erioed wedi dychmygu y byddai ganddi'r hyder i sefyll o flaen dosbarth o blant ysgol (rhai eithaf heriol yn eu harddegau) a chyflenwi yn absenoldeb athrawon. Mae wedi bod yn daith gwirioneddol drawsnewidiol.

4.11. Mae stori Kate yn un bwerus iawn, ond nid yw'n unigryw (nac yn 'allanolyn') o bell ffordd. Er bod hyd y gefnogaeth a gafodd yn anarferol, mae llawer o elfennau o'i

thaith yn codi eto yn adroddiadau cyfranogwyr eraill a gyfwelwyd. Er enghraifft, disgrifiodd Kim, menyw anabl yn ei 40au, brofiadau o gam-drin domestig, a'i bod yn teimlo na fyddai wedi 'cael y cryfder' i adael ei phartner camdriniol a symud ymlaen â'i bywyd heb gymorth CaW. Fodd bynnag, mae profiadau Russell a Mike a drafodir isod (tud 48-49) yn dangos effeithiau iechyd meddwl gwael, a leihaodd eu gallu a'u cymhelliant i chwilio am waith yn effeithiol a chael swydd, gan olygu eu bod nhw, yn wahanol i Kate, yn cael trafferth symud ymlaen.

**Cyfranogwyr sy'n oedolion a oedd yn debygol o fod wedi cael gwaith yn absenoldeb CaW a CaW+**

4.12. Yn eu hanfod, roedd cyfranogwyr yn y grŵp hwn yn tueddu i adrodd am lai o rwystrau i gyflogaeth. Roeddent oll wedi gweithio yn y gorffennol, yn disgwyl parhau i wneud hynny yn y dyfodol, ac roedd ganddynt gymhelliant cryf i ddod o hyd i waith, gan weld eu hunain fel ymdrechwyr nid sbachwyr (i ddefnyddio iaith wleidyddol diwygio lles[33]) ac yn aml yn cyfeirio at lefelau isel y budd-daliadau fel ffactor allweddol a oedd yn rhoi cymhelliant iddynt. Yn gyffredinol roedd ganddynt y gallu i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth a manteisio arnynt yn ogystal â mynediad cymharol hawdd i gyfleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, helpodd CaW neu CaW+ bobl fel Jon i chwilio'n fwy effeithiol a/neu gael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth newydd neu wahanol (e.e., dwy dalu am ardystiad fel cerdyn Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) neu gerdyn Diogelwch Trac Personol (PTS))[34] felly roeddent yn debygol o gael gwaith yn gyflymach a/neu gael mathau gwahanol o waith nag y byddent wedi'i wneud neu ei gael yn absenoldeb y rhaglen. Ategir hyn gan y niferoedd mawr o ymatebwyr i'r arolwg a nododd iddynt gael hyfforddiant yn y mathau hyn o feysydd yn adran pump.

| **Stori Jon: trefnu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth newydd:** |
|---|

[33] Yn wir, dewisodd rhai beidio â hawlio budd-daliadau yr oedd ganddynt hawl i'w cael pan oeddent yn ddi-waith, tra bod eraill, megis Karl, y disgrifir ei stori isod, yn awyddus iawn i wahaniaethu eu hunain oddi wrth y rhai 'nad oeddent eisiau gweithio'.
[34] Mae'n bosibl y bydd angen trwydded SIA rheng flaen ar gyfranogwyr sy'n chwilio am waith fel gweithiwr diogelwch yn y DU. Ceir rhagor o fanylion am y math o waith diogelwch ble mae angen trwydded SIA yn https://www.gov.uk/guidance/find-out-if-you-need-an-sia-licence. Mae angen cerdyn PTS ar gyfranogwyr sy'n chwilio am waith ar neu ger y rheilffordd ar seilwaith Network Rail.

Llwyddodd sawl cyfranogwr a gafodd anawsterau wrth ddod o hyd i waith yn y maes o'i ddewis, i ddod o hyd i gyfleoedd newydd gyd chymorth CaW neu CaW+. Er enghraifft, llwyddodd Jon i ddechrau ar yrfa newydd. Fel y dywedodd: 'Roeddwn i'n arfer bod yn sgaffaldiwr ond roeddwn i'n gweld ei fod yn rhy anodd yn gorfforol. Felly penderfynais fod angen i mi wneud rhywbeth arall.' Yn ddiweddarach eglurodd 'Ro'n i'n isel fy ysbryd o'r blaen ac yn teimlo nad oeddwn i'n mynd i unman. Roeddwn i'n cael fy ngorweithio heb ddigon o dâl… roeddwn i'n arfer cymryd cyffuriau ac yfed yn drwm'. Eglurodd 'Es i i'r Ganolfan Waith [ac fe wnaethon nhw fy nghyfeirio at CaW]. Roeddwn i eisiau cael y cerdyn PTS er mwyn gweithio ar y rheilffyrdd. Roedd yn gwrs pythefnos ac fe wnes i ei basio. Cyn gynted ag y gwnes i basio'r cwrs roeddwn yn y gwaith drannoeth. Rwyf wedi bod yn gweithio ar y rheilffyrdd ers hynny.' [35] Aeth ymlaen i ddisgrifio sut roedd y swydd newydd wedi rhoi 'y cymhelliant oedd ei angen arnaf i beidio â chymryd cyffuriau ac yfed. Ac mae'n llawer gwell i mi yn ariannol hefyd'.

*Newid cyfeiriad ar ôl moment dyngedfennol:*

4.13. Disgrifiodd sawl cyfranogwyr a gyfwelwyd fel Steve, Ceri, Carys, Sarah a Karl sut y bu i ddigwyddiadau arwyddocaol megis colli neu adael swydd, plant yn dechrau'r ysgol, marwolaeth perthynas agos; dechrau eto ar ôl ffoi o berthynas gamdriniol; neu ymateb i'w profiadau o'r pandemig, wneud iddynt fyfyrio a meddwl am gyfeiriadau newydd. Roedd eraill, fel Christine, a gefnogwyd gan CaW+, eisiau gyrfa newydd.[36]

**Steve: gobeithio am swydd newydd, well**

Disgrifiodd Steve, sy’n briod a chanddo ddau o blant, ac yr amheuir bod ganddo anghenion dysgu ychwanegol, sut yr oedd wedi bod yn ‘gweithio ar y trolis’ mewn archfarchnad ers 13 mlynedd, a gadawodd, oherwydd ‘doedd e ddim yn lle da i weithio…. Roedden nhw'n rhoi mwy a mwy o ddyletswyddau i mi'. Eglurodd ei fod

[35] Eglurodd Jon mai 'gwaith asiantaeth yw gwaith y rheilffyrdd i gyd. Mae gennych chi brif noddwr a dau noddwr eilaidd. Ac mae'ch prif noddwr yn cael gwaith i chi ac os nad oes ganddyn nhw waith yna gall eich rhoi ar fenthyg i'r noddwyr eilaidd i gael gwaith.'

[36] Fel y dywedodd Christine, er y gallai 'fynd i'r maes gofal yn ddigon hawdd', roedd am osgoi hyn, gan ei bod yn swydd a oedd yn achosi llawer o straen, roedd y cyflog yn isel ac nid oedd yn rhoi boddhad iddi.

'eisiau cael swydd cyn gynted â phosibl; dw i wedi bod yn gaeth i'r tŷ gyda'r un bach ac os yw'r tywydd yn braf rydyn ni'n mynd i'r parc, ond mae'n anodd bod adref pan ydych chi wedi arfer gweithio.' Eglurodd hefyd 'Rwyf wedi bod eisiau gwneud gwaith diogelwch ers blynyddoedd, ond doeddwn i ddim yn siŵr sut i'w drefnu neu a oeddwn i'n gallu talu amdano'. Helpodd CaW Steve i drefnu cwrs SIA a thalu amdano, a thalodd JCP am y drwydded SIA. Ar yr adeg y cafodd ei gyfweld, roedd yn gobeithio cael swydd fel swyddog diogelwch, ar ôl cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad.

**Ceri: ailhyfforddi a dechrau ar yrfa newydd**

Disgrifiodd Ceri, sy'n athrawes ysgol gynradd gymwysedig a fu'n gweithio fel Swyddog Addysg gydag elusen, sut y cymerodd seibiant gyrfa ar ôl iddi gael ei mab er mwyn gofalu amdano, gan hawlio budd-daliadau. Pan gyrhaeddodd bum mlwydd oed a dechrau mynd i'r ysgol yn llawn amser disgrifiodd sut yr oedd hi'n gwybod ei bod eisiau gwneud rhywbeth arall, newid cyfeiriad, 'gwthio fy hun, ysgogi fy hun, i astudio eto a chael swydd dda sydd hefyd yn rhoi boddhad' fel y dywedodd.

Roedd Ceri eisiau gweithio mewn llyfrgell, a chyda chymorth CaW[37] fe gwblhaodd gwrs lefel 2 yn y coleg lleol ac mae bellach yn gweithio mewn llyfrgell. Fel yr eglurodd, heb CaW: 'Rwy'n meddwl y byddwn i wedi llwyddo yn y pen draw. Yn ariannol, byddai wedi cymryd mwy o amser i mi ac efallai y byddai'r JCP wedi fy ngwthio i sefyllfa wahanol, a'm gorfodi i weithio mewn swydd arall yn ogystal ag ystyried ailhyfforddi mewn maes gwahanol. Hefyd, mae teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi i ddilyn fy mreuddwyd wedi bod yn bwysig iawn o ran cwtogi ar yr amser'.

[37] Disgrifiodd Ceri sut y bu i'w chynghorydd CaW drafod ei sefyllfa gyda hi, gwrando ar yr hyn yr oedd am ei wneud ac esbonio beth yw pwrpas CaW, beth y gall ei gynnig, beth sydd ar gael. Roedd Ceri eisiau dilyn cwrs dwy flynedd lefel 2 mewn Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth. Cytunodd JCP i dalu am y cwrs a thalodd CaW am wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadwodd ei chynghorydd mewn cysylltiad â hi drwy gydol y cwrs, gan roi anogaeth iddi.

**Sarah: 'Rwy'n meddwl y byddai fy mam wedi bod yn falch o weld beth rwyf wedi'i gyflawni hyd yn hyn'**

Disgrifiodd Sarah, menyw yn ei 40au ag anghenion dysgu ychwanegol, ei bod, ers gadael yr ysgol, wedi bod: '…. i mewn ac allan o waith dros y blynyddoedd. Dw i wedi gwneud llawer o bethau, wedi gweithio yn … y ffatri cywion ieir, dw i wedi gweithio mewn siop sglodion, dw i wedi gweithio … fel adeiladwr fframweithiau dur, glanhau llety myfyrwyr, gweithio mewn golchdy, fel cymorth cartref. Dw i wedi smwddio ar gyfer pobl yn breifat ac roeddwn i'n glanhau am tua 13 mlynedd tan COVID…[pan] ddaeth peth o'r gwaith i ben. Dw i'n gwybod fy ngwerth ac os na fydda i'n hapus neu'n teimlo fy mod i'n cael fy ngwerthfawrogi mewn gweithle, wnâi ddim aros yno, ond fydd hi ddim yn hir cyn i mi ddod o hyd i rywbeth arall'.

Esboniodd ei bod yn cael Credyd Cynhwysol nawr a dywedodd JCP wrthi am CaW. Esboniodd ei bod wedi clywed am y sefydliad trydydd sector a oedd yn darparu CaW: 'tua thair blynedd yn ôl, ond roedd fy mam yn sâl a bu farw o ganser o fewn tair wythnos. Doeddwn i ddim yn yr hwyliau iawn bryd hynny. Maen nhw'n dweud bod colli rhywun sy'n agos atoch chi yn gwneud i chi sylweddoli bod yn rhaid i chi wneud newidiadau i'ch bywyd'.

Gyda chymorth CaW, mae hi bellach wedi cwblhau nifer o gyrsiau hyfforddi ac yn gweithio fel garddwr hunangyflogedig. Disgrifiodd cymaint y mae’n mwynhau'r gwaith gan ddweud: 'Rwy'n meddwl y byddai mam wedi bod yn falch o weld beth rwyf wedi'i gyflawni hyd yn hyn' gan ychwanegu: 'Roedd gen i gynllun, ond doeddwn i ddim yn gwybod ble i ddechrau, pa gyrsiau y gallwn eu dilyn, gyda phwy y dylwn i siarad, nawr rwy'n teimlo [gyda chymorth CaW] fod ychydig mwy o siâp iddo a chamau clir y gallaf eu cymryd'.

**Carys: o'r dafarn i gynorthwyydd addysgu**

Bu Carys yn gweithio yn nhafarn ei rhieni am 13 mlynedd ar ôl gadael yr ysgol, ond yn ystod y pandemig, pan gafodd ‘amser i ffwrdd’ gyda’i phlant, penderfynodd bod angen newid arni: 'yr adeg honno roeddwn i'n teimlo nad oeddwn i eisiau colli mwy o amser gyda nhw.' Gyda chymorth CaW, hyfforddodd fel cynorthwyydd addysgu,

a hi bellach sy'n ennill y cyflog, gan weithio mewn ysgol, gydag oriau sy’n cyd-fynd ag oriau ysgol. Pan ofynnwyd iddi am y gwahaniaeth yr oedd y rhaglen wedi’i wneud, esboniodd: 'na, fyddwn i ddim wedi cael y swydd yma ar fy mhen fy hun, heb wybod sut i gwblhau'r hyfforddiant lefel 2 a heb allu talu amdano, mae'n ddrud. Weithiau gallwch chi ddilyn hyfforddiant yn seiliedig ar waith yn yr ysgol, os oes ganddyn nhw'r cyllid, ond dyw e ddim yn digwydd yn aml'.

4.14. Er bod y rhan fwyaf o’r rhai a gyfwelwyd wedi dewis newid cyfeiriad, roedd rhai enghreifftiau, fel Karl (a drafodir isod), lle roedd y newid yr oedd CaW neu CaW+ yn helpu'r cyfranogwyr i’w wneud, yn fwy o anghenraid, yn hytrach na dewis. Trafodir yr heriau sy'n gysylltiedig â phobl sy'n methu symud ymlaen o 'waith gwael' [38] a thangyflogaeth ymhellach isod.

**Karl: 'dod allan o rigol' – ond yn methu symud ymlaen o waith gwael?**

Disgrifiodd Karl, sydd yn ei 40au ac sydd â gradd meistr mewn tirfesur, sut y bu iddo fynd yn isel ei ysbryd ar ôl i'w fam farw, a 'mynd i rigol', dechrau yfed a'i fod 'ddim eisiau gweithio'. Fel y dywedodd, 'rydych chi'n colli trac, mae pob diwrnod yr un fath pan fyddwch chi'n ddi-waith [ond] mae'n anodd mynd yn ôl i mewn iddo [y drefn arferol o weithio]. Fodd bynnag, yn y flwyddyn newydd, yn wyneb trafferthion ariannol, penderfynodd fod angen iddo newid ei fywyd.

Nid yw'r daith wedi bod yn hawdd i Karl. Disgrifiodd sut y bu iddo ddod o hyd i swydd mewn canolfan alwadau, gyda chymorth CaW, ond nid yw hynny yn y maes y mae ganddo gymwysterau ynddo neu y mae am weithio ynddo, ac fel y dywedodd, dim ond oherwydd 'nad oedd dim byd arall ar gael' y cymerodd y swydd. Roedd hyn yn amlwg yn anodd iddo, ac fel y dywedodd wrth ddisgrifio’r ganolfan alwadau: 'heb fod yn snob, rwy'n gweithio gyda phlant, dydyn nhw ddim wedi bod i'r brifysgol, maen nhw'n 18 oed, dyma'u swydd gyntaf ... nid dyma'r amgylchedd rwy'n gyfarwydd ag ef'. Aeth ymlaen i ddweud, 'mae'n anodd, mae gen

[38] Mae’r comisiwn Gwaith Teg yn diffinio ‘gwaith teg’ fel ‘gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli’n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau’n cael eu parchu’ (tud 2. Llywodraeth Cymru, 2019) Bydd gwaith ‘gwael’ yn waith na fydd yn cynnwys un neu fwy o'r nodweddion hyn.

i ormod o gymwysterau ar gyfer y swydd, ac mae hi'n hyfryd [gan gyfeirio at ei reolwr] ond mae'n 24 oed... ac rwyf 20 mlynedd yn hŷn na hi'.

*Hwyluso'r llwybr i gyflogaeth*

4.15. Fel yr amlinellir yn adran 5, y ffynhonnell gymorth y nododd y cyfranogwyr a gyfwelwyd eu bod yn ei defnyddio amlaf oedd gweithgareddau chwilio am swydd, fel ysgrifennu CV a gwneud cais am swyddi. I rai o'r cyfranogwyr a gyfwelwyd, yn enwedig pobl ifanc heb lawer o rwystrau eraill (a drafodir isod), ond a oedd 'ar goll' braidd, dyma'r unig gymorth yr oedd ei angen arnynt. Mae'n debyg bod hyn wedi helpu pobl a fyddai wedi dod o hyd i waith ar ryw bwynt, i wneud hynny'n gyflymach, ac mewn rhai achosion wedi eu helpu i ddod o hyd i swyddi gwell.

**Cyfranogwyr sy'n oedolion sy'n ymddangos fel pe baent yn methu symud ymlaen ac yn annhebygol o gael gwaith**

4.16. Roedd cyfranogwyr yn y grŵp hwn yn wynebu amrywiaeth o rwystrau. Roedd rhai, fel Paulo y disgrifir ei stori isod, ac y bu’n rhaid iddo adael y proffesiwn o'i ddewis oherwydd problemau iechyd, wedi cael eu cyfyngu gan eu dyheadau. Roedd eraill, fel Abigail, wedi'u cyfyngu gan ddiffyg cymhelliant, a rhai, (y mae eu straeon yn cael eu disgrifio ar dudalennau 28-29), gan rwystrau dyfnach, cymhleth sy’n gysylltiedig ag iechyd meddwl a/neu iechyd corfforol gwael fel yn achos Russell a Mike neu ddiffyg profiad gwaith ffurfiol yn achos Rob. Cododd hyn gwestiynau anodd. Wrth gael eu cyfweld (yn ystod y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad interim), roedd y mentoriaid yn amlwg yn anghyfforddus yn rhyddhau pobl a oedd eisiau cefnogaeth gan y prosiect, ond yr oedd eu rhagolygon o symud ymlaen i waith yn ymddangos yn llwm. Fel yr esboniodd un o swyddogion gweithredol CaW+ (a gyfwelwyd yn y cylch diweddaraf o waith maes), er enghraifft, ‘os oes gan rywun broblemau iechyd meddwl gwael iawn, os yw am gymryd pethau'n araf [h.y., yn dal i gael cymorth, ond nid fel blaenoriaeth] tra byddant yn cael gwasanaethau eraill i ddatrys y problemau hynny yn gyntaf, mae hynny'n iawn'. Ond roedden nhw’n teimlo y byddai’n dda o beth pe bai ‘adran cyn cyflogaeth’ ar gyfer ‘pobl nad ydyn nhw’n barod am waith’ o ystyried, er enghraifft anawsterau iechyd meddwl neu’r angen i ddatblygu eu sgiliau

hanfodol, neu er enghraifft yn achos y rhai sy'n gallu dod i'r DU fel ffoaduriaid, amser i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.

**Paulo: Wedi'i gyfyngu gan ei ddyheadau?**

Mudodd Paulo i'r DU o dde-ddwyrain Asia i weithio yn y GIG yn gynnar yn y 2000au. Bu’n gweithio yn y GIG fel nyrs gymwysedig tan ganol y 2010au, pan argymhellodd ei feddyg teulu y dylai adael ei swydd a dod o hyd i waith amgen ar y pryd, gan ei fod mewn perygl o gael trawiad ar y galon neu strôc oherwydd pwysedd gwaed eithriadol o uchel.

Yn 2022, cafodd ei atgyfeirio at raglen CaW gan ei Anogwr Gwaith yn JCP. Ei uchelgais oedd cael gwaith fel gweinyddwr neu dderbynnydd gan ei fod yn teimlo y byddai’r math yma o rôl yn addas iddo, o ystyried ei gyfyngiadau iechyd. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod ei brofiad yn y maes hwn yn gyfyngedig iawn, gan nad yw erioed wedi gweithio yn y math yma o rôl o'r blaen a chyda chymorth CaW mae wedi bod yn mynychu sesiynau TG ddwywaith yr wythnos. Fodd bynnag, mae'n cael trafferth gyda'r cwrs a chan fod ei liniadur personol yn hen, mae'n rhaid iddo archebu slot yn y llyfrgell i ymarfer rhwng sesiynau.

Er bod swyddi ar gael yn ei dref leol, a’i fod yn gallu dal y bws yno ac yn ôl yn weddol gyfleus, mae rhagolygon Paulo o ran dod o hyd i waith gweinyddol yn ymddangos yn wael, oherwydd ei sgiliau TG gwan. Y prif wahaniaeth y mae CaW wedi'i wneud hyd yma yw sicrhau bod gan Paulo rywun y gall siarad ag ef am ei amgylchiadau personol, ei iechyd a'i iselder. Fel y dywedodd, 'mae'n helpu i siarad â rhywun' am y problemau y mae'n eu hwynebu. Nid yw’n teimlo mor unig wrth wynebu’r problemau, ac mae ei iechyd meddwl yn gryfach nag y byddai fel arall.

*Cyfranogwyr sydd wedi'u cyfyngu gan ofal plant*

4.17. Fel yr amlinellir yn adran tri, roedd y deilliannau cyflogaeth i fenywod yn llai na’r rhai ar gyfer dynion, a allai adlewyrchu’r ffaith bod gan fenywod fwy o gyfrifoldebau gofalu. Fel yr amlinellir yn adran pump, roedd y nifer a fanteisiodd ar gymorth gofal plant yn CaW a CaW+ yn fach, ac yn is na'r gyfran a nododd fod cyfrifoldebau gofalu

yn rhwystr, er y byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, gofalu am oedolion. Mae'n debyg bod hyn yn rhannol oherwydd bod rhai o'r cyfranogwyr yr oedd gofal plant yn brif rwystr iddynt, wedi'u hatgyfeirio at PaCE.[39] Serch hynny, nododd sawl Swyddog Ymgysylltu â Chyfranogwyr fod gofal plant yn rhwystr a allai fod yn anodd ei oresgyn ac roedd nifer o'r cyfranogwyr a gyfwelwyd ond yn chwilio am swyddi a oedd yn cyd-fynd ag oriau ysgol. Er enghraifft, fel y disgrifiodd Deborah, 'mae'n anodd iawn dod o hyd i ofal plant', mae'r rhestrau aros yn hir iawn ac roedd ceisio dod o hyd i rywbeth 'hyblyg' yn anodd iawn. Cadarnhaodd ei mentor fod dod o hyd i ofal plant lleol yn anodd iawn ac yn fwy cyffredinol nododd gwerthusiad PaCE:

> '…yn aml iawn, nid problemau'n ymwneud ag argaeledd neu fforddiadwyedd oedd yr unig rwystrau sy'n gysylltiedig â gofal plant a wynebir gan rieni. Roedd y rhwystrau a wynebwyd gan gyfranogwyr PaCE yn gyffredinol yn fwy cymhleth ac yn ymwneud â diffyg dealltwriaeth rhieni o'r 'farchnad' gofal plant a'r cymorth sydd ar gael iddynt er mwyn cael mynediad at ofal plant'. (tud. 53, Llywodraeth Cymru 2023b).

4.18. Er gwaethaf hyn, roedd enghreifftiau o bobl fel Anwen, a oedd yn dal i ddelio â thrawma yn sgil perthynas gamdriniol, a oedd wedi meddwl i ddechrau y byddai gofal plant yn rhwystr anorchfygol; fel y dywedodd, roeddwn i'n teimlo 'alla'i ddim gwneud hyn! Maen nhw'n wahanol oedrannau, un yn yr ysgol, un mewn cewynnau' ac o ganlyniad roedd yn teimlo mor 'ddiegni' ac na allai wneud dim. Fodd bynnag, gyda chefnogaeth sensitif ac anogaeth ei chynghorydd CaW, datblygodd 'y cryfder i oresgyn' ei thrawma a'r rhwystr yr oedd yn credu bod gofal plant yn ei achosi iddi. Fel y dywedodd, 'a dweud y gwir roedd gen i'r cymwysterau, ond roedd angen rhywun i fy ngwthio'.

**Abigail: Wedi'i chyfyngu gan ddiffyg cymhelliant?**

Gadawodd Abigail yr ysgol yn 16 oed a gweithiodd am rai blynyddoedd fel peiriannydd ac mewn lleoliad gofal cymdeithasol cyn priodi yn 21 oed a chael

[39] Ymyriad marchnad lafur a noddir gan Lywodraeth Cymru yw PaCE, sy'n anelu at ddarparu cymorth unigol i rieni di-waith sy'n ystyried mai gofal plant yw eu prif rwystr rhag manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant.

plant. Roedd yn cael ei chefnogi'n ariannol gan ei gŵr a oedd â swydd dda fel cyfrifydd, ond symudodd i Gymru o Loegr yng nghanol 2010 i ffoi oddi wrth ei gŵr a pherthynas anodd.

Eglurodd Abigail ei bod hi'n chwilio am waith (ac wedi bod yn chwilio am waith), ond nad oedd hi erioed wedi teimlo y byddai'n gallu dod o hyd i waith oherwydd y 'rhagfarn' sydd gan y Cymry yn erbyn y Saeson. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae staff o fewn y rhaglen yn amau ei bod hi'n gweithio'r system, er mwyn parhau â CaW gan ei fod yn gwneud ei bywyd yn haws gyda'i Hanogwr Gwaith JCP. Felly er y bydd Abigail yn cofrestru ar gyrsiau hyfforddi ac yn cwrdd i drafod ei CV, roedd ei mentor yn credu nad oedd ganddi'r ymrwymiad na'r dyfalbarhad sydd ei angen i ddod o hyd i waith. Serch hynny, er ei bod yn ymddangos yn annhebygol y bydd Abigail, a allai weithio pe bai'n dewis gwneud hynny, yn annhebygol o wneud hynny yn y dyfodol agos, mae hi bellach yn llai ynysig yn gymdeithasol ac mae hi wedi dysgu sgiliau newydd ac wedi meithrin gwybodaeth drwy'r cyrsiau hyfforddi amrywiol a fynychwyd ganddi.

*Cyfranogwyr sydd wedi'u cyfyngu gan rwystrau sylweddol*

4.19. Roedd yn ymddangos bod nifer o'r rhai a gyfwelwyd, fel Rob, Mike a Russell yn cael eu dal yn ôl gan rwystrau sylweddol nad oedd y rhaglenni'n gallu mynd i'r afael â nhw'n hawdd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- galluoedd cyfyngedig, o ystyried diffyg profiad gwaith ffurfiol yn achos Rob a phroblemau iechyd difrifol yn achos Mike a Russell; a
- mynediad cyfyngedig i gyfleoedd, o ystyried y ddibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd swyddi, a dibyniaeth ar ei ffôn i gael gwybodaeth am swyddi a gwneud cais amdanynt yn achos Rob.

**Rob: yn cael ei ddal yn ôl gan ddiffyg profiad gwaith ffurfiol ac anawsterau o ran cael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth**

Gadawodd Rob yr ysgol yn 15 oed ac mae bellach yn ei 40au cynnar. Mae'n anabl ac nid yw erioed wedi cael ei gyflogi'n ffurfiol ond mae wedi bod yn gwneud

gwaith achlysurol [gweithio yn yr economi anffurfiol] i eraill. Mae'n mwynhau gweithio yn yr awyr agored a'i brif waith achlysurol fu prosiectau tirlunio a ffensio, yn aml ar gyfer ffrindiau. Nid yw'n gweithio ar hyn o bryd, ond mae'n chwilio am waith. Mae ei fentor CaW wedi sôn wrtho am waith tirlunio a chyfleoedd gwaith symud dodrefn, ond nid yw wedi gwneud cais oherwydd ei fod yn meddwl nad oes llawer o bwynt gan nad oes ganddo CV (rhywbeth y mae'n credu yw'r prif rwystr iddo o ran dod o hyd i waith). Nid yw'n ymddangos ei fod wedi ystyried y rhwystrau eraill y mae'n eu hwynebu megis ei ddiffyg profiad gwaith ffurfiol, ei ddibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd swyddi, a'i ddibyniaeth ar ei ffôn i gael gwybodaeth am swyddi a gwneud cais amdanynt.

**Mike a Russell: Wedi'u dal yn ôl gan broblemau iechyd**

Mae Mike yn ddyn anabl, a gollodd ei swydd ddwy flynedd yn ôl. Mae ganddo broblemau symudedd, arthritis, diabetes, COVID-19 hirdymor a phroblemau gyda'i afu. Eglurodd 'Rwy'n aros am driniaeth ond gyda'r rhestrau aros…' nid yw'n disgwyl i hyn ddigwydd yn fuan. Disgrifiodd hefyd sut y mae'n dioddef o 'straen a gorbryder' ar ôl iddo golli ei fam.

Fe wnaeth ei weithiwr cymorth awgrymu CaW, gan fod Mike yn chwilio am bethau gwahanol i'w gwneud. Eglurodd ei fod yn 'gam mawr ar y pryd. Ar ôl i fy Mam farw doeddwn i ddim hyd yn oed yn gallu siarad am bum munud ar y ffôn' ond roedd ganddo ddiddordeb yn y cwrs cwnsela roedden nhw'n ei gynnig ac yn gobeithio y byddai'r rhaglen 'yn gallu fy nghael i'n ôl i'r gwaith'. Dywedodd fod y 'cwnsela a'r grŵp ffocws [dynion] wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn' iddo. Esboniodd 'mae'n braf iawn cael rhywle i fynd ar ddydd Mercher [y grŵp dynion]. Rydyn ni'n cael cwisiau a dw i'n teimlo'n rhan o'r grŵp. Mae'n gwella eich teimlad o hunanwerth. Roeddwn ar fy isaf ac er nad wyf yr holl ffordd yno eto, mae wedi rhoi llawer mwy o hyder i mi.'

Mae hefyd wedi cael rhywfaint o hyfforddiant a ddisgrifiodd fel 'iawn', ond nid yw'n teimlo'n barod i weithio eto – eglurodd fod ei weithiwr cymorth wedi dweud wrtho am beidio â 'rhoi gormod o bwysau arnaf fi fy hun na gwneud gormod yn rhy

fuan'. Fodd bynnag, gyda chymorth ei fentor CaW, mae’n ymchwilio i gyfleoedd gwirfoddoli yn y gymuned gyda mudiad yn y sector gwirfoddol ac mae’n gobeithio dechrau gwirfoddoli yn y chwe mis nesaf, er mwyn iddo allu helpu eraill.

Yn yr un modd, disgrifiodd Russell, dyn anabl sy’n dioddef o iselder a phroblem niwrolegol, nad oedd yn gwybod beth oedd ei eisiau yn sgil cymryd rhan yn CaW - roedd eisiau rhywun i’w helpu ac roedd yn teimlo ei fod wedi rhoi cynnig ar bob opsiwn gyda'r JCP. Dywedodd ei fod yn teimlo nad oedd gan ei anogwr gwaith lawer o amser iddo, a disgrifiodd ei fod wedi dweud wrth ei anogwr gwaith am ei iselder yn ddiweddar - ac yn ôl Russell, 'fe ddwedodd wrtha'i am ddal i gael nodiadau salwch'. Roedd Russell yn amlwg yn gwerthfawrogi cymorth CaW gan wneud sylwadau cadarnhaol iawn am y rhaglen, a (gyda chymorth CaW) llwyddodd i gwblhau sawl cwrs a gwneud rhywfaint o waith gwirfoddoli gydag elusen leol, ond pan ofynnwyd iddo 'beth nesaf? Beth ydych chi'n gweld eich hun yn ei wneud ymhen chwe mis?' eglurodd nad yw wedi meddwl mor bell ymlaen â hynny; y cyfan mae eisiau ei wneud yw gwella.

4.20. Efallai fod adroddiadau pobl fel Mike a Russell yn esbonio’n rhannol pam roedd effeithiau hyfforddiant, o ran helpu pobl i gael swydd, a drafodir yn adran pump, weithiau’n fach, yn enwedig i gyfranogwyr CaW sy’n dueddol o wynebu rhwystrau mwy cymhleth. Serch hynny, hyd yn oed ymhlith y rhai na chawsant waith, gallai'r effeithiau ar iechyd meddwl a llesiant fod yn sylweddol; er enghraifft, cafwyd disgrifiad byw gan un aelod o grŵp ffocws a ddywedodd 'mae'n anodd disgrifio sut rwy'n teimlo nawr o'i gymharu â sut yr oeddwn i bum mlynedd yn ôl. Roeddwn i'n ystyried hunanladdiad bryd hynny. Rwy'n berson gwahanol nawr. Mae hyn i gyd wedi helpu i'm cefnogi.' Mae’r manteision ehangach hyn hefyd yn amlwg yn ymatebion y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, a drafodir yn adran 5.

**Cefnogi pobl ifanc yn ystod cyfnodau pontio**

4.21. Roedd y bobl ifanc (y rhai 16-24 oed) a gyfwelwyd yn perthyn i ddau grŵp cyffredinol, y rhai a oedd braidd yn ddigyfeiriad, ond yn ymddangos fel y gallent fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth, ac a oedd felly’n fwy tebygol o ail-ymgysylltu, a’r rhai a oedd yn

wynebu rhwystrau dyfnach, a oedd yn ymddangos yn llawer llai tebygol o ailymgysylltu heb gymorth gan CaW neu CaW+.[40]

*Pobl ifanc a oedd heb benderfynu neu'n ansicr*

4.22. Roedd nifer o bobl ifanc a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth, megis Cath, mewn cyfnod pontio, ar ôl gadael yr ysgol, ond heb benderfynu neu'n ansicr beth i'w wneud, neu mewn un achos, yn chwilio am waith yn y cyfnod cyn dechrau yn y coleg ym mis Medi. Er eu bod braidd yn ddigyfeiriad, roedd yn ymddangos yn gyffredinol bod ganddynt y gallu a'r gefnogaeth i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth a dod o hyd iddynt.

**Cath: dod o hyd i'r yrfa iawn**

Mae Cath yn fenyw ifanc ddisglair a huawdl a wnaeth yn dda yn ei harholiadau TGAU ond a adawodd y chweched dosbarth. Bu'n gweithio yn McDonalds yn ystod gwyliau'r ysgol ac yna am gyfnod ar ôl gadael yr ysgol. Fodd bynnag, roedd y rheolwr yn berson anodd ac roedd hi'n cael trafferth cyrraedd y gwaith oherwydd ei bod yn dibynnu ar lifftiau. Gadawodd McDonalds a chymerodd swydd mewn caffi lleol lle y bu'n gweithio nes iddi gael ei 'diswyddo' am gymryd gormod o amser o'r gwaith ar ôl i'w mam-gu farw.

Pan gafodd ei chyfweld, esboniodd Cath ei bod yn 'cael trafferth gydag iechyd meddwl' ar y pryd, gan ychwanegu ei bod wedi bod yn eithaf pryderus erioed, hyd yn oed yn yr ysgol. Dywedodd ei bod wedi bod yn ddi-waith ers tro ond ei bod wedi bod yn chwilio am waith, ond mewn ffordd braidd yn ddi-ffrwt; 'ceisio chwilio am le na fyddai'n rhoi gormod o straen arnaf', fel y dywedodd. Fodd bynnag, roedd Christine, mam Cath, yn awyddus i Cath weithio a chysylltodd â Gwasanaeth i Mewn i Waith y Cyngor ar ei rhan, a arweiniodd at Cath yn ymuno â CaW.

Gyda chefnogaeth ac anogaeth CaW, ymchwiliodd Cath i yrfaoedd yn y maes gofal plant i ddechrau. Gwnaeth CaW ymholiadau a threfnu cyfweliad a shifft dreialu i Cath mewn meithrinfa leol. Eglurodd Cath ei bod wedi sylweddoli ar y pwynt hwn

[40] Mae hyn yn adlewyrchu'r llenyddiaeth ymchwil ehangach sy'n trafod pobl ifanc NEET, sy'n nodi tri grŵp: pobl ifanc sydd: 'yn gylchol, 'yn mynd drwy gyfnod pontio' neu 'yn agored i ddysgu', sydd ag agweddau cadarnhaol ar y cyfan tuag at addysg neu hyfforddiant ac sy'n debygol iawn o ailymgysylltu yn y tymor byr, ac felly dim ond cymorth cyffyrddiad ysgafn sydd ei angen arnynt; y rhai sydd 'heb benderfynu', yn anhapus â'r cynnig addysg neu hyfforddiant, ond nad ydynt yn wynebu rhwystrau sylweddol; a'r rhai sydd â rhwystrau cymhleth a/neu sefydledig sy'n debygol o fod angen cymorth parhaus (SAC, 2014; Speilhofer et al (ibid)).

fod ymarferoldeb cyrraedd y feithrinfa ar y bws yn rhy gymhleth, '[byddai'n rhaid iddi] godi am bump y bore a dal dau fws ac yna [fyddai hi] ddim yn cyrraedd adref tan tua chwech'. Ychwanegodd ei bod yn poeni am ddal bysiau beth bynnag ond yn gynnar yn y bore 'rydych chi'n gweld ar y newyddion y pethau sy'n digwydd i ferched'. Ychwanegodd Cath fod cael cynnig shifft dreialu mewn lleoliad gofal plant wedi gwneud iddi amau a oedd hi’n addas ar gyfer y math hwnnw o waith mewn gwirionedd – gwelodd 'sut beth oedd e mewn gwirionedd … roedd llawer yn digwydd ac roedd yn dipyn o straen'.

Ar ôl i Cath newid ei meddwl, cymerodd mentor Cath ei CV (yr oedd CaW wedi helpu Cath i'w ddatblygu) a'i ddefnyddio i wneud cais am swyddi ar ran Cath. Esboniodd Cath ei bod wedi cael ei gwahodd i gyfweliad gan fanwerthwr lleol, profiad a oedd yn 'ddirdynnol... yn frawychus iawn' iddi. Fodd bynnag, cynigiwyd y swydd iddi, dros gyfnod y Nadolig i ddechrau, ond mae ei chytundeb wedi cael ei ymestyn ers hynny. Rhoddodd CaW gymorth i Cath, gan drefnu cyllid i dalu am docyn bws i’r gwaith ac yn ôl ar gyfer mis cyntaf Cath yn ei swydd. Dywedodd Cath fod hyn yn help mawr gan ei fod yn golygu nad oedd yn rhaid iddi ofyn i'w mam na'i modryb am arian nes iddi gael ei thalu.

Esboniodd Cath 'nawr [ei bod] wedi dechrau gweithio, mae [ei] hiechyd meddwl gymaint yn well oherwydd [mae ganddi] rywbeth i'w wneud ac mae'n rhoi trefn [iddi] … yn lle eistedd yma yn meddwl am bethau'. Roedd hi hefyd yn teimlo'n fwy hyderus ynddi hi ei hun, yn y gwaith a'r tu allan iddo. Dadleuodd na fyddai mewn gwaith nawr 'heb Cymunedau i [sic] Waith’, gan ychwanegu bod ‘angen mynd drwy’r profiad yn y feithrinfa’ er mwyn darganfod nad yw gofal plant neu addysgu yn addas iddi hi a phe bai wedi 'mynd yn syth i [hepgor enw'r cyflogwr] [byddai ganddi] amheuon' ac efallai y byddai'n dal i ddyheu am yrfa yn y maes gofal plant/addysgu.

*Pobl ifanc nad oedd angen cymorth arnynt*

4.23. Serch hynny, roedd enghreifftiau o bobl ifanc fel Aaron, y gellid dadlau nad oedd angen cymorth y rhaglen arnynt o gwbl, yn wahanol i Cath.

**Aaron: hwyluso taith wedi'i chynllunio**

Ar ôl gadael yr ysgol, dechreuodd Aaron gwrs lefel 2 mewn weldio a ffabrigo metel ac yna cafodd brentisiaeth weldio. Buan iawn y darganfu nad oedd y math hwn o waith at ei ddant a gadawodd y swydd i ddychwelyd i'r coleg i astudio ar gyfer cymhwyster lefel 2 mewn Busnes. Gyda chefnogaeth ac anogaeth ei dad ymgeisiodd am brentisiaeth mewn cyngor lleol (a bu'n llwyddiannus).

Cyfarfu Aaron â mentor ieuenctid CaW yn y coleg a esboniodd fod CaW yn 'noddi hyfforddeion' yn y cyngor ac esboniodd y gallai'r rhaglen dalu am ei docyn bws am ei fis cyntaf yn y swydd yn ogystal â darparu dillad gwaith iddo. Pwysleisiodd y mentor wrth Aaron fod 'y mis cyntaf yn anodd oherwydd mae [gweithwyr y cyngor] yn cael eu talu fis mewn llaw'. Fe wnaethant hefyd drafod 'cod gwisg smart' y cyngor, rhywbeth nad oedd wedi croesi meddwl Aaron cyn hynny. Dywedodd Aaron ei fod wedi 'rhoi ychydig o arian o'r neilltu' ar ôl gweithio dros wyliau'r haf, ond ei fod yn hapus i gofrestru gyda CaW yn y fan a'r lle, er mwyn manteisio ar y cymorth a oedd ar gael. Er bod hyn wedi hwyluso ei daith, prin oedd y dystiolaeth i awgrymu na fyddai wedi parhau â'r brentisiaeth yn absenoldeb cymorth gan y rhaglen.

*Pobl ifanc mewn cylch o fynd i mewn ac allan o waith*

4.51. Mae rhai pobl ifanc fel Jodi, mewn cylch o ddiffyg gwaith a gwaith gwael, y gallant ei chael yn anodd dianc oddi wrtho (Llywodraeth Cymru, 2024c).

**Jodi: brwydro i dorri'n rhydd o gylch o waith gwael / dim gwaith**

Mae Jodi, sy’n anabl, yn hawlio Taliad Annibynnol Personol a Chredyd Cynhwysol ond canfu oherwydd bod ei phartner yn gweithio, bod ei thaliadau Credyd Cynhwysol yn amrywio, a oedd yn golygu ei bod hi a'i phartner yn cael trafferthion ariannol, felly roedd hi'n awyddus i weithio.

Anfonodd ei mentor CaW+ fanylion at Jodi am swydd mewn caffi a oedd tua 10-15 munud ar fws o'i chartref. Cytunodd Jodi i roi cynnig arni a gwnaeth ei mentor gais am y swydd ar ei rhan - 'fe wnaeth hi'r cais ar fy rhan i' fel y dywedodd Jodi.

Llwyddodd Jodi i gael y swydd, a chafodd dalebau i dalu am y tocynnau bws am y cwpl o wythnosau cyntaf yn y gwaith, nes iddi gael ei thalu. Dywedodd Jodi ei bod yn mwynhau'r swydd ond bod un o'i chydweithwyr wedi 'pigo' arni a bod hynny wedi effeithio ar ei hiechyd meddwl a'i bod wedi gadael y swydd ar ôl tua thri mis.

Wedi hynny, daeth Jodi o hyd i swydd arall, y tro hwn mewn tafarn, ond gadawodd y swydd hon ar ôl mis am wahanol resymau, gan gynnwys y ffaith bod angen iddi ddal dau fws i gyrraedd yno; ei bod yn ofynnol iddi weithio tan 9 o'r glych y nos a'i bod yn bryderus ynghylch colli'r bws gartref; bod y gwaith yn 'straen' a'i bod yn teimlo ei bod yn cael ei 'gorweithio'; ei bod yn gorfod 'cerdded' a 'rhuthro o gwmpas', ac roedd hi'n cael hynny'n anodd yn gorfforol. Mae Jodi bellach yn cael ei chefnogi gan y rhaglen i edrych ar swyddi yn y maes gofal cymdeithasol. Esboniodd Jodi, sydd wedi ffurfio perthynas gref gyda'i mentor, sut, o ystyried ei hanawsterau iechyd meddwl, os caiff swydd fel gweithiwr gofal, yr hoffai i'w mentor 'aros gyda [hi] am ychydig … o leiaf cwpl o wythnosau'. Teimlai y byddai'n ddefnyddiol cael rhywun i'w ffonio, pe byddai unrhyw broblemau'n codi.

*Pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau mwy cymhleth*

4.24. Roedd nifer o'r bobl ifanc a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth yn wynebu rhwystrau cymhleth i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ac roeddent yn ymddangos yn annhebygol o'u goresgyn heb gymorth y prosiect. I'r rhan fwyaf, roedd hyn yn gysylltiedig ag anawsterau iechyd meddwl a/neu anableddau, megis cyflyrau niwroddatblygiadol, a oedd yn cyfyngu ar eu gallu yn ogystal ag amharu ar eu cymhelliant i chwilio am waith. Dangosir hyn gan straeon Jack a Tim (a ddisgrifir isod)

**Jack: goresgyn rhwystrau cymhleth i helpu eraill**

Disgrifiodd Jack, sy'n ddyn ifanc anabl, sut yr oedd 'ond eisiau gwneud rhywbeth gan fy mod wedi methu â gweithio ohewydd salwch ers pan oeddwn i'n 16 oed ac wrth i'r amser fynd heibio gweld fy hun yn cael gwaith.' Esboniodd ei fod 'wedi cael trafferth gydag iechyd meddwl [ac] roeddwn i'n poeni gan mai prin oeddwn i'n

gadael y tŷ' oherwydd ei agoraffobia. Gyda chymorth CaW[41] cymerodd ran yn nifer o gyrsiau gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog, a'u mwynhau'n fawr a chafodd lawer o ysbrydoliaeth ganddynt. O ganlyniad teimlai ei fod 'yn gallu edrych ar fy iechyd meddwl fy hun drwy rywbeth rwy'n ei hoffi - [ac] fe wnaeth i mi fod eisiau helpu pobl eraill â phroblemau iechyd meddwl.'

Mae Jack bellach yn gweithio'n rhan-amser gyda sefydliad yn y trydydd sector a hefyd yn hyfforddi i fod yn weithiwr cymorth iechyd meddwl. Disgrifiodd ei brofiad gyda CaW fel un a 'newidiodd fy mywyd. Byddwn i'n dal yn gaeth i'r tŷ fel arall' fel y dywedodd.

**Tim: goresgyn ei anawsterau iechyd meddwl i ddod o hyd i waith**

Disgrifiodd Tim sut y bu iddo ddechrau gweithio yn y diwydiant adeiladu ar ôl gadael yr ysgol yn 16 oed - 'dim ond rhywbeth i gael arian yn fy mhoced' fel y disgrifiodd. Fodd bynnag, dechreuodd hefyd ddioddef mwy o orbyrder, cyflwr yr oedd wedi dioddef ohono ers pan oedd tua 13 oed. Gwaethygodd yn raddol, ac yn y pen draw nid oedd yn gwneud rhyw lawer ac roedd yn aros yn y tŷ drwy'r amser.

Fodd bynnag, fel y disgrifiodd, drwy symud o dŷ ei fam i fyw gyda'i dad cafodd 'hwb hwnnw i beidio ag eistedd o gwmpas drwy'r dydd a dechrau gwneud rhywbeth gyda fi fy hun.' Aeth i'r Ganolfan Waith a dechreuodd gael Credyd Cynhwysol dros flwyddyn yn ôl. Siaradodd â'i anogwr gwaith ac i ddechrau roedd eisiau chwilio am waith ym maes diogelwch, ond dywedodd nad oedd ei anogwr gwaith yn gwneud unrhyw beth i'w helpu i chwilio am waith yn y maes hwnnw. Edrychodd ar ychydig o opsiynau, a chofrestrodd ar gyfer pedwar neu bump o wefannau swyddi, ond nid oedd ganddo ddiddordeb mewn dim, nid oedd yn meddwl y byddai'n mwynhau'r gwaith ac roedd yn dal i gael trafferth gyda'i orbryder a'i iechyd meddwl.

Ymgysylltodd Tim â CaW a disgrifiodd sut y cafodd amser i drafod ei bryderon â rhywun a oedd yn gwrando arno ac yn cymryd yr amser i ddeall a bod hynny wedi

[41] Esboniodd Jack ei fod yn cwrdd â'i fentor unwaith yr wythnos am awr. Fe wnaeth ei helpu i ysgrifennu CV a'i gyflwyno i Ymddiriedolaeth y Tywysog, lle y dilynodd gwrs 'gweithiwr cymorth' a chwrs 'iechyd meddwl a llesiant drwy gelf', cyrsiau a fwynhaodd yn fawr. Esboniodd fod CaW yn talu ei gostau teithio a 'phethau felly'.

gwneud gwahaniaeth enfawr a helpu gyda'i gymhelliant. Er ei fod eisoes yn dod yn fwy agored i'r syniad o chwilio am waith, roedd bellach yn credu y gallai fod yn bosibl iddo gael swydd.

Gyda chymorth CaW, daeth Tim o hyd i gwrs trwydded diogelwch Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) yng Nghaerdydd. Roedd Tim, sy'n byw ym mlaenau'r cymoedd (gryn bellter o Gaerdydd) yn bryderus am yr holl broses o gyrraedd yno a bod yng nghwmni phobl nad oedd yn eu hadnabod. Fe wnaeth geisio dod o hyd i gwrs a oedd yn nes at ei gartref ond nid oedd dim ar gael. Trefnwyd y byddai Tim yn dal y trên yno ac yn ôl ac fe wnaeth CaW drefnu'r cludiant a thalu amdano. Er gwaethaf ei bryderon cychwynnol am ddal trên prysur, dod o hyd i'r lleoliad, a gweithio gyda phobl nad oedd yn eu hadnabod, rhoddodd mynychu'r hyfforddiant ar ei ben ei hun hwb i'w hyder wrth iddo sylweddoli mai yn ei ben yr oedd llawer o'i ofnau. Drwy gydol y broses hon, disgrifiodd Tim ei fentor fel person 'llawn cydymdeimlad ac yn hawdd siarad â hi ac ar fy ochr i... ni chefais fy rhuthro i wneud unrhyw beth. Roedd pethau'n symud ar fy nghyflymder i bob tro, ac roedd hi bob amser yn cadw ei haddewidion.'

Yn fuan ar ôl cwblhau'r cwrs dechreuodd Tim weithio. Meddai: 'Dw i wir ddim yn credu y byddwn i ar fin dechrau swydd heb CaW - heb gael y cymorth yr oedd ei angen arnaf. Rwy'n meddwl y byddwn i'n dal i fynd yn ôl ac ymlaen i'r JCP ac yn dal i hawlio budd-daliadau.'

Mae eisoes wedi argymell CaW i ffrind sydd nawr eisiau dilyn yr un llwybr gyrfa. Mae ei ffrind yn cael Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd felly mae Tim wedi dweud wrtho am holi ei anogwr gwaith am CaW: 'Mae fy ffrind yn gallu gweld lle roeddwn i. Mae wedi bod yn ffrind i mi ers blynyddoedd. Mae'n dod o'r un lle. Mae wedi gweld sut mae CaW wedi effeithio arnaf ac wedi trawsnewid fy mywyd. Rwyf yn y sefyllfa yr wyf ynddi heddiw o'i oherwydd. Mae e'n gallu gweld hynny ac mae eisiau gweld beth all y rhaglen ei wneud iddo ef hefyd.'

4.25. Fodd bynnag, fel y dengys enghraifft Rhys (a drafodir isod), gallai'r rhwystrau cymhleth hefyd fod yn gysylltiedig ag ymddygiad pobl ifanc yn y gorffennol, yn yr achos hwn ymddygiad troseddol - a oedd yn cyfyngu ar eu mynediad i gyfleoedd.

**Rhys: ymdopi â phontio o'r carchar i gyflogaeth**

Gadawodd Rhys yr ysgol yn gynnar cyn sefyll ei arholiadau TGAU. Nid oedd yn mwynhau'r ysgol gan ychwanegu 'roeddwn i'n gwneud pethau twp' gan awgrymu ei fod yn mynd i drafferth yn aml. Ar ôl gadael yr ysgol cafodd nifer o swyddi byrdymor gan 'bobl roeddwn i'n eu hadnabod' gan wneud rhywfaint o waith labrwr. Er ei fod yn mwynhau'r gwaith ni allai gynnal swydd 'ffurfiol' a chanfu nad oedd yn gallu setlo pharhau ag unrhyw un o'r cyfleoedd. Yn 18 oed cafodd swydd yn gweithio yn McDonalds am gyfnod ac er ei fod yn mwynhau hynny, rhoddodd yr argraff ei fod yn cael anhawster gyda phrydlondeb ac nad oedd yn weithiwr arbennig o ddibynadwy, ac yn ei chael hi'n anodd codi yn y boreau. Ar ôl cyfnod mwy cythryblus yn ei fywyd, cafodd ei garcharu.

Gyda'i ddedfryd yn y carchar yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2022, cafodd gyfle i gael cymorth gan Cymru'n Gweithio a roddodd help iddo gyda meithrin hyder, sgiliau cyfathrebu a phrydlondeb i ddechrau. Dros gyfnod o ryw 3-4 mis tra roedd yn y carchar, fe wnaeth Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio ei helpu gyda chyrsiau i ddatblygu ei sgiliau cyfathrebu, meithrin ei hyder a'i helpu gyda sgiliau cyfweld. Rhoddwyd gliniadur iddo hefyd yn ystod y cyfnod hwn er mwyn iddo allu dilyn rhai cyrsiau ar-lein a ddarparwyd ganddynt. Yna cafodd ei roi mewn cysylltiad â CaW+, ac fel rhan o'i ddiwrnod astudio roedd modd iddo fynychu ffair swyddi yn ei dref leol. Cyfarfu â'i gynghorydd yno a buont yn trafod gwahanol opsiynau.

Cytunodd i fynychu cyfweliad gyda chynrychiolydd o fusnes arlwyo a chyfanwerthu bwyd mawr. Trefnwyd hyn gan CaW+ tra roedd yn dal yn garcharor, a chynigiwyd swydd ran-amser iddo. Dechreuodd y swydd hon yn syth ar ôl cael ei ryddhau ac mae'n dal i fod yn y swydd. Helpodd CaW+ ef yn ariannol hefyd i dalu costau tacsi yn ôl ac ymlaen o'r gwaith, ac i brynu dillad ar gyfer y cyfweliad a'r swydd ei hun. Roedd y cymorth ariannol yn hollbwysig, gan mai ychydig iawn o arian oedd ganddo ar ôl gadael y carchar, nid oedd gar ganddo ac nid oedd opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus ymarferol ar gael, ond rhoddodd y cymorth amser iddo drefnu lifft 'gan ffrind' i'r gwaith.

Ers dechrau gweithio, mae wedi cwrdd â'i fentor bob rhyw bythefnos i fis. Mae'n tueddu i alw i mewn i'r hwb lleol i ddweud helô pan fydd yn y dref a chael sgwrs am sut mae pethau'n mynd. Nid yw wedi cael unrhyw broblemau penodol y mae angen cymorth arno ar eu cyfer, ond mae'n ei chael hi'n ddefnyddiol siarad am sut mae ei waith yn mynd a sut yr hoffai weithio mwy o oriau yn y busnes. Dywed fod ei fentor yn hawdd siarad ag o ac yn groesawgar, ac mae'r sgyrsiau yn rhoi sicrwydd iddo yn fwy na dim bod pethau'n mynd yn dda.

Fel y dywedodd Rhys, yn bendant [fyddwn i] ddim wedi cael y swydd' oni bai am CaW+. Roedd y rhaglen yn gallu trefnu ei gyfweliad gwaith yn uniongyrchol iddo gyda'r darpar gyflogwr, gan eu bod yn gwybod bod y busnes yn cynnal rhaglen ar gyfer cyn-droseddwyr. Mae’n annhebygol iawn y byddai Rhys wedi gwybod am hyn neu wedi bod mewn sefyllfa i drefnu’r cyfweliad. Roedd yn cydnabod fel cyn-droseddwr y byddai wedi cael anhawster dod o hyd i swydd gyda chyflogwyr eraill, o ystyried y stigma a oedd ynghlwm wrth hynny a'u hamharodrwydd i'w gyflogi.

**Cymorth gan y rhaglenni**

4.26. Roedd llawer o’r rhai a gyfwelwyd yn awyddus i bwysleisio pa mor gefnogol y bu eu cynghorwyr neu fentoriaid CaW neu CaW+. Er enghraifft, disgrifiodd Michelle sut roedd ei mentor CaW+ yn 'wych ac yn gefnogol iawn. Roedd hi jest yn sgwrsio efo fi. Doeddwn i ddim yn teimlo dan bwysau o gwbl'. Eglurodd sut y canfu'r rhaglen gwrs hyfforddi i'w helpu i ddod yn gynorthwyydd addysgu a thalu am y costau teithio i fynychu'r cwrs (o ystyried yr anawsterau a wynebai i gyrraedd yno ar drafnidiaeth gyhoeddus). Pan ofynnwyd iddi, esboniodd y byddai’n bendant yn argymell CaW+ i ffrind: 'Mae wedi bod yn wych yn fy marn i a byddwn i'n dweud wrth bobl am fynd amdani i weld pa gyfleoedd maen nhw'n eu rhoi i chi o ran cyrsiau a phrofiad a chymwysterau oherwydd dyna sut rydych chi'n dechrau eich dyfodol'.

4.27. Roedd nifer o gyfranogwyr yn cymharu'r cymorth gan CaW neu CaW+ â’u profiad o’r Ganolfan Byd Gwaith (JCP). Er enghraifft, fel yr eglurodd Ceri (a gymhwysodd fel llyfrgellydd): 'Roedd yna wastad bwysau gan yr Anogwr Credyd Cynhwysol i chwilio am waith, ond gyda CaW roeddwn i'n teimlo bod drysau'n fwy agored i mi ac roeddwn i eisiau gwneud rhywbeth.' Eglurodd hefyd sut yr oedd ei chynghorydd CaW

hefyd wedi cysylltu â DWP ar ei rhan ac 'fe wnaeth hynny dynnu'r pwysau oddi arnaf'. ‘Roedd ganddi [ei chynghorydd CaW] ffydd ynof fi, [ond] byddai’r Anogwr Gwaith yn parhau i ddweud “ie, ond llenwa'r ffurflen gais yna hefyd, gwna hyn hefyd, mae angen i ti wneud hyn beth bynnag”, roedd [hepgorwyd enw’r cynghorydd ] yn dweud “Rwy'n credu dy fod yn mynd i wneud hyn; rwy'n dy gefnogi di."

4.28. Yn yr un modd, disgrifiodd Emma, sy’n fam sengl i ddau o blant, sut yr oedd hi wedi bod yn ddi-waith ers saith mlynedd ac yn awyddus i newid gyrfa, meddai am ei chynghorydd, ‘y ffordd mae’n siarad, mae fel sesiwn gwnsela, mae e’n hyfryd, hen foi iawn, [ac] mae ganddo'r ateb i bopeth…os ydw i'n gwneud cais am swydd ac yn ceisio geirio pethau'n iawn, bydd e'n gwybod, bydd e'n gwneud sylwadau, yn symud y geiriau o gwmpas, pethau syml fel 'na ac fe wnaeth fy annog i gadw at yr hyn rwyf eisiau ei wneud…dw i ddim eisiau unrhyw hen swydd, rwyf eisiau gyrfa' . Yn ddiweddarach cymharodd gysondeb y cymorth a gafodd gan CaW â’r ganolfan waith lle y dywedodd iddi weld nifer o wahanol anogwyr gwaith, nad oedd gan yr un ohonynt amser i ddod i’w hadnabod, a oedd yn golygu bod yn rhaid iddi ‘ddechrau o’r dechrau’ ac egluro beth yr oedd hi eisiau ei wneud.

4.29. Roedd pwysigrwydd rhai cynghorwyr neu fentoriaid CaW neu CaW+ ym mywydau rhai cyfranogwyr hefyd yn glir. Er enghraifft, roedd Claire wedi symud i Gymru sawl blwyddyn yn ôl, ond roedd yn cael trafferth dod o hyd i waith, yn bennaf gan nad oedd ganddi’r dogfennau angenrheidiol. Pan ofynnwyd iddi at bwy arall y gallai hi droi i gael cymorth eglurodd, 'dim ond fi a fy merch oedd 'na, mae'n dangos pwy sydd yna i chi a phwy sydd ddim pan aiff hi'n gachfa - [ac] roedd e [ei chynghorydd] yno'. Disgrifiodd sut roedd ei chynghorydd CaW wedi ‘parhau i wthio a gwthio’ a defnyddio’r Gronfa Rwystrau i dalu am basbort newydd iddi (fel y gallai brofi ei hawl i weithio) ac yna ei helpu i gael hyfforddiant mewn ‘iechyd a diogelwch, diogelu, bwyd a hylendid', gan 'decstio gwybodaeth am swyddi ataf', helpu i 'drefnu dau gyfweliad' a disgrifiodd gyda balchder bod ganddi ddwy swydd nawr. I gloi, dywedodd mai 'dyma'r peth gorau sydd wedi digwydd i mi erioed. Roeddwn i'n mynd o nghof [ddim yn gweithio]…[nawr] mae gen i rywbeth i edrych ymlaen ato...dw i'n llawer hapusach nawr!'

4.30. Fel yr amlinellir yn adran 5, gwnaeth bron pob un o’r rhai a gyfwelwyd sylwadau cadarnhaol iawn am y cymorth, ac roeddent yn teimlo ei fod wedi cael effaith gadarnhaol arnynt, ond roedd rhai eithriadau, fel Aimee, a drafodir isod.

**Aimee: yr her ariannol o ddechrau busnes newydd**

Mae Aimee yn ei 40au canol ac yn dioddef o arthritis sy'n gwaethygu. Roedd hi wedi gweithio fel triniwr gwallt, cyn i'r busnes roedd hi'n gweithio iddo gau, a chollodd Aimee ei swydd. Roedd ganddi ddiddordeb mewn sefydlu ei busnes ei hun er mwyn cael mwy o hyblygrwydd o ystyried ei harthritis, a chafodd Aimee ei hatgyfeirio i CaW+ gan JCP. Fodd bynnag, esboniodd Aimee ei bod yn teimlo bod y 'broses gyfan [CaW+] wedi'i chreu ar gyfer pobl sy'n chwilio am swyddi' yn hytrach na phobl fel hi a oedd yn awyddus i ddechrau busnes. Dywedodd fod ganddi'r feddylfryd 'dyma beth dw i eisiau a dyma beth sydd ei angen arna'i', ond roedd hi'n teimlo bod CaW+ 'ychydig ar goll a ddim yn siŵr sut i helpu' i ddechrau. Serch hynny, eglurodd bod y rhaglen, yn y pen draw, wedi llwyddo i'w helpu i gael rhywfaint o gyllid i brynu offer, cyfarpar, cadair a chwrs ar-lein ar gannu gwallt. Efallai fod profiad Aimee yn dangos rhai o’r cyfyngiadau o ran y defnydd o’r Gronfa Rwystrau a adroddwyd gan staff (Llywodraeth Cymru, 2023a), ond gall hefyd ddangos diffyg cyfatebiaeth rhwng gobeithion a disgwyliadau pobl a’r hyn y gall y rhaglen ei gynnig.

Serch hynny, dywedodd Aimee 'Fe wnaet y rhaglen ariannu pethau - ond nid y pethau yr oedd eu hangen arnaf fwyaf [h.y. stoc]'. Yn yr un modd, roedd hi'n deall bod yna reolau - ac nid oedd yn disgwyl cael popeth ac roedd yn ddiolchgar iawn am yr hyn a gafodd. Llwyddodd i fenthyca rhywfaint o arian gan ei rhieni ar gyfer y gweddill. O ganlyniad, nid oedd Aimee yn teimlo bod CaW+ wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Roedd hi eisoes yn gwybod beth roedd hi eisiau ei wneud ac wedi cymryd camau i gyflawni hynny. Y cyfan oedd ei angen arni oedd rhywfaint o gyllid ychwanegol.

**Profiad cyfranogwyr anabl, y rhai â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio a/neu anghenion dysgu ychwanegol.**

4.31. Mae'r cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl anabl yn amrywio'n sylweddol yn ôl y math o anabledd, ond yn gyffredinol maent yn llawer is na'r cyfraddau ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl yng Nghymru. Mae pobl anabl yn y DU hefyd yn llai tebygol o fod mewn galwedigaethau sy'n gofyn am sgiliau uwch o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl (DWP, 2023; Llywodraeth Cymru, 2022b). Mae'n bwysig deall y rhesymau am hyn ac effeithiolrwydd rhaglenni fel CaW a CaW+ o ran mynd i'r afael â hyn.

4.32. Cofnodwyd bod 11 o'r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil ansoddol yn anabl a nododd 15 arall fod ganddynt anawsterau iechyd meddwl a/neu anghenion dysgu ychwanegol ond ni wnaethant nodi eu bod yn anabl pan gawsant eu cyfweld. Roedd yr ystod o namau corfforol a meddyliol a adroddwyd yn amrywio o ran eu math a'u difrifoldeb, ac roedd eu profiadau yn wahanol iawn hefyd. Roeddent yn cynnwys:

- y rhai a oedd yn teimlo na allent weithio pan gawsant eu cyfweld oherwydd difrifoldeb eu nam, yn fwyaf cyffredin ei effaith ar eu hiechyd meddwl, fel y dengys enghreifftiau rhai o'r cyfranogwyr a oedd yn 'methu symud ymlaen';
- y rhai a oedd yn teimlo eu bod yn gallu gweithio ac yn awyddus i wneud hynny, ond a oedd yn cael trafferth dod o hyd i waith y gallent ei wneud, oherwydd agweddau cyflogwyr tuag at eu hanabledd. Er enghraifft, fel y dywedodd Rose 'Mae'r boen cronig yn fy atal rhag gweithio. Dyw cyflogwyr ddim eisiau rhoi swydd i mi gan eu bod yn meddwl nad ydw i'n ddibynadwy, a dyw hynny ddim yn wir; a
- y rhai yr oedd effaith eu nam yn fach neu'n cael ei chuddio gan anawsterau eraill yr oeddent yn eu hwynebu.

4.33. Ar y cyfan, roedd sylwadau cyfranogwyr anabl am y cymorth a dealltwriaeth staff CaW a CaW+ yn gadarnhaol iawn, ac fe'u canmolwyd yn gyson, ond disgrifiodd Thomas, dyn ifanc niwroamrywiol a gefnogwyd gan CaW+, yr anawsterau a gafodd wrth gyfarfod mewn hwb prysur a swnllyd. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd yn ymddangos bod y cymorth yn canolbwyntio ar nodi opsiynau amgen ar gyfer pobl anabl, yn hytrach nag, er enghraifft, gweithio gyda chyflogwyr i wneud addasiadau rhesymol. Er enghraifft, disgrifiodd Rose (a chanddi boen cefn cronig) sut yr oedd yn

cael cymorth i ganolbwyntio ar hunangyflogaeth, a disgrifiodd Richard, dyn ifanc niwroamrywiol (a oedd yn cael trafferth gydag amgylcheddau swnllyd) sut yr oedd yn canolbwyntio ar chwilio am waith y gallai ei wneud o gartref.

**Profiadau cyfranogwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol**

4.34. Mae anghydraddoldebau parhaus yn gysylltiedig â hil mewn cyflogaeth ac incwm yng Nghymru, gan gynnwys cyfraddau cyflogaeth is a thangynrychiolaeth mewn galwedigaethau sy'n gofyn am lawer o sgiliau a galwedigaethau â chyflog uchel, ar gyfer rhai grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2021). Mae'n bwysig deall y rhesymau am hyn ac effeithiolrwydd rhaglenni fel CaW a CaW+ o ran mynd i'r afael â hyn.

4.35. Cyfrannodd wyth cyfranogwr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol at yr ymchwil ansoddol. Er eu bod nhw, fel y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a drafodir yn yr adran hon, yn wynebu rhwystrau, anaml iawn yr oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â'u hethnigrwydd. Yr unig gyfranogwr a ddisgrifiodd iddynt ddioddef gwahaniaethu ar sail eu hethnigrwydd oedd menyw wen, a oedd yn teimlo y gwahaniaethwyd yn ei herbyn gan ei bod yn Saesnes yn hytrach na Chymraes.[42] Mae'n bwysig pwysleisio nad yw hyn yn golygu nad oedd y cyfranogwyr hyn o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wedi profi gwahaniaethu[43], ond yn hytrach na soniwyd am hynny yn eu hadroddiadau. Roedd un o'r rhai a gyfwelwyd yn ffoadur, a nododd fod sgiliau Saesneg gwan a diffyg profiad o’r farchnad lafur yng Nghymru yn rhwystrau yn ei farn ef[44], ac efallai fod un o'r rhai a gyfwelwyd a oedd yn fudwr, hefyd wedi cael ei lesteirio gan ei sgiliau iaith, er na nododd hyn fel rhwystr. Fodd bynnag, rhwystrau'n gysylltiedig â'u cefndir oedd y rhain, yn hytrach na rhwystrau'n gysylltiedig â'u hethnigrwydd  ac roedd eu profiadau yn wahanol iawn i gyfranogwyr eraill o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a oedd wedi cael eu magu yng Nghymru

---

[42] Fel yr amlinellir uchod, dywedodd Abigail ei bod hi'n chwilio am waith (ac wedi bod yn chwilio am waith), ond nad yw hi erioed wedi teimlo y byddai'n gallu dod o hyd i waith oherwydd y 'rhagfarn' sydd gan y Cymry yn erbyn y Saeson.

[43] Mae tystiolaeth o waith ymchwil arall bod pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghymru yn dioddef gwahaniaethu mewn perthynas â chyflogaeth (WCPP, 2021).

[44] Fel y disgrifiodd Ahmad, a gafodd gymorth gan CaW+, pan ofynnwyd iddo am y rhwystrau yr oedd yn eu hwynebu: 'Gan fy mod i'n dod o wlad wahanol, dyw rhywun ddim yn siŵr sut mae pethau'n gweithio, sut i ddod o hyd i waith, pa waith, doedd fy Saesneg ddim yn dda iawn bryd hynny, roedd hi ychydig yn anodd siarad ar i ddechrau. Roedd yna lawer o bethau i'w goresgyn. [Mae'r] Prosiect wedi helpu gyda hyn i gyd.'

ac o ganlyniad â chefndiroedd gwahanol iawn (ac felly sgiliau Saesneg cryfach a phrofiadau gwahanol iawn o'r farchnad lafur yng Nghymru).

**Effaith y pandemig**

4.36. Cafodd y pandemig COVID-19 ac ymatebion polisi fel cyfnodau clo, amrywo o effeithiau ar y rhai a gyfwelwyd, er enghraifft, yn ystod y pandemig, fe wnaeth rhai:

- golli cymhelliant, cyfeiriad ac weithiau'r cyfle i weithio, neu i fynd ar drywydd gwaith, gan eu bod yn teimlo bod eu bywydau ar stop, neu wedi mynd oddi ar y cledrau, er enghraifft oherwydd eu bod wedi colli anwyliaid, neu wedi colli eu swydd; cael eu gorfodi i ymgymryd â rolau gofalu (am blant neu berthnasau oedrannus); cael trafferth dod o hyd i waith (gan fod cyfleoedd cyflogaeth wedi crebachu'n sydyn); a/neu cafodd mynediad i hyfforddiant ei atal (yng nghamau cynnar y pandemig);
- colli galluoedd, ac mewn rhai achosion dod yn gynyddol anabl, wrth i'w hiechyd meddwl neu gorfforol ddirywio (gan gynnwys enghreifftiau o 'COVID hir' a/neu anawsterau o ran cael mynediad i wasanaethau iechyd yn ystod ac ar ôl y pandemig); neu
- ailasesu'r hyn yr oeddent eisiau ei wneud (fel y gwnaeth Carys, a oedd wedi gweithio mewn tafarn ar hyd ei hoes, a phenderfynu ei bod am dreulio mwy o amser gyda'i theulu) a chael eu hysgogi i newid cyfeiriad.

4.37. Roedd tystiolaeth hefyd o'r ffyrdd y bu iddo amharu ar y rhaglen a newid y ffordd y cafodd ei darparu, a dywedodd rhai cyfranogwyr fod y ddarpariaeth wedi newid i gymorth dros y ffôn neu WhatsApp, er enghraifft, y teimlwyd ei fod yn gweithio'n well i rai nag eraill, a dywedodd rhai eu bod wedi cael gliniaduron, er nad oedd eraill wedi elwa o hynny.[45] Cafwyd adroddiadau cymysg am effaith cael gliniadur (gyda rhai gliniaduron yn cael eu defnyddio'n aml ac eraill prin yn cael eu defnyddio o gwbl yn ôl pob golwg), sy'n gyson ag adroddiadau gan staff y rhaglen a amlinellwyd yn y gwerthusiad proses (Llywodraeth Cymru, 2023a). Trafodir y newidiadau yn y modd y

[45] Er enghraifft, fel y disgrifiodd Vicky: 'Roedd yn wych gallu parhau i siarad â [hepgorwyd enw'r cynghorydd] dros y ffôn ac roedd hynny'n ddefnyddiol. [ond] ni chefais gynnig Chromebook, does gen i ddim cysylltiad â'r rhyngrwyd gartref, dim ond ar fy ffôn'.

darparwyd y rhaglen yn ystod y pandemig ymhellach yn yr adroddiad gwerthuso proses a theori newid (Llywodraeth Cymru, 2023a).

**Effaith diwygio lles, pwysau ariannol a gweithleoedd ar gymhelliant y cyfranogwyr**

4.38. Roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn awyddus i bwysleisio eu bod eisiau gweithio ac, er y gallai fod angen help arnynt i ddod o hyd i waith, nid oeddent eisiau 'cardod'. Roedd yr anawsterau o ran byw ar fudd-daliadau, yn enwedig i'r rhai heb blant (a oedd yn derbyn lefelau is o fudd-daliadau), yn ogystal â'r argyfwng costau byw presennol, a hefyd y pwysau gan JCP i ddod o hyd i waith, hefyd yn ymddangos yn adroddiadau nifer o bobl.[46] Fodd bynnag, roedd eu profiadau o weithio a'r gweithle yn aml yn anodd. Roeddent yn cynnwys adroddiadau am oriau hir a/neu anghymdeithasol[47], cyflog gwael a thriniaeth wael, gan gynnwys bwlio - fel y dywedodd Karl yn gryno, swyddi 'cachu' - a oedd yn golygu bod nifer o oedolion (25+ oed) a phobl ifanc wedi mynd i mewn ac allan o swyddi. Cefnogir hyn yn anuniongyrchol gan ddata'r arolwg o gyfranogwyr sy'n awgrymu bod llawer o'r rhai sy'n cael gwaith yn cael gwaith mwy ansicr, ar gyflog is, lle nad oes angen llawer o sgiliau. Felly, er bod y cyfranogwyr eisiau gweithio, bron yn ddieithriad, nid oeddent eisiau cymryd pa bynnag swydd a oedd ar gael, ac roeddent â'u bryd ar feysydd gwaith penodol.

[46] Er enghraifft, fel y dywedodd Maureen, ar ôl dechrau gweithio mwy nag 16 awr yr wythnos: 'Rwy'n cael fy nghyflogi am oriau ac felly dyw [JCP] ddim yn gallu fy mhlagio'. Eglurodd Charlie, ar ôl iddo golli ei swydd yn ystod y pandemig, na allai fforddio talu ei rent a'i filiau a'i fod yn wynebu digartrefedd. Dywedodd ei bod wedi cymryd 'amser maith' i JCP ddelio â'i hawliad am Gredyd Cynhwysol a'i fod wedi wynebu trafferthion ariannol mawr am gyfnod. Roedd wedi symud i fyw at ei fam ac, er bod hynny'n golygu bod ganddo do uwch ei ben, disgrifiodd sut yr oedd yn teimlo cywilydd ei fod, fel dyn yn ei oed a'i amser, yn gorfod troi at ei fam glaf am help.

[47] Er enghraifft, disgrifiodd Maureen ei bod yn dechrau gweithio fel glanhawr am 5.30, gan weithio am 3 awr ac yna'n dechrau gweithio yn ei hail swydd yn ddiweddarach yn y bore. Er gwaethaf hyn disgrifiodd gefnogaeth CaW fel 'y peth gorau a ddigwyddodd i mi' gan ei bod yn 'mynd o nghof [ddim yn gweithio] a [nawr roedd ganddi] rywbeth i edrych ymlaen ato'.

*Effaith yr argyfwng costau byw*

4.39. Er bod amddifadedd ariannol, fel yr amlinellir uchod, yn nodwedd o adroddiadau llawer o gyfranogwyr, ychydig iawn a soniodd yn benodol am yr argyfwng costau byw presennol[48], gan awgrymu bod eu hanawsterau yn rhagflaenu'r argyfwng. Roedd y pwysau ariannol hwn yn golygu eu bod yn gwerthfawrogi'r Gronfa Rwystrau a chymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant yn fawr iawn. Roedd enghreifftiau hefyd o sut yr oedd staff y rhaglen wedi helpu cyfranogwyr i ymdopi ag argyfyngau ariannol, drwy er enghraifft eu hatgyfeirio at y Gronfa Cymorth Dewisol[49], pan dorrodd cyfarpar y cartref fel peiriant golchi dillad neu bopty.

**Arlwy Cymraeg y rhaglenni**

4.40. Fel yr amlinellir yn Nhabl 3.1. mae cyfran y cyfranogwyr CaW a CaW+ sy'n dewis Cymraeg (wyth a chwech y cant yn y drefn honno) yn sylweddol is na'r gyfran amcangyfrifedig o oedolion sy'n siarad Cymraeg (tua 18 y cant). At hynny, roedd nifer y cyfranogwyr CaW a dderbyniodd ddarpariaeth yn rhannol (588) neu'n gyfan gwbl (88) drwy gyfrwng y Gymraeg yn llawer llai eto (tua dau y cant). Amlygodd y cyfweliadau ansoddol nad oedd nifer o siaradwyr Cymraeg yn hyderus i ddefnyddio'u Cymraeg gyda gwasanaethau cyhoeddus gan nad oedd ganddynt hyder yn eu gallu eu hunain, roeddent yn fwy cyfarwydd â defnyddio'r Saesneg, yn enwedig mewn lleoliadau mwy ffurfiol (megis wrth ryngweithio â gwasanaethau) a/neu roeddent yn bryderus y byddai'r Gymraeg yn rhy 'ffurfiol' neu 'dechnegol'[50]. Er enghraifft, eglurodd Lowri, a aeth i ysgolion cyfrwng Cymraeg, iddi gael cynnig cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond eglurodd 'Dw i wastad yn dewis Saesneg pan dw i'n ansicr beth fydd yn digwydd. Dw i'n teimlo dan straen ac yn ddryslyd wrth gyfieithu geiriau o'r Saesneg i'r Gymraeg yn fy mhen, felly dw i'n cadw at y Saesneg yr amseroedd hynny.' Yn yr un modd, fel yr eglurodd Sian 'a bod yn onest, mae'n well gen i Saesneg, mae'n symlach. Mae Saesneg yn fwy uniongyrchol…[a] dw i'n gyfarwydd â

[48] Y prif eithriad oedd Karl, a ddisgrifiodd sut roedd y cynnydd ym mhrisiau petrol wedi gwneud teithio i'r gwaith yn llawer drutach (gan leihau'r manteision ariannol sy'n gysylltiedig â gweithio a chyfyngu ar ei fynediad i gyfleoedd).
[49] Mae rhagor o wybodaeth am gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru ar gael yn https://www.llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf
[50] Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau adolygiad o'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghronfa Cynhwysiant Gweithredol CGCC (CGCC, 2022).

siarad Saesneg'. Fodd bynnag, dangosodd y cyfweliadau hefyd sut y gallai'r rhaglenni fynd i'r afael â hyn. Er enghraifft, esboniodd Ffion fod safon Cymraeg ei chynghorydd 'fel fy un i, dw i ddim yn teimlo ei bod hi'n edrych i lawr arna i, mae'r ddwy ohonom yn defnyddio geiriau Saesneg. Mae'n braf gallu siarad Cymraeg gyda rhywun.'

## 5. Data yr arolygon o gyfranogwyr

**Canfyddiadau allweddol**

Gan gyfeirio at ganfyddiadau 236 o ymatebwyr i arolwg CaW a 451 o ymatebwyr i arolwg CaW+ a gyfwelwyd yn gynnar yn 2023:

- Casglwyd adborth cadarnhaol gan yr ymatebwyr i'r arolygon am y cymorth a gafwyd. Roedd 95 y cant o gyfranogwyr CaW a 92 y cant o gyfranogwyr CaW+ yn meddwl bod eu mentor neu gynghorydd yn deall y rhwystrau a oedd yn eu hatal rhag dod o hyd i waith tra bod 89 y cant o gyfranogwyr CaW ac 82 y cant o gyfranogwyr CaW+ yn credu bod eu mentor neu gynghorydd wedi bod yn effeithiol o ran llunio cynllun gweithredu personol realistig ar eu cyfer.
- Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr o'r farn bod cyrsiau hyfforddi, gweithgareddau gwirfoddoli a phrofiadau gwaith yn ddefnyddiol. Yn achos CaW, canfuwyd mai cyrsiau swydd-benodol oedd y math mwyaf defnyddiol o hyfforddiant a ddilynwyd.
- Roedd chwarter y rhai a gymerodd ran yn CaW a CaW+ wedi cael cymorth gan y rhaglen ar ôl iddynt ddechrau gweithio ac roedd y mwyafrif helaeth o'r rhain yn ystyried bod y cymorth yn ddefnyddiol.
- Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn credu bod cymryd rhan yn y rhaglenni wedi cael effaith gadarnhaol ar eu parodrwydd i gael gwaith, megis bod yn gliriach ynglŷn â chyfleoedd gwaith, magu hyder a bod yn fwy gwybodus, gyda chyfrannau uwch o gyfranogwyr CaW yn cytuno â hyn.
- Mae tystiolaeth dda bod cymryd rhan yn CaW a CaW+ wedi arwain at fanteision personol cadarnhaol, megis pobl yn teimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu bywydau a theimlo'n well amdanyn nhw eu hunain, ac roedd cyfranogwyr CaW yn fwy tebygol o gytuno â hyn.

Gan ddefnyddio canfyddiadau'r arolwg ar gyfer cyfanswm o 1,888 o gyfranogwyr CaW a CaW+ h.y., a gyfwelwyd yn gynnar yn 2023 yn ogystal â'r rhai a ymatebodd i arolygon blaenorol o gyfranogwyr ESF a gynhaliwyd yn ystod 2018 a 2022:

- Prif gymhelliant y cyfranogwyr i ymgysylltu â’r rhaglen yw dod o hyd i swydd, ac roedd cyfranogwyr CaW+ yn fwy tebygol o nodi hynny na chyfranogwyr CaW.
- Prif anawsterau'r cyfranogwyr o ran dod o hyd i waith ar ôl ymuno â'r rhaglen oedd diffyg profiad gwaith perthnasol, ac yna anawsterau o ran cyrraedd gwaith priodol a'r ffaith nad oedd ganddynt y cymwysterau cywir. Adroddodd cyfranogwyr y rhaglen CaW am fwy o rwystrau o ran dod o hyd i waith na chyfranogwyr CaW+.
- Tra roeddent yn dilyn y rhaglen, dywedodd 54 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW a 37 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW eu bod wedi gweithio tuag at gymhwyster.
- Y prif fath o sgiliau a gafodd eu meithrin neu eu gwella gan gyfranogwyr CaW a CaW+ oedd sgiliau cyfathrebu, sgiliau trefnu, sgiliau gweithio mewn tîm, sgiliau datrys problemau a sgiliau chwilio am swydd. Dywedodd cyfran uwch o gyfranogwyr CaW eu bod wedi meithrin neu wella eu sgiliau o gymharu â chyfranogwyr CaW+.
- Roedd 66 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ a 52 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW yn gyflogedig adeg yr arolwg. O blith y rhain roedd 66 y cant o gyfranogwyr CaW a 61 y cant o gyfranogwyr CaW+ yn credu bod y rhaglen wedi eu helpu i gael y swydd.
- Roedd gan 64 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ a 74 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ a oedd mewn gwaith adeg yr arolwg, swyddi parhaol.
- I’r rhai oedd yn ddi-waith adeg yr arolwg, problemau'n gysylltiedig ag iechyd oedd y brif her i gyfranogwyr CaW a chyrraedd gwaith priodol oedd y prif rwystr i gyfranogwyr CaW+.

5.1. Mae’r adran hon yn trafod data o’r arolwg o gyfranogwyr, gan gynnwys gwahaniaethau rhwng nodweddion a phrofiadau cyfranogwyr CaW a CaW+. Mae’r rhan gyntaf yn nodi canfyddiadau data’r arolwg ar gyfer sampl gyfan o 1,888 o gyfranogwyr CaW a CaW+. Mae’r ail ran yn nodi canfyddiadau arolygon 2023 (687), gan gyfeirio at brofiadau diweddar cyfranogwyr o raglenni CaW (236) a CaW+ (451).

### Cymhelliant i ymgysylltu â'r rhaglen

5.2. Fel y dangosir yn Nhabl 5.1 ac yn fanylach yn Atodiad B.1, lle y darperir dadansoddiad demograffig o'r ymatebion, y prif reswm a nodwyd gan yr ymatebwyr i'r arolygon dros gymryd rhan yn rhaglenni CaW neu CaW+ oedd cael cymorth i ddod o hyd i swydd, ond roedd y cyfrannau a nododd hyn yn is na'r disgwyl o bosibl o ystyried nodau'r rhaglenni. Roedd dynion yn fwy tebygol na menywod (68 y cant o gymharu â 60 y cant) o nodi hyn fel rheswm dros ymgysylltu â'r rhaglenni.

5.3. Roedd yr ymatebwyr i arolwg CaW+ yn fwy tebygol na'r ymatebwyr i arolwg CaW o ddweud mai cael swydd oedd y prif reswm dros gymryd rhan, ac roedd cyfran uwch o'r rhai a gymerodd ran yn arolwg CaW yn rhoi mwy o bwys ar gymhellion eraill megis datblygu sgiliau neu wybodaeth. Nid oedd y cymhelliant i ymgysylltu â'r rhaglen CaW yn amrywio rhyw lawer rhwng carfannau Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 yr arolwg er bod ymatebwyr Blaenoriaeth 3 i'r arolwg wedi rhoi ychydig mwy o bwyslais ar fod eisiau datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth, sef 27 y cant.

**Tabl 5.1: Y prif reswm dros gymryd rhan yn CaW/CaW+**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| I helpu i gael swydd | 62% | 72% |
| I ddatblygu sgiliau neu wybodaeth | 25% | 20% |
| Prif reswm arall | 8% | 4% |
| I gael gwell cyflog, dyrchafiad, neu ragolygon eraill yn y gwaith | 5% | 4% |
| Sampl | 1,287 | 451 |

Ffynhonnell: Arolygon o Gyfranogwyr ESF (2018, 2022) ac arolygon CaW a CaW+ (2023). Nid yw'n cynnwys yr ymatebwyr a nododd 'ddim yn gwybod'.

### Anawsterau'n gysylltiedig â dod o hyd i waith cyn cymryd rhan yn y rhaglenni

5.4. Y prif anhawster a nodwyd gan tua hanner yr ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ o ran dod o hyd i waith cyn ymgysylltu â'r rhaglenni oedd diffyg profiad gwaith perthnasol, fel y dangosir yn Nhabl 5.2 ac yn fanylach yn Atodiad B.2. Dilynwyd hyn gan anawsterau i gyrraedd gwaith priodol (e.e., oherwydd problemau trafnidiaeth) a diffyg cymwysterau priodol. Roedd yr ymatebwyr i arolwg CaW+ yn fwy tebygol na'u cymheiriaid CaW o nodi bod diffyg swyddi priodol ar gael lle roeddent yn byw tra bod

y rhai a gymerodd ran yn arolwg CaW yn rhoi mwy o bwys ar faterion fel problemau iechyd, cyfrifoldebau gofalu, a'r ffaith eu bod ond eisiau gweithio’n rhan-amser. Mae hyn yn gyson â thystiolaeth arall (megis data ar nodweddion y cyfranogwyr a drafodir yn adran 3) sy'n awgrymu bod cyfranogwyr CaW yn tueddu i wynebu mwy o rwystrau na chyfranogwyr CaW+. O ystyried y gwahaniaethau mewn oedran, fel y gellid disgwyl, ar draws sampl arolwg CaW, roedd ymatebwyr Blaenoriaeth 3 i'r arolwg yn llawer mwy tebygol o nodi nad oedd ganddynt brofiad gwaith perthnasol (64 y cant) tra bod cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yn fwy tebygol o nodi rhwystrau megis problemau iechyd (36 y cant) a chyfrifoldebau gofalu (30 y cant).

**Tabl 5.2: Anawsterau a nodwyd gan yr ymatebwyr i'r arolygon o ran dod o hyd i waith cyn ymuno â'r rhaglenni CaW/CaW+**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| Dim profiad gwaith perthnasol | 48% | 51% |
| Anodd cyrraedd gwaith priodol | 48% | 49% |
| Ddim yn meddu ar y cymwysterau cywir | 44% | 41% |
| Ddim yn meddu ar y sgiliau cywir | 43% | 44% |
| Dim swyddi priodol lle maen nhw'n byw | 34% | 44% |
| Problemau iechyd | 33% | 26% |
| Cyfrifoldebau gofalu | 25% | 20% |
| Dim ond eisiau gweithio'n rhan-amser | 23% | 14% |
| Oedran | 20% | 20% |
| Methu fforddio gofal plant | 20% | 12% |
| Credu na fyddent yn well eu byd yn ariannol yn gweithio | 17% | 13% |
| Sampl | 1,172 | 353 |

Ffynhonnell: Arolygon o Gyfranogwyr ESF (2018, 2022) ac arolygon CaW a CaW+ (2023). Nid yw'n cynnwys yr ymatebwyr a nododd 'ddim yn gwybod'.

### Y cymwysterau a'r sgiliau a gafodd y cyfranogwyr tra roeddent yn dilyn rhaglenni CaW a CaW+

5.5. Tra roeddent yn dilyn y rhaglenni, dywedodd 54 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW a 37 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW eu bod wedi gweithio tuag at gymhwyster[51], fel

[51] Neu dystysgrif neu uned

y dangosir yn Nhabl 5.3 ac yn fanylach yn Atodiad B.3. Roedd ymatebwyr Blaenoriaeth 1 i arolwg CaW yn fwy tebygol o fod wedi gweithio tuag at gymhwyster, sef 57 y cant, o gymharu ag ymatebwyr Blaenoriaeth 3, sef 48 y cant. Roedd mwyafrif y cymwysterau a enillwyd, gan yr ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ fel ei gilydd, ar Lefel 2 neu'n is ond roedd cyfran ychydig yn uwch o'r rhai a gymerodd ran yn arolwg CaW+ wedi ennill cymhwyster Lefel 3.

**Tabl 5.3: Y cymwysterau a gafodd y rhai a gymerodd ran yn arolygon CaW a CaW+**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| Yn gweithio tuag at gymhwyster | 54% | 37% |
| Sampl | 1,437 | 451 |
| *Lefel y cymhwyster a gyflawnwyd* | | |
| Lefel 1 neu is | 35% | 37% |
| Lefel 2 | 49% | 44% |
| Lefel 3 | 17% | 19% |
| Sampl | 375 | 89 |

Ffynhonnell: Arolygon o Gyfranogwyr ESF (2018, 2022) ac arolygon CaW a CaW+ (2023)

5.6. Y prif fath o sgiliau y gwnaeth yr ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ eu meithrin neu eu gwella oedd sgiliau cyfathrebu, sgiliau trefnu, sgiliau gweithio fel rhan o dîm, sgiliau datrys problemau a sgiliau chwilio am swydd, fel y dangosir yn Nhabl 5.4 ac Atodiad B.4. Dywedodd cyfran uwch o'r ymatebwyr i arolwg CaW eu bod wedi meithrin neu wella eu sgiliau o ganlyniad i gymryd rhan yn y rhaglen o gymharu â'r ymatebwyr i CaW+. Roedd ymatebwyr Blaenoriaeth 3 i arolwg CaW yn llawer mwy tebygol nag ymatebwyr Blaenoriaeth 1 o ddweud eu bod wedi meithrin neu wella eu sgiliau e.e., dywedodd 79 y cant o ymatebwyr Blaenoriaeth 3 i arolwg CaW eu bod wedi meithrin neu wella eu sgiliau cyfathrebu o gymharu â 66 y cant o'r rhai o Flaenoriaeth 1.

**Tabl 5.4: Sgiliau y gwnaeth ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ eu meithrin neu eu gwella**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| Sgiliau cyfathrebu | 70% | 54% |
| Sgiliau trefnu | 67% | 52% |
| Sgiliau gweithio fel rhan o dîm | 66% | 49% |
| Sgiliau datrys problemau | 64% | 49% |
| Sgiliau chwilio am swydd, ysgrifennu CV neu gyfweliad | 64% | 59% |
| Sgiliau swydd-benodol sy'n gysylltiedig â math penodol o swydd | 58% | 51% |
| Sgiliau trin cwsmeriaid | 45% | 36% |
| Darllen ac ysgrifennu | 42% | 26% |
| Gweithio gyda rhifau | 41% | 27% |
| Sgiliau Saesneg | 40% | 27% |
| Llythrennedd cyfrifiadurol / sgiliau TG sylfaenol | 39% | 30% |
| Sgiliau gwerthu | 25% | 18% |
| Sgiliau arwain a/neu reoli strategol | 25% | 21% |
| Sgiliau TG uwch neu arbenigol | 12% | 9% |
| Hyder / hunan-barch | 8% | 7% |
| Sgiliau Cymraeg | 8% | 8% |
| Sampl | 1,287 | 451 |

Ffynhonnell: Arolygon o Gyfranogwyr ESF (2018, 2022) ac arolygon CaW a CaW+ (2023)

5.7. Yn galonogol, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ eu bod wedi gallu defnyddio’r sgiliau yr oeddent wedi'u meithrin neu eu gwella, ac roedd cyfran ychydig yn uwch o'r ymatebwyr i arolwg CaW, sef 70 y cant, o gymharu â 66 y cant o ymatebwyr i arolwg CaW+ o’r farn hon.

**Amgylchiadau cyflogaeth adeg yr arolwg**

5.8. Mae Tabl 5.5 yn amlinellu amgylchiadau gwaith y cyfranogwyr adeg yr arolwg[52], sydd, o ystyried y byddai'r cyfranogwyr wedi cymryd rhan yn yr arolwg ar wahanol

[52] Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer yr arolygon o gyfranogwyr CaW a CaW+ rhwng 26 Ionawr a 17 Chwefror 2023.

adegau ar ôl gadael y rhaglen, yn rhoi syniad bras o'u hamgylchiadau adeg yr arolwg. Mae'n dangos bod 66 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ a 52 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW yn gyflogedig adeg yr arolwg. Roedd y gyfradd cyflogaeth yn uwch ymhlith ymatebwyr Blaenoriaeth 3 i arolwg CaW, sef 60 y cant, o gymharu â 49 o ymatebwyr Blaenoriaeth 1[53]. Roedd y gyfradd cyflogaeth hefyd yn uwch ymhlith yr ymatebwyr i arolwg CaW ar gyfer Dwyrain Cymru, sef 57 y cant, o gymharu â 51 y cant o ymatebwyr arolwg CaW ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, fel y dangosir yn Atodiad B.5, ac yn uwch ymhlith dynion, y rhai nad oedd ganddynt gyflwr iechyd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio ac a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod byrrach, fel y dangosir yn Atodiad B.6.

**Tabl 5.5: Sefyllfa gyflogaeth ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ adeg yr arolwg**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| Cyflogedig | 52% | 66% |
| Di-waith | 21% | 17% |
| Economaidd anweithgar | 26% | 17% |
| Sampl | 1,437 | 451 |

Ffynhonnell: Arolygon o Gyfranogwyr ESF (2018, 2022) ac arolygon CaW a CaW+ (2023)

5.9. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn arolygon CaW a CaW+ a oedd yn gweithio adeg yr arolwg o'r farn bod y rhaglen wedi eu helpu i gael y swydd fel y dangosir yn Nhabl 5.6. Roedd cyfran uwch o ymatebwyr i arolwg CaW, sef 66 y cant, o'r farn hon ac roedd ymatebwyr Blaenoriaeth 1 i arolwg CaW, sef 70 y cant, yn fwy tebygol nag ymatebwyr Blaenoriaeth 3 i arolwg CaW, sef 59 y cant, o briodoli eu hamgylchiadau cyflogaeth i'r rhaglen.

**Tabl 5.6: Barn ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ ynghylch a oedd y rhaglen wedi eu helpu i gael eu swydd**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| A wnaeth y rhaglen eu helpu i gael swydd | 66% | 61% |
| Sampl | 599 | 259 |

Ffynhonnell: Arolygon o Gyfranogwyr ESF (2018, 2022) ac arolygon CaW a CaW+ (2023)

[53] Er mwyn cymharu, ar draws y rhaglen gyfan, cafodd 50% o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 swyddi a chafodd 41% o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 i swyddi.

**Nodweddion y swyddi a ddaliwyd adeg yr arolwg**

5.10. Fel y dangosir yn Nhabl 5.7 ac yn Atodiadau B.7 a B.8, roedd 51 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW a 21 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ yn cael eu cyflogi ar draws pedwar o'r Prif Grwpiau Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC)[54] sy'n cwmpasu galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol; crefftau medrus; gwasanaethau gofal, hamdden a gwasanaethau eraill; yn ogystal â galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid. Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr i arolwg CaW+, sef 24 y cant, yn gweithio ar draws y tri phrif Grŵp SOC o reolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion; galwedigaethau proffesiynol; a galwedigaethau proffesiynol cysylltiedig o gymharu â dim ond 12 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW. Roedd traean o'r ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ wedi'u cyflogi yn y ddau Brif Grŵp SOC sy'n weddill, sef gweithredwyr prosesau, cyfarpar a pheiriannau a galwedigaethau elfennol. Ar draws carfan arolwg CaW, roedd y gyfran a oedd yn gweithio ar draws Prif Grwpiau SOC 4 i 7 yn weddol debyg ar gyfer carfannau Blaenoriaethau 1 a 3 yr arolwg. Roedd cyfran ychydig yn uwch o ymatebwyr Blaenoriaeth 3 i arolwg CaW yn gweithio ym Mhrif Grwpiau 1 i 3 (14 y cant) ac roedd cyfran uwch o ymatebwyr Blaenoriaeth 1 i arolwg CaW yn gweithio ym Mhrif Grwpiau 8 i 9 (39 y cant).

**Tabl 5.7: Math o swyddi a gafwyd adeg arolygon CaW a CaW+**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| Prif Grwpiau SOC 1-3 (rheolwyr, cyfarwyddwyr, ac uwch swyddogion; galwedigaethau proffesiynol; a galwedigaethau proffesiynol cysylltiedig) | 12% | 24% |
| Prif Grwpiau SOC 4 – 7 (galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol; crefftau medrus; gofal, hamdden a gwasanaethau eraill; a gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid) | 51% | 21% |
| Prif Grwpiau SOC 8-9 (gweithredwyr prosesau, cyfarpar a pheiriannau a galwedigaethau elfennol) | 37% | 34% |
| Sampl | 599 | 259 |

Ffynhonnell: Arolygon o Gyfranogwyr ESF (2018, 2022) ac arolygon CaW a CaW+ (2023). Y rhai mewn cyflogaeth adeg yr arolwg.

[54] Dosbarthiad cyffredin o wybodaeth alwedigaethol ar gyfer y DU yw Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol. Gweler Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol am ragor o wybodaeth.

5.11. Roedd gan 64 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ a 74 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ a oedd mewn gwaith adeg yr arolwg, swyddi parhaol. Mae hyn yn cymharu â 94 y cant o’r holl bobl o oedran gweithio (16 i 64 oed) a oedd yn gyflogedig yn 2021 ledled y DU a oedd mewn swydd barhaol[55]. At hynny, roedd ychydig dros dri chwarter yr ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ a oedd yn gweithio adeg yr arolwg mewn swyddi amser llawn, fel y dangosir yn Nhabl 5.8. Mae hyn ychydig yn uwch na’r gyfran gyffredinol o bobl mewn cyflogaeth sy’n gweithio’n llawn amser ledled Cymru[56]. Mae'r tabl hefyd yn nodi nifer cyfartalog yr oriau a weithiwyd yr wythnos a oedd ychydig yn uwch ymhlith yr ymatebwyr i arolwg CaW+ sef 34.9 awr yr wythnos. Mae Atodiad B.8 yn rhoi rhagor o fanylion am broffil y swyddi a ddaliwyd yn ôl nodweddion demograffig.

**Tabl 5.8: Proffil y swyddi a ddaliwyd adeg arolygon CaW a CaW+**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| Swydd barhaol | 64% | 74% |
| Amser llawn | 78% | 77% |
| Oriau a weithir yr wythnos ar gyfartaledd[57] | 31.5 awr | 34.9 awr |
| Sampl | 599 | 259 |

Ffynhonnell: Arolygon o Gyfranogwyr ESF ac arolygon CaW a CaW+ (2023). Y rhai mewn cyflogaeth adeg yr arolwg

### Anawsterau o ran dod o hyd i waith adeg yr arolwg

5.12. Y prif ffactor a’i gwnaeth yn anodd i'r ymatebwyr i arolwg CaW, a oedd yn ddi-waith adeg yr arolwg, ddod o hyd i waith oedd problemau’n ymwneud ag iechyd, ac roedd ymatebwyr Blaenoriaeth 1 i arolwg CaW yn fwy tebygol o ddweud hynny, sef 50 y cant o gymharu ag ymatebwyr Blaenoriaeth 3 i arolwg CaW (34 y cant), fel y dangosir yn Atodiad B.9. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd yr ymatebwyr i arolwg CaW+ yn fwy tebygol o nodi anawsterau o ran cyrraedd gwaith priodol fel eu prif

[55] Yn seiliedig ar Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Cyflogaeth barhaol a thros dro - GOV.UK Ffeithiau a ffigurau ethnigrwydd (ethnity-facts-figures.service.gov.uk)
[56] Roedd 74 y cant o’r rhai mewn cyflogaeth yng Nghymru yn 2022 mewn swyddi amser llawn. Gweler Statws personau cyflogedig fesul awdurdod lleol a mesur Cymreig (llyw.cymru)
[57] Mae'r data'n seiliedig ar oriau canolrifol a weithiwyd gan gyfranogwyr, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio'n rhan-amser, i gyfyngu ar ddylanwad y rhai sy'n gweithio oriau byr iawn neu hir iawn.

rwystr gyda hanner sampl yr arolwg yn nodi hyn fel rhwystr. Roedd yr ymatebwyr i arolwg CaW+ hefyd yn fwy tebygol nag ymatebwyr i arolwg CaW o nodi nad oedd ganddynt y profiad gwaith, y sgiliau na'r cymwysterau cywir.

5.13. Wrth gymharu'r anawsterau o ran dod o hyd i waith adeg yr arolwg â'r anawsterau cyn cymryd rhan yn y rhaglenni, fel y nodir yn Nhabl 5.9 ac yn Atodiadau B.9 a B.10, nododd cyfran lawer is o'r ymatebwyr i arolwg CaW faterion megis diffyg profiad gwaith, sgiliau, neu gymwysterau perthnasol i ddod o hyd i waith adeg yr arolwg, sy'n awgrymu bod y rhaglen wedi helpu i leihau'r rhwystrau hyn yn sylweddol. Nid yw'r math o heriau a wynebir gan yr ymatebwyr i arolwg CaW+ wedi newid llawer o gymharu â'u sefyllfa cyn ymuno â'r rhaglen, ac eithrio problemau iechyd a gynyddodd gan awgrymu bod y rhai â phroblemau iechyd yn ei chael hi'n anoddach dod o hyd i waith neu fod y garfan hon wedi datblygu mwy o broblemau iechyd dros amser. Mae'r gostyngiad yn y cyfrannau a adroddodd am rwystrau presennol megis profiad gwaith, sgiliau neu gymwysterau perthnasol yn llai. Mae'r gwahaniaeth yn y cyfrannau o gyfranogwyr CaW a CaW+ a nododd fod methu â fforddio gofal plant yn rhwystr i ddod o hyd i waith yn debygol o ddeillio o broffil rhyw y rhai a holwyd, yn yr ystyr bod cyfran uwch o gyfranogwyr CaW+ yn ddynion (67 y cant) o gymharu â chyfranogwyr CaW (53 y cant).

**Tabl 5.9: Rhwystrau o ran dod o hyd i waith ymhlith yr ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ a oedd heb waith adeg yr arolwg**

| | CaW adeg yr arolwg | CaW+ adeg yr arolwg |
|---|---|---|
| Problemau iechyd (gan gynnwys problemau iechyd corfforol a meddyliol) | 46% | 40% |
| Anodd cyrraedd gwaith priodol | 38% | 50% |
| Dim profiad gwaith perthnasol | 33% | 43% |
| Ddim yn meddu ar y sgiliau cywir | 21% | 41% |
| Ddim yn meddu ar y cymwysterau cywir | 31% | 38% |
| Dim swyddi priodol lle maen nhw'n byw | 29% | 39% |
| Cyfrifoldebau gofalu | 27% | 14% |
| Dim ond eisiau gweithio'n rhan-amser | 25% | 17% |
| Oedran | 18% | 22% |
| Ddim yn gallu fforddio gofal plant | 16% | 5% |

| | | |
|---|---|---|
| Sampl | 640 | 148 |

Ffynhonnell: Arolygon o Gyfranogwyr ESF (2018, 2022) ac arolygon CaW a CaW+ (2023). Y rhai nad oeddent mewn cyflogaeth adeg yr arolwg

**Profiadau'r cyfranogwyr o'r rhaglen: Canfyddiadau arolygon 2023**

5.14. Mae'r adran hon yn cyfeirio at ganfyddiadau 236 o ymatebwyr i arolwg CaW a 451 o ymatebwyr i arolwg CaW+ a gyfwelwyd yn gynnar yn 2023.

*Gweithio gyda mentor neu gynghorydd*

5.15. Roedd dros hanner (52 y cant neu 124 o blith 236) o'r ymatebwr i arolwg CaW yn cofio cael eu cefnogi gan gynghorydd a dau o bob pump (40 y cant neu 95 o blith 236) yn cofio cael eu cefnogi gan fentor[58]. Nid oedd gweddill yr ymatebwyr i arolwg CaW (47) yn gwybod neu nid oeddent yn gallu cofio cael eu cefnogi gan y naill na'r llall. Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i gyfranogwyr CaW+ gan mai dim ond mentoriaid a ddefnyddiwyd gan y rhaglen i ddarparu cymorth.

5.16. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ yn credu bod eu mentor neu gynghorydd yn deall y rhwystrau a oedd yn eu hatal rhag dod o hyd i waith, gyda chyfran ychydig yn uwch o gyfranogwyr CaW o'r farn hon, fel y dangosir yn Nhabl 5.10 ac yn Atodiad B.11. Roedd ymatebwyr Blaenoriaeth 1 i arolwg CaW ac ymatebwyr i arolwg CaW yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn fwy tebygol o ddweud bod eu mentor neu gynghorydd yn deall eu rhwystrau'n 'dda iawn', sef 75 y cant a 73 y cant yn y drefn honno. Roedd yr ymatebwyr benywaidd i arolygon CaW a CaW+ hefyd yn fwy tebygol na dynion o ddweud bod dealltwriaeth eu mentor neu gynghorydd o'u rhwystrau yn 'dda iawn'.

**Tabl 5.10: Pa mor dda yr oedd mentor neu gynghorydd yn deall rhwystrau'r ymatebwyr i'r arolygon**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| Da iawn | 72% | 69% |
| Eithaf da | 23% | 23% |
| Ddim yn dda iawn | 3% | 4% |
| Ddim yn dda o gwbl | 1% | 3% |

[58] Cafodd 30 o gyfranogwyr CaW a holwyd gymorth gan gynghorydd a mentor

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn gwybod | <1% | 1% |
| Sampl | 189 | 320 |

Ffynhonnell: Arolygon CaW a CaW+ (2023). Ymatebwyr i arolwg CaW a allai gofio cael eu cefnogi gan fentor (95) neu gynghorydd (124) ac ymatebwyr i arolwg CaW+ a allai gofio cael eu cefnogi gan fentor (320)

5.17. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ yn meddwl bod eu mentor neu gynghorydd wedi bod yn effeithiol o ran eu helpu i lunio cynllun gweithredu personol realistig i’w helpu i symud yn nes at gael swydd, gydag ymatebwyr i arolwg CaW yn fwy tebygol o fynegi'r farn hon fel y nodir yn Nhabl 5.11 ac yn fwy manwl yn Atodiad B.12. Unwaith eto, roedd yr ymatebwyr Blaenoriaeth 1 o arolwg CaW yn fwy tebygol o nodi bod eu mentor neu gynghorydd yn ‘effeithiol iawn’, sef 62 y cant o’i gymharu â 35 y cant o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 ac felly hefyd y rhai yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd, sef 58 y cant o'i gymharu â 52 y cant o'r rhai yn Nwyrain Cymru. Roedd yr ymatebwyr benywaidd i arolygon CaW a CaW+ hefyd yn fwy tebygol na dynion o ddweud bod eu mentor neu gynghorydd yn ‘effeithiol iawn’.

**Tabl 5.11: Effeithiolrwydd mentor neu gynghorydd o ran helpu i lunio cynllun gweithredu personol realistig ar gyfer yr ymatebwyr i'r arolygon**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| Effeithiol iawn | 56% | 50% |
| Eithaf effeithiol | 33% | 32% |
| Ddim yn effeithiol iawn | 5% | 8% |
| Ddim yn effeithiol o gwbl | 3% | 5% |
| Ddim yn gwybod | 1% | 3% |
| Ddim yn cofio cael cynllun gweithredu | 3% | 2% |
| Sampl | 189 | 320 |

Ffynhonnell: Arolygon CaW a CaW+ (2023). Ymatebwyr i arolwg CaW a allai gofio cael eu cefnogi gan fentor (95) neu gynghorydd (124) ac ymatebwyr i arolwg CaW+ a allai gofio cael eu cefnogi gan fentor (320)

5.18. Roedd mwyafrif helaeth (92 y cant) yr ymatebwyr i arolwg CaW a thua thri chwarter (78 y cant) yr ymatebwyr i arolwg CaW+ yn meddwl bod eu mentor neu gynghorydd wedi eu herio i wneud pethau newydd neu wneud pethau’n wahanol, fel y dangosir yn Nhabl 5.12 ac yn Atodiad B.13. Roedd yr ymatebwyr Blaenoriaeth 1 i arolwg CaW a'r ymatebwyr i arolwg CaW a oedd wedi’u lleoli yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd

yn fwy tebygol o gytuno eu bod wedi cael eu herio i wneud pethau newydd neu wahanol ac felly hefyd yr ymatebwyr i arolwg CaW+ a oedd yn 50 oed a throsodd.

**Tabl 5.12: I ba raddau yr heriodd mentor neu gynghorydd yr ymatebwyr i'r arolygon i wneud pethau newydd neu wahanol**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| I raddau helaeth | 37% | 28% |
| I ryw raddau | 55% | 51% |
| Ddim o gwbl | 8% | 18% |
| Ddim yn gwybod | 1% | 3% |
| Sampl | 189 | 320 |

Ffynhonnell: Arolygon CaW a CaW+ (2023). Ymatebwyr i arolwg CaW a allai gofio cael eu cefnogi gan fentor (95) neu gynghorydd (124) ac ymatebwyr i arolwg CaW+ a allai gofio cael eu cefnogi gan fentor (320)

*Y cymorth a ddarparwyd gan gynghorwyr a mentoriaid CaW a mentoriaid CaW+*

5.19. Y ffynhonnell fwyaf cyffredin o gymorth a ddarparwyd gan gynghorwyr CaW a CaW+ oedd cymorth wrth chwilio am swydd, ac roedd 84 y cant (103 o blith 124) o'r ymatebwyr i arolwg CaW a 79 y cant (252 o blith 320) o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ yn cofio cael cymorth megis help i ysgrifennu CV neu wneud cais am swyddi. Roedd 70 y cant o’r ymatebwyr i arolwg CaW a 63 y cant o’r ymatebwyr i arolwg CaW+ hefyd yn cofio cael cymorth i ddod o hyd i gyrsiau hyfforddi tra bod 61 y cant o’r ymatebwyr i arolwg CaW a 53 y cant o’r ymatebwyr i arolwg CaW+ hefyd yn cofio cael cymorth i ddod o hyd i waith. Ychydig iawn o'r ymatebwyr i arolygon CaW neu CaW+ a oedd wedi manteisio ar gymorth, neu gyllid, i dalu am ofal i oedolion (15 y cant o gyfranogwyr CaW a chwech y cant o gyfranogwyr CaW+) neu ddarpariaeth gofal plant (14 y cant o gyfranogwyr CaW a saith y cant o gyfranogwyr CaW+). Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr i arolwg CaW, yn enwedig y rhai o Flaenoriaeth 3, yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi cael y gwahanol fathau o gymorth a nodir yn Nhabl 5.13, o gymharu ag ymatebwyr i arolwg CaW+. Mae’n werth nodi bod cyfran fach iawn, un y cant a phump y cant o’r ymatebwyr i arolwg CaW a CaW+, wedi dweud nad oeddent wedi cael unrhyw help gan gynghorydd neu fentor er y gallai hyn fod oherwydd nad oeddent yn cofio, yn enwedig os oedd natur y gymorth yn weddol ysgafn.

**Tabl 5.13: Sut y bu i gynghorwyr CaW a mentoriaid CaW+ helpu'r ymatebwyr i'r arolygon**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| Gweithgareddau chwilio am swydd, fel ysgrifennu CV a gwneud cais am swyddi | 84% | 79% |
| Dod o hyd i gyrsiau hyfforddi perthnasol | 70% | 63% |
| Helpu i ddod o hyd i waith yn llwyddiannus | 61% | 53% |
| Helpu i oresgyn rhwystrau eraill i gael swydd | Heb ofyn | 48% |
| Dod o hyd i brofiad gwaith perthnasol | 55% | 38% |
| Rhoi cyngor ar fudd-daliadau, gan gynnwys budd-daliadau mewn gwaith | 55% | 35% |
| Dod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli | 54% | 35% |
| Trefnu cludiant i e.e. hyfforddiant neu brofiad gwaith | 52% | 35% |
| Trefnu mynediad i gyfrifiaduron neu ddyfeisiau llechen neu arian i dalu amdanynt | 20% | 16% |
| Trefnu gofal fforddiadwy, neu gael gafael ar arian i dalu am ofal ar gyfer oedolion dibynnol | 15% | 6% |
| Trefnu gofal plant fforddiadwy, neu gael gafael ar arian i dalu amdano | 14% | 7% |
| Help gyda darparu cyfarpar, offer neu ddillad | 6% | 2% |
| Cymorth bugeiliol / rhoi hwb i hyder | 4% | 11% |
| Arall | 3% | 4% |
| Dim / ni wnaeth helpu gydag unrhyw beth | 1% | 5% |
| Ddim yn gwybod / methu cofio | 1% | 0% |
| Sylfaen | 124 | 320 |

Ffynhonnell: Arolygon CaW a CaW+ (2023). Ymatebwyr i arolwg CaW (124) a allai gofio cael eu cefnogi gan gynghorydd ac ymatebwyr i arolwg CaW+ (320) a allai gofio cael eu cefnogi gan fentor

5.20. Y ffynhonnell fwyaf cyffredin o gymorth a ddarparwyd gan fentoriaid CaW a CaW+ oedd rhoi cymhelliant a ffocws i'r cyfranogwyr, yn ogystal â datblygu eu hyder, fel y dangosir yn Nhabl 5.14. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr i arolwg CaW yn fwy tebygol na'r ymatebwyr i arolwg CaW+ o nodi bod eu mentor wedi eu cefnogi ag agweddau personol ar eu bywydau, ac mae’n werth nodi bod un rhan o bump o’r rhai a gymerodd ran yn arolwg CaW+ wedi dweud nad oeddent wedi cael cymorth gyda'r materion hyn. Roedd yr ymatebwyr gwrywaidd i arolwg CaW yn fwy tebygol o

ddweud eu bod wedi cael cymorth gyda cymhelliant a ffocws a chymorth i ymdopi â straen tra bod ymatebwyr benywaidd i arolwg CaW yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi cael cymorth i ddatblygu eu hyder a delio â phroblemau teuluol.

**Tabl 5.14: Sut y bu i gynghorwyr CaW a mentoriaid CaW+ helpu'r ymatebwyr i'r arolygon**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| Rhoi cymhelliant a ffocws i chi | 84% | 70% |
| Datblygu eich hyder | 78% | 69% |
| Ymdopi â straen | 54% | 41% |
| Cael mynediad i wasanaethau iechyd | 31% | 18% |
| Delio â phroblemau teuluol | 22% | 10% |
| Delio â phroblemau'n ymwneud â thai neu lety | 16% | 6% |
| Cael mynediad at wasanaethau adsefydlu | 15% | 5% |
| Dim / ni wnaeth helpu gydag unrhyw beth | 3% | 21% |
| Sampl | 95 | 320 |

Ffynhonnell: Arolygon CaW a CaW+ (2023). Ymatebwyr i arolwg CaW a allai gofio cael eu cefnogi gan fentor (95) ac ymatebwyr i arolwg CaW+ a allai gofio cael eu cefnogi gan fentor (320)

5.21. Dywedodd mwy o gyfranogwyr CaW na chyfranogwyr CaW+ fod y cymorth wedi gwneud gwahaniaeth iddynt. Mewn llawer o achosion, mae'r gwahaniaethau o fewn y ffin cyfeiliorniad ar gyfer y ddau arolwg, felly efallai y gellir priodoli hyn i hap. Serch hynny, os tybiwn fod gwahaniaeth, ym marn y tîm gwerthuso mae hynny'n debygol o adlewyrchu gwahaniaethau yn nodweddion y rhai sy'n manteisio ar CaW a CaW+. Mae'r rhai sy'n manteisio ar CaW yn dueddol o wynebu rhwystrau mwy cymhleth, ac felly'n debygol o fod wedi bod angen mwy o gymorth yn ogystal â manteisio ar fwy o gymorth, a theimlo bod y cymorth hwnnw wedi gwneud mwy o wahaniaeth iddynt. Byddai hyn hefyd yn helpu i esbonio pam, er enghraifft, y dywedodd mwy o gyfranogwyr CaW+ nad oedd angen cymorth arnynt.

*Cyrsiau hyfforddi a gweithgareddau cymorth eraill*

5.22. Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr i arolwg CaW wedi cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi neu weithgareddau cymorth eraill megis gwirfoddoli a phrofiad gwaith, er enghraifft gyda chyflogwr lleol, elusen, neu gynllun gwirfoddoli, tra

roeddent yn dilyn y rhaglen. Mae Tabl 5.15 yn nodi natur y gweithgareddau a gyflawnwyd gan yr ymatebwyr i arolwg CaW, wedi’u rhannu yn ôl y rhai a gafodd eu trefnu gan gynghorydd a'r rhai a gafodd eu trefnu gan fentor.

**Tabl 5.15: Cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi a gweithgareddau cymorth eraill a drefnwyd gan gynghorwyr a mentoriaid CaW**

| | Trefnwyd gan gynghorwyr CaW | Trefnwyd gan fentoriaid CaW |
|---|---|---|
| Hyfforddiant yn ymwneud â swyddi penodol e.e. diogelwch, wagenni fforch godi | 40% | 40% |
| Sgiliau sylfaenol neu hanfodol | heb ofyn | 26% |
| Gwirfoddoli | 34% | 23% |
| Cwrs ysgogi a magu hyder | 25% | 18% |
| Profiad gwaith | 25% | 20% |
| Cwrs 'paratoi i' | 17% | heb ofyn |
| Cwrs 'llwybrau i' | 14% | heb ofyn |
| Cwrs cyllidebu | heb ofyn | 6% |
| Wedi cael benthyg Chromebook | 4% | 1% |
| Cwrs rheoli cyflwr | heb ofyn | 4% |
| Mathau eraill o gyrsiau | heb ofyn | 3% |
| Dim un o'r uchod / heb wneud unrhyw hyfforddiant na gweithgareddau | 32% | 34% |
| Sampl | 124 | 95 |

Ffynhonnell: Arolwg CaW (2023). Ymatebwyr i arolwg CaW a allai gofio cael eu cefnogi gan fentor (95) ac ymatebwyr i arolwg CaW a allai gofio cael eu cefnogi gan gynghorydd (124)

5.23. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr i arolwg CaW o'r farn bod y cyrsiau hyfforddi a'r gweithgareddau yr oeddent wedi'u mynychu yn ddefnyddiol (gweler Atodiad B.14 am ragor o fanylion). Cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant ar gyfer swyddi penodol a chyfleoedd profiad gwaith oedd y rhai mwyaf defnyddiol a chyrsiau eraill fel cymhelliant a magu hyder yn ogystal â chyrsiau ‘paratoi i’ oedd y lleiaf defnyddiol:

- roedd 61 y cant o’r ymatebwyr i arolwg CaW (51 o blith 84) o’r farn bod y cyrsiau hyfforddi ar gyfer swyddi penodol yn ddefnyddiol iawn tra bod 35 y cant (29 o blith 84) o’r farn eu bod yn weddol ddefnyddiol. Roedd cyfranogwyr gwrywaidd

(70 y cant) yn fwy tebygol na chyfranogwyr benywaidd (53 y cant) o ddweud bod y cyrsiau hyn yn ddefnyddiol iawn

- roedd 60 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW (31 o blith 52) o’r farn bod y gweithgareddau gwirfoddoli’n ddefnyddiol iawn tra bod 35 y cant (18 o blith 52) o'r farn eu bod yn weddol ddefnyddiol. Roedd cyfranogwyr benywaidd (70 y cant) yn fwy tebygol na chyfranogwyr gwrywaidd (45 y cant) o ddweud bod y cyrsiau hyn yn ddefnyddiol iawn
- roedd 60% o'r ymatebwyr i arolwg CaW (27 o blith 45) o’r farn bod y profiad gwaith yn ddefnyddiol iawn tra bod 38 y cant (17 o blith 52) o'r farn ei fod yn weddol ddefnyddiol. Roedd cyfranogwyr benywaidd (71 y cant) yn fwy tebygol na chyfranogwyr gwrywaidd (54 y cant) o ddweud bod y profiadau gwaith yn ddefnyddiol iawn
- roedd 45 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW (17 o blith 38) o’r farn bod y cyrsiau cymhelliant a datblygu hyder yn ddefnyddiol iawn tra bod 50 y cant (29 o blith 84) o’r farn eu bod yn weddol ddefnyddiol. Roedd cyfranogwyr gwrywaidd (52 y cant) yn fwy tebygol na chyfranogwyr benywaidd (33 y cant) o ddweud bod y cyrsiau hyn yn ddefnyddiol iawn

5.24. Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ a oedd wedi gweithio gyda mentor yn cofio cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi. Fel y dangosir yn Nhabl 5.16, nodwyd ystod eang o gyrsiau a chyrsiau cymorth cyntaf ac iechyd a diogelwch oedd y rhai y cyfeiriwyd atynt amlaf gan yr ymatebwyr i'r arolygon. Fel y dangosir yn Atodiad B.15, roedd cyfranogwyr gwrywaidd yn fwy tebygol na chyfranogwyr benywaidd o ddilyn cyrsiau hyfforddi ar iechyd a diogelwch, adeiladu, diogelwch, wagenni fforch godi, a hyfforddiant i yrwyr tra bod cyfranogwyr benywaidd yn fwy tebygol o ddilyn cyrsiau TG, gofal, hylendid bwyd, addysg, a hyfforddiant gweinyddu busnes.

**Tabl 5.16: Cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddi a gweithgareddau cymorth eraill a drefnwyd gan fentoriaid CaW+**

| | CaW+ |
|---|---|
| Cymorth Cyntaf | 11% |
| Cael benthyg Chromebook | 9% |
| Iechyd a Diogelwch | 9% |
| Ysgrifennu CV / Cymorth ar gyfer cyfweliad / Chwilio am swydd | 7% |
| Hyfforddiant adeiladu | 6% |
| Hyfforddiant diogelwch | 5% |
| Llythrennedd cyfrifiadurol / TG | 4% |
| Hyfforddiant gofal | 3% |
| Hylendid bwyd | 3% |
| Hyfforddiant ar wagenni fforch godi | 3% |
| Hyfforddiant gyrru | 2% |
| Gweinyddu busnes / Cyllid | 2% |
| Hyfforddiant addysgol | 2% |
| Gwasanaethau cwsmeriaid | 2% |
| Rhifedd a llythrennedd | 2% |
| Arall (e.e., magu hyder, gweithredu systemau teledu cylch cyfyng, Iaith Arwyddion Prydain) | 15% |
| Dim / Heb gymryd rhan yn y cwrs | 39% |
| Methu cofio | 11% |
| Sampl | 320 |

Ffynhonnell: Arolwg CaW+ (2023). Ymatebwyr i arolwg CaW+ a allai gofio cael eu cefnogi gan fentor (320)

5.25. O ran defnyddioldeb cyrsiau a gweithgareddau CaW+, rydym yn ystyried yr adborth a gasglwyd ar y ddarpariaeth a fynychwyd amlaf (gweler Atodiad B.16 am ddadansoddiad manwl):

- roedd 79 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ (26 o blith 33) o’r farn bod yr hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddefnyddiol iawn ac roedd 18 y cant (6 o blith 33) o'r farn ei fod yn weddol ddefnyddiol. Roedd cyfranogwyr benywaidd (93 y cant) yn fwy tebygol na chyfranogwyr gwrywaidd (68 y cant) o ddweud bod yr hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddefnyddiol iawn

- roedd 72 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ (21 o blith 29) o’r farn bod yr hyfforddiant iechyd a diogelwch yn ddefnyddiol iawn ac roedd 24 y cant (7 o blith 29) o'r farn ei fod yn weddol ddefnyddiol. Roedd cyfranogwyr benywaidd (86 y cant) yn fwy tebygol na chyfranogwyr gwrywaidd (68 y cant) o ddweud bod yr hyfforddiant iechyd a diogelwch yn ddefnyddiol iawn
- roedd 72 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ (13 o blith 18) o’r farn bod yr hyfforddiant adeiladu yn ddefnyddiol iawn ac roedd 11 y cant (2 o blith 18) o'r farn ei fod yn weddol ddefnyddiol.[59]
- roedd 55 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ (12 o blith 22) o’r farn bod yr hyfforddiant ar ysgrifennu CV a chyfweliadau yn ddefnyddiol iawn ac roedd 55 y cant (12 o blith 22) o'r farn ei fod yn weddol ddefnyddiol. Roedd cyfranogwyr gwrywaidd (64 y cant) yn fwy tebygol na chyfranogwyr benywaidd (38 y cant) o ddweud bod y cyrsiau hyn yn ddefnyddiol iawn

5.26. Roedd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr i arolwg CaW+ a oedd wedi dilyn hyfforddiant yn cofio eu bod wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant wyneb yn wyneb. Roedd yr hanner arall wedi gwneud hynny ar-lein neu drwy gymysgedd o sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein, fel y dangosir yn Nhabl 5.17.

**Tabl 5.17: Dull yr ymatebwyr i'r arolwg o gael mynediad i weithgareddau hyfforddi a chymorth CaW+**

| | CaW+ |
|---|---|
| Y cyfan wyneb yn wyneb | 46% |
| Wyneb yn wyneb yn bennaf | 15% |
| Wedi rannu'n gyfartal | 17% |
| Ar-lein yn bennaf | 5% |
| Y cyfan ar-lein | 17% |
| Ddim yn gwybod | 1% |
| Sampl | 160 |

Ffynhonnell: Arolwg CaW+ (2023). 160 o ymatebwyr i oarolwg CaW+ a oedd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant neu gymorth arall

[59] Mae nifer bach y cyfranogwyr benywaidd a gymerodd ran mewn hyfforddiant adeiladu yn cyfyngu ar y gallu i wneud cymariaethau yn ôl rhyw.

*Cymorth yn y gwaith*

5.27. Cafodd chwarter yr ymatebwyr i arolygon CaW (25 y cant neu 58 o blith 236) a CaW+ (25 y cant neu 112 o blith 451) gymorth gan y rhaglen ar ôl iddynt ddechrau gweithio. Roedd y rhain yn fwy tebygol o fod yn fenywod (28 y cant o gyfranogwyr benywaidd CaW o gymharu â 21 y cant o gyfranogwyr gwrywaidd CaW; a 27 y cant o gyfranogwyr benywaidd CaW+ o gymharu â 24 y cant o gyfranogwyr gwrywaidd CaW+) ac, yn achos CaW, rhai 16-24 oed (27 y cant o gymharu â 23 y cant o'r rhai 25 oed a hŷn).

5.28. Roedd pob un ond dau o'r rhai a ymatebwyr i arolwg CaW o'r farn bod y cymorth a gafwyd ar ôl dechrau gweithio yn ddefnyddiol iawn (58 y cant neu 34 o blith 58) neu'n weddol ddefnyddiol (39 y cant neu 23 o blith 58). Roedd pob un ond chwe ymatebydd i arolwg CaW+ o'r farn bod y cymorth a gawsant ar ôl dechrau gweithio yn ddefnyddiol iawn (63 y cant neu 70 o blith 112) neu'n weddol ddefnyddiol (32 y cant neu 36 o blith 112).

**Effaith cymryd rhan yn y rhaglenni: Canfyddiadau o arolygon 2023**

5.29. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr i arolwg CaW o'r farn bod cymryd rhan yn y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu parodrwydd i weithio, fel y nodir yn Nhabl 5.18. Roedd dros bedair rhan o bump o'r ymatebwyr i arolwg CaW o'r farn bod y rhaglen wedi eu cynorthwyo i ddeall yn well yr ystod o gyfleoedd a oedd ar gael iddynt ac wedi rhoi mwy o hyder iddynt yn eu galluoedd eu hunain. At ei gilydd, roedd ymatebwyr Blaenoriaeth 3 i arolwg CaW a'r ymatebwyr i arolwg CaW yn Nwyrain Cymru yn fwy tueddol o gytuno bod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu parodrwydd i weithio.

5.30. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ hefyd at fanteision cadarnhaol yn gysylltiedig â gwaith a ddeilliodd o gymryd rhan yn y rhaglen, er bod y cyfrannau a oedd yn cytuno â phob effaith yr holwyd amdani ychydig yn is nag ar gyfer CaW. Y brif effaith ar yr ymatebwyr i arolwg CaW+, a nodwyd gan dri chwarter yr ymatebwyr, oedd bod unigolion yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch eu galluoedd yn y gweithle. Roedd rhwng traean a hanner yr ymatebwyr i arolwg CaW+ hefyd yn meddwl bod cymryd rhan yn CaW+ wedi arwain at ddeilliannau gwaith cadarnhaol fel gwell sicrwydd swydd, gweithio mwy o oriau, a chael dyrchafiad yn y gwaith.

**Tabl 5.18: Effaith cymryd rhan yn CaW a CaW+ ar waith**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| Cliriach ynghylch yr ystod o gyfleoedd a oedd ar gael iddynt | 83% | 73% |
| Mwy hyderus yn eu galluoedd/y gallant wneud gwaith da yn y gweithle | 83% | 76% |
| Gwell gwybodaeth neu fwy o wybodaeth am yr hyn y mae cyflogwyr yn chwilio amdano wrth recriwtio | 81% | 68% |
| Mwy o frwdfrydedd tuag at ddysgu | 80% | 67% |
| Mwy hyderus o ran eu rhagolygon cyflogaeth neu yrfa/y gallant ddod o hyd i waith | 79% | 72% |
| Mwy o sgiliau, yn enwedig y rhai y mae cyflogwyr lleol eu heisiau | 78% | 61% |
| Mwy o gymhelliant i ddod o hyd i swydd | 77% | 67% |
| Teimlo eu bod wedi gwella eu rhagolygon cyflogaeth neu yrfa | 75% | 68% |
| Cliriach am eu nodau gyrfa | 75% | 69% |
| Cliriach am yr hyn y maen nhw eisiau ei wneud mewn bywyd | 71% | 67% |
| Defnyddio ffyrdd newydd/mwy effeithiol o chwilio am waith | 63% | 59% |
| Mwy brwdfrydig wrth chwilio am waith | 63% | 56% |
| Rhagolygon cyflog a dyrchafiad yn y dyfodol wedi gwella | heb ofyn | 52% |
| Mwy o foddhad swydd | heb ofyn | 47% |
| Gwell sicrwydd swydd | heb ofyn | 42% |
| Gweithio mwy o oriau | heb ofyn | 38% |
| Wedi cael dyrchafiad yn y gwaith | heb ofyn | 12% |
| Dim effaith neu ddim yn gwybod | 4% | 10% |
| Sampl | 236 | 451 |

Ffynhonnell: Arolygon CaW a CaW+ (2023). 236 o ymatebwyr CaW a 451 o ymatebwyr CaW+

5.31. Mae tystiolaeth dda hefyd bod cymryd rhan yn CaW a CaW+ wedi arwain at fanteision personol cadarnhaol i'r ymatebwyr i'r arolygon, fel y dangosir yn Nhabl 5.19, gydag ymatebwyr i CaW yn fwy tebygol nag ymatebwyr i arolwg CaW+ o nodi effeithiau o'r fath. Nid oedd un rhan o bump o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ yn meddwl bod y rhaglen wedi bod o fudd i'w bywyd personol mewn unrhyw ffordd. Roedd tua

thri chwarter yr ymatebwyr i arolwg CaW yn meddwl bod y rhaglen wedi eu helpu i gymryd mwy o reolaeth dros eu bywydau ac i fabwysiadu gwell trefn. Roedd llai, rhwng traean a hanner yr ymatebwyr i arolwg CaW, yn meddwl bod y rhaglen wedi eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu hobïau yn y gymuned. Roedd ymatebwyr Blaenoriaeth 3 i arolwg CaW yn fwy tebygol nag ymatebwyr Blaenoriaeth 1 o ddweud bod cymryd rhan yn y rhaglen wedi arwain at fanteision personol.

**Tabl 5.19: Effaith bersonol cymryd rhan yn CaW a CaW+**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| Teimlo mwy o reolaeth dros eich bywyd a'ch dyfodol | 78% | 58% |
| Teimlo'n well amdanoch chi eich hun yn gyffredinol | 77% | 64% |
| Teimlo bod gennych fwy o strwythur a threfn yn eich bywyd | 76% | 58% |
| Gallu ymdopi'n well â'r pethau a'i gwnaeth yn anodd i chi ddod o hyd i waith | 73% | 57% |
| Gallu ymdopi'n well â phethau ymarferol fel cyllidebu, rheoli cyfrif banc neu gynllunio | 67% | 47% |
| Gallu rheoli eich iechyd eich hun neu reoli symptomau cyflyrau iechyd parhaus yn well | 65% | 48% |
| Teimlo'n iachach | 61% | 45% |
| Dilyn diddordebau neu hobïau newydd, er enghraifft ymuno â chlwb neu gymdeithas | 49% | 33% |
| Gallu rheoli eich dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau yn well | 39% | 24% |
| Cymryd rhan mewn gweithgareddau mwy gwirfoddol neu gymunedol | 39% | 28% |
| Dim un o'r rhain | 8% | 21% |
| Sampl | 236 | 451 |

Ffynhonnell: Arolygon CaW a CaW+ (2023). 236 o ymatebwyr CaW a 451 o ymatebwyr CaW+.

5.32. Dywedodd ychydig dros ddwy ran o bump o'r ymatebwyr i arolwg CaW (42 y cant neu 99 o blith 236) eu bod wedi gwneud ffrindiau newydd o ganlyniad i gymryd rhan yn y rhaglen. Mae hyn yn cymharu â thraean yr ymatebwyr i arolwg CaW+ (36 y cant neu 163 o blith 451) a ddywedodd eu bod wedi gwneud ffrindiau newydd ar y rhaglen. Roedd yr ymatebwyr benywaidd i arolwg CaW (50 y cant) yn fwy tebygol o ddweud bod y rhaglen wedi eu helpu i wneud ffrindiau newydd.

### Effaith COVID-19: Canfyddiadau o arolygon 2023

5.33. Er bod y ddwy raglen wedi symud i ddarpariaeth o bell ac ar-lein yn ystod y pandemig COVID-19, dim ond traean o'r ymatebwyr i arolygon CaW a CaW+ a gafodd gymorth yn ystod y pandemig (36 y cant neu 47 o blith 131 o gyfranogwyr CaW a 37 y cant neu 87 o blith 238 o gyfranogwyr CaW+) a oedd yn credu bod cyfyngiadau'r pandemig wedi effeithio ar yr hyfforddiant neu'r cymorth a gawsant. Cyfranogwyr benywaidd CaW (44 y cant), cyfranogwyr CaW â salwch, problem iechyd neu anabledd hirdymor (45 y cant) yn ogystal â chyfranogwyr CaW yn Nwyrain Cymru (48 y cant) oedd fwyaf tebygol o ddweud bod y pandemig wedi effeithio ar yr hyfforddiant neu'r cymorth a gawsant.

5.34. Y brif ffordd yr effeithiodd COVID-19 ar yr hyfforddiant neu'r cymorth a gafwyd oedd bod cyrsiau yn cael eu cynnal o bell neu ar-lein, a nodwyd hyn gan 69 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW (32 o blith 47) a 71 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ (53 o blith 87) yr effeithiwyd arnynt. Ymhlith y newidiadau eraill a nodwyd roedd cyrsiau'n cael eu gohirio neu'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl, ond nodwyd hyn gan niferoedd llawer llai ym mhob achos.

5.35. Fel y dangosir yn Nhabl 5.20, roedd 30 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW a 39 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CaW+ yn credu bod y pandemig wedi'i gwneud yn anoddach dod o hyd i waith neu gael dyrchafiad. Nid oedd tua hanner y rhai a holwyd yn meddwl bod y pandemig wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'w cynnydd ers iddynt adael CaW neu CaW+. Roedd yr ymatebwyr gwrywaidd i arolwg CaW ychydig yn fwy tebygol o ddweud bod y pandemig wedi'i gwneud yn haws iddynt ddod o hyd i waith (10 y cant) tra bod yr ymatebwyr i arolwg CaW a chanddynt salwch, problem iechyd neu anabledd hirdymor yn fwy tebygol o ddweud bod y pandemig wedi gwneud hynny'n anoddach (41 y cant).

**Tabl 5.20: Effaith y pandemig COVID-19 ar y cynnydd a wnaed gan yr ymatebwyr i'r arolygon ers gadael CaW a CaW+**

| | CaW | CaW+ |
|---|---|---|
| Wedi ei gwneud yn haws | 7% | 9% |
| Wedi ei gwneud yn anoddach | 30% | 39% |
| Dim gwahaniaeth | 56% | 47% |
| Ansicr | 6% | 5% |
| Sampl | 236 | 451 |

Ffynhonnell: Arolygon CaW a CaW+ Ymchwil OB3 (2023). 236 o ymatebwyr CaW a 451 o ymatebwyr CaW+

5.36. Y brif ffordd yr oedd COVID-19 wedi'i gwneud yn anoddach gwneud cynnydd oedd y ffaith bod llai o swyddi ar gael yn gyffredinol i gyfranogwyr (cyfeiriwyd at hyn gan 40 y cant neu 29 o blith 71 o ymatebwyr i arolwg CaW a 39 y cant neu 69 o blith 177 o ymatebwyr i arolwg CaW+ a ddywedodd ei bod yn anoddach gwneud cynnydd oherwydd COVID-19). Nododd llai o ymatebwyr i'r arolygon ffactorau eraill, a oedd yn cynnwys y ffaith bod y pandemig wedi cael effaith wael ar y diwydiant yr oeddent yn gweithio ynddo neu'n bwriadu gweithio ynddo; bod COVID-19 wedi effeithio ar eu hiechyd corfforol neu feddyliol; a'u bod wedi colli eu cymhelliant i symud ymlaen neu i weithio.

5.37. Y brif ffordd yr oedd COVID-19 wedi'i gwneud yn haws i wneud cynnydd oedd ei fod wedi arwain at swyddi gwag a chyfleoedd gwaith ychwanegol (cyfeiriwyd at hyn gan 10 o blith 17 o ymatebwyr i arolwg CaW ac 17 o blith 41 o ymatebwyr i arolwg CaW+).

**Ymwybyddiaeth o'r ESF ymhlith ymatebwyr i arolwg CaW**

5.38. Roedd traean o'r ymatebwyr i arolwg CaW (33 y cant neu 79 o blith 236) yn ymwybodol bod yr ESF wedi helpu i dalu am y ddarpariaeth a ddefnyddiwyd ond nid oedd dwy ran o dair (67 y cant neu 157 o blith 236) yn ymwybodol o hynny neu roeddent yn ansicr. Roedd dynion yn fwy tebygol na menywod (37 y cant o gymharu â 29 y cant) o fod yn ymwybodol o hyn.

# 6. Casgliadau

### Ymgysylltu â grwpiau blaenoriaeth

6.1. Mae rhaglenni CaW a CaW+ ill dwy wedi ymgysylltu â niferoedd mawr o bobl ifanc ac oedolion (25+ oed) sy’n aml yn wynebu rhwystrau cymhleth i waith, gan gynnwys pobl heb gymwysterau neu â fawr ddim cymwysterau, pobl â chyflyrau iechyd sy’n cyfyngu ar eu gallu i weithio, cyfrifoldebau gofalu a gofal plant, y rhai a oedd yn byw ar aelwydydd heb waith a/neu a oedd wedi'u heffeithio gan ddigartrefedd. Gwnaed cynnydd cryf iawn, yn enwedig gan CaW+ o ran ymgysylltu â phobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Serch hynny, roedd y cyfrannau o bobl o grwpiau blaenoriaeth eraill, yn enwedig pobl anabl, yn is na'r disgwyl. Ar ben hynny, fel yr amlinellir yn yr Adroddiad ar Berfformiad a Gwerth am Arian y Rhaglen (Llywodraeth Cymru, 2024b) er bod CaW+ wedi rhagori ar y disgwyliadau, roedd cyfanswm y bobl 25 oed a throsodd yr ymgysylltodd CaW â nhw yn is na'r targedau cychwynnol.

### Deilliannau ar gyfer grwpiau blaenoriaeth

6.2. Gan fod aelodau o grwpiau blaenoriaeth yn tueddu i fod â rhwystrau mwy difrifol a/neu gymhleth na grwpiau eraill (sy’n un o'r prif resymau pam yr ystyrir eu bod yn grwpiau blaenoriaeth), nid yw’n syndod bod y cynnydd yng nghyfrannau'r cyfranogwyr o’r grwpiau hyn a gafodd waith yn llai na grwpiau eraill, sydd fel arfer yn wynebu llai o rwystrau. Yn yr un modd, mae’n rhesymol tybio y byddent yn llai tebygol na grwpiau eraill o gael swydd yn absenoldeb y rhaglen (felly byddai lefel yr ychwanegedd yn uwch ar gyfer y rhai a gafodd waith) ac mae’r cyfweliadau ansoddol yn rhoi enghreifftiau byw o sut y mae rhaglenni wedi helpu pobl o grwpiau blaenoriaeth i gael swydd.

6.3. Mae effaith y rhaglenni ar y rhai sydd â rhwystrau mwy cymhleth yn cael ei hystyried yn y gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith, sydd wedi canfod, yn gyffredinol, bod y rhaglenni’n cael mwy o effaith ar y rhai sy’n agosach at y farchnad lafur megis y rhai nad oes ganddynt broblemau iechyd, nad ydynt yn anabl ac sydd â chymwysterau uwch (Llywodraeth Cymru, 2024a). Mae hwn yn ganfyddiad pwysig, sy’n awgrymu nad yw’r rhaglen CaW wedi llwyr gyrraedd ei nod o helpu’r rhai sydd bellaf o’r farchnad lafur. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau’r ymchwil ansoddol a’r arolwg

sy'n awgrymu bod rhaglen CaW (fel CaW+) wedi bod yn llai effeithiol o ran cefnogi cyfranogwyr:

- sydd â galluoedd cyfyngedig, oherwydd problemau iechyd neu nam, ac i raddau llai, lefe isel o gymwysterau neu ddim cymwysterau o gwbl neu sgiliau cyfyngedig; a
- sydd â mynediad cyfyngedig i gyfleoedd, oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu nam (o gymharu â'r cyfranogwyr hynny nad oeddent yn wynebu'r rhwystrau hyn).

6.4. Yn olaf, mae'n werth nodi bod deilliannau cyflogaeth, o ran ystod o fesurau'n ymwneud ag ansawdd y gwaith, megis dosbarthiad y gwaith a chael swydd barhaol, yn gryfach ymysg cyfranogwyr CaW+ o gymharu â chyfranogwyr CaW (gweler tabl B.7). Mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod hyn fwy na thebyg i'w briodoli i'r ffaith bod cyfranogwyr CaW+ yn gyffredinol yn fwy medrus a chymwys, ac yn wynebu llai o rwystrau i gyflogaeth, o gymharu â chyfranogwyr CaW.

**Deilliannau i ddynion a menywod**

6.5. Er bod CaW (yn wahanol i CaW+) wedi ymgysylltu â dynion a menywod mewn niferoedd cyfartal yn fras, roedd menywod a gyflogwyd gan CaW yn llai tebygol na dynion o gael swydd. Roedd profiadau menywod o'r rhaglen a'u boddhad gyda hi yn debyg i brofiadau dynion. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn adran pedwar, roedd menywod ychydig yn fwy tebygol o nodi rhwystrau, ac yn arbennig, yn llawer mwy tebygol na dynion o nodi rhwystrau'n gysylltiedig â gofal neu gyfrifoldebau gofalu. Fel yr amlinellir yn adran pump, mae'n bosibl bod gofal neu gyfrifoldebau gofalu wedi bod yn rhwystr arbennig o anodd i'w oresgyn a gallent fod wedi gwaethygu effaith rhwystrau eraill, er enghraifft, drwy ladd cymhelliant y rhai a oedd yn eu hwynebu, neu drwy wella anawsterau sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus.

**Y rhesymeg dros dargedu grwpiau a daearyddiaethau penodol**

6.6. Mae anawsterau CaW wrth recriwtio cyfranogwyr 25 oed a hŷn, o gymharu â'r rhai 16-25 oed a CaW+, sydd â meini prawf cymhwystra llawer llacach, yn amlygu'r heriau posibl sy'n gysylltiedig â thargedu grwpiau penodol. Yn yr un modd, mae hefyd yn golygu bod rhaglen CaW wedi'i thargedu'n fwy penodol, gan weithio gyda

chyfran fwy o bobl â rhwystrau mwy cymhleth na CaW+ (Llywodraeth Cymru, 2023a). Mae’r ffyrdd y gallai’r rhwystrau hyn ddal pobl yn ôl i’w gweld yn yr adroddiadau gan gyfranogwyr a amlinellir yn adran 4.

6.7. O ystyried y gostyngiad cyffredinol mewn cyllid yn dilyn ymadawiad y DU o’r UE a disodli Cyllid Ewropeaidd â chronfa ffyniant gyffredin y DU (Llywodraeth Cymru, 2022c), bydd yr angen i dargedu adnoddau cyfyngedig at y rhai sydd â’r angen mwyaf a hefyd at y rhai sydd fwyaf tebygol o ymgysylltu (na fyddant yn aml yn rhai â'r anghenion mwyaf) yn dod yn bwysicach (gweler e.e. IES, dim dyddiad). Mae’r gwerthusiad hwn yn rhoi gwybodaeth bwysig am ba grwpiau sy’n elwa, sut a pham y maent yn elwa, a pham nad yw rhai grwpiau’n ymgysylltu, neu'n ymgysylltu ond yn cael llai o fudd o'r rhaglenni, a all lywio’r gwaith o ddylunio a datblygu rhaglenni’r dyfodol.

**Deall teithiau'r cyfranogwyr**

6.8. Mae'r adroddiadau a drafodir yn adran pedwar yn rhoi blas o'r amrywiaeth o brofiadau a gafodd y cyfranogwyr (ond ni all fod yn adroddiad cynhwysfawr hyd yn oed o'r rhai a gyfwelwyd) a'r ystod o effeithiau, o ran cyflogaeth, a hefyd o ran gwelliannau i lesiant pobl a'u galluoedd, megis sgiliau (a amlygwyd hefyd gan yr arolwg o gyfranogwyr) ac iechyd.

6.9. Er bod natur y sampl ar gyfer ymchwil ansoddol (a drafodir yn adran dau) yn golygu na fyddai’n briodol cyffredinoli mewn termau meintiol, mae’n nodedig bod y cymorth a roddwyd wedi trawsnewid bywydau a chyfleoedd bywyd nifer bach o'r rhai a gyfwelwyd. Fodd bynnag, ar y pegwn arall, roedd yr effaith yn ymddangos yn fach i nifer bach o'r rhai a gyfwelwyd. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn syrthio rhywle rhwng y ddau begwn hyn.

6.10. Mae adroddiadau'r cyfranogwyr yn ei gwneud yn glir, er bod cymhelliant i ddod o hyd i waith yn angenrheidiol, nid yw'n ddigon i alluogi pobl i chwilio am a dod o hyd i waith yn effeithiol; hefyd mae arnynt angen y gallu a'r cyfle i wneud hynny. Fel rhaglenni gwirfoddol, mae CaW a CaW+ yn dibynnu ar bobl yn meddu ar gymhelliant i ymgysylltu â’r rhaglenni – ac yn y cyd-destun hwn mae’n nodedig bod yr arolygon o gyfranogwyr wedi canfod nad dod o hyd i swydd yw’r unig gymhelliant. Fodd bynnag,

ar ôl i bobl ddechrau ymgysylltu gall y rhaglenni helpu i feithrin cymhelliant pobl, drwy er enghraifft ddatblygu eu hunanhyder a'u gallu i chwilio am waith, a gwella eu mynediad i gyfleoedd cyflogaeth. Dangosir yr effeithiau hyn hefyd yng nghanlyniadau'r arolygon, yn fwyaf nodedig yn y niferoedd a nododd effeithiau cadarnhaol ar gymhelliant a hunanhyder a gostyngiad yn y rhwystrau a adroddwyd gan yr ymatebwyr.

6.11. Mae adroddiadau'r rhai a gyfwelwyd hefyd yn ei gwneud yn glir ei bod yn ymddangos bod rhai pobl yn 'methu symud ymlaen' a bod y rhaglen wedi cael trafferth i'w helpu, yn bennaf oherwydd:

- bod diffyg cyfatebiaeth rhwng eu dyheadau a'u galluoedd a/neu fynediad i gyfleoedd cyflogaeth;
- nid oes ganddynt gymhelliant i ddod o hyd i waith yn y cyfnod hwn o'u bywydau; neu
- mae eu galluoedd mor gyfyngedig (e.e., o ganlyniad i iechyd meddwl gwael a/neu ddiffyg sgiliau a phrofiad) a/neu mae eu hamgylchiadau personol mor anodd ar hyn o bryd, fel na allant fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth ar y cam hwn (neu'r adeg hon) yn eu bywydau.

6.12. Ategir hyn gan yr arolwg o gyfranogwyr sy'n nodi ystod o rwystrau yr oedd y cyfranogwyr yn dal i deimlo eu bod yn eu dal yn ôl, megis problemau gyda'u hiechyd a/neu ddiffyg sgiliau neu gymwysterau (sy'n cyfyngu ar eu gallu) ac anawsterau dod o hyd i waith yn eu hardal nhw, neu gyfrifoldebau gofalu (sy'n cyfyngu ar fynediad i gyfleoedd).

6.13. Yn fwy cadarnhaol, mae adroddiadau gan y rhai a gyfwelwyd yn dangos sut y gall digwyddiadau tyngedfennol[60] ym mywydau pobl, fel marwolaeth perthynas neu brofiadau o'r pandemig, fod yn sbardun ar gyfer newid, a all helpu pobl - gyda chymorth y rhaglenni - i symud ymlaen. Fodd bynnag, gall y mathau hyn o ddigwyddiadau lesteirio cynnydd pobl a thafleu eu bywydau oddi ar cledrau hefyd.

[60] Defnyddir amrywiol dermau i ddisgrifio hyn, megis 'moment dyngedfennol', 'digwyddiadau tyngedfennol', 'trobwynt' a 'deffroad' yn y llenyddiaeth ehangach (gweler e.e. Jones, 1995).

6.14. Yn olaf, mae’n werth nodi, ymhlith llawer o’r rhai a oedd wedi gweithio (cyn ymuno â'r rhaglenni), neu a ddaeth o hyd i waith (drwy’r rhaglenni), bod eu hadroddiadau am waith a’r gweithle yn cynnwys disgrifiadau o oriau hir a/neu oriau anghymdeithasol, cyflog gwael a thriniaeth wael, gan gynnwys bwlio. Dyma un rheswm pam yr oedd y cyfranogwyr eisiau gweithio ond nad oeddent, bron yn ddieithriad, eisiau cymryd pa bynnag swydd a oedd ar gael, ac roeddent â'u bryd ar feysydd gwaith penodol. Roedd hyn yn cyfyngu ar fynediad rhai pobl i gyfleoedd (e.e. lle roedd diffyg cyfatebiaeth rhwng eu dyheadau a'u galluoedd). Roedd yn golygu bod rhai yn defnyddio’r rhaglen i newid cyfeiriad, gan ohirio ailymuno â'r byd gwaith mewn rhai achosion, ond eu galluogi i ddod o hyd i waith a oedd yn rhoi mwy o foddhad iddynt. Roedd hefyd yn golygu bod rhai o'r cyfranogwr a oedd mewn gwaith yn awyddus i symud ymlaen a chael gwaith gwell, ond eu bod weithiau'n cael trafferth gweld sut y gallent wneud hynny.

**Cymorth yn y gwaith**

6.15. Mae'r ymchwil ansoddol yn gyson â chyfweliadau gyda staff, a'r arolwg[61], sy'n awgrymu nad yw cymorth yn y gwaith yn cael ei ddefnyddio'n gyson ac nad oes ei angen bob tro, ond ei fod yn cael ei werthfawrogi[62], a gall fod yn bwysig iawn o ran hwyluso’r broses o bontio i waith, ac o ran helpu i gynnal gwaith, yn enwedig ymhlith y rhai sydd wedi gorfod goresgyn rhwystrau mwy cymhleth. Mae llawer o’r cymorth hwn yn weddol anffurfiol, ac er bod ei werth yn cynyddu pan fydd cynghorwyr a mentoriaid yn mynd ati’n rhagweithiol i gadw mewn cysylltiad â chyfranogwyr (gan ychwanegu tasg arall at eu gwaith), fel y nodwyd, ychydig iawn o bobl sy’n ei manteisio arno (gan gyfyngu ar yr effaith ar eu llwyth gwaith). O ystyried profiadau pobl o 'waith gwael', gall y posibilrwydd y gall cymorth yn y gwaith nid yn unig helpu pobl i gynnal gwaith, ond i symud ymlaen yn y gwaith, fod yn bwysig.

**Cymorth y rhaglenni a phwysigrwydd dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**

6.16. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn pwysleisio'n gyson y gwerth yr oeddent yn ei roi ar ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn neu'r person: o gael rhywun i siarad ag ef, a fyddai'n

[61] Dywedodd chwarter y cyfranogwyr CaW a CaW+ a holwyd eu bod wedi manteisio arno.
[62] Dywedodd 98 y cant o gyfranogwyr CaW a 95 y cant o gyfranogwyr CaW+ a gymerodd ran yn yr arolwg ac a fanteisiodd ar gymorth yn y gwaith ei fod yn ddefnyddiol iawn neu’n weddol ddefnyddiol.

gwrando arnynt ac yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu 'parchu', a oedd yn ddibynadwy; ac, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, 'Efallai ei fod yn swnio'n rhyfedd, ond mae'n gwneud gwahaniaeth os yw rhywun yn gwneud ei waith'. Roedd hyn yn galluogi cynghorwyr a mentoriaid i feithrin perthynas a oedd yn eu helpu i ddeall dyheadau'r cyfranogwyr yn well yn ogystal â'u galluoedd, eu mynediad i gyfleoedd a'u cymhellion a'u hymddygiad, a theilwra a chynnig cymorth – a lle y bo'n briodol eu herio – a allai eu helpu, a bod y cyfranogwyr yn fwy parod i fanteisio ar hyn a'i dderbyn. Dengys yr arolwg o gyfranogwyr lefelau uchel o foddhad â'r cymorth gan fentoriaid a chynghorwyr y rhaglenni ac roedd hefyd yn nodedig bod llawer o'r rhai a gyfwelwyd wedi gwrthgyferbynnu eu profiadau cadarnhaol o CaW a CaW+ â phrofiadau llai cadarnhaol gyda JCP a gwasanaethau cymorth cyflogaeth eraill.

*Cymorth gan y ddwy raglen*

6.17. Fel yr amlinellir yn adran pump, un canfyddiad annisgwyl a ddeilliodd o'r arolwg oedd bod cyfranogwyr CaW yn teimlo'n fwy cadarnhaol yn gyffredinol am effaith y cymorth a gawsant gan y cynghorydd neu'r mentor, o'u cymharu â'u cymheiriaid ar CaW+, tra bod cyfranogwyr CaW+ yn teimlo'n fwy cadarnhaol am effaith yr hyfforddiant a gawsant. Roedd hyn yn annisgwyl gan fod cynllun a darpariaeth y ddwy raglen yn debyg, er bod tystiolaeth y gallai CaW+ fod yn fwy hyblyg ac ymatebol na CaW (Llywodraeth Cymru, 2023a). Nododd y cyfwelwyr hefyd fod carfan arolwg CaW+ yn cofio llai am y rhaglen CaW+, er bod y gyfran a wrthododd roi adborth (5 y cant) yn debyg i'r gyfran yn sampl CaW y gofynnwyd iddynt am gyfweliad (4 y cant).

6.18. Nid yw'r ymchwil ansoddol yn rhoi esboniad uniongyrchol pam y byddai profiadau cyfranogwyr CaW a CaW+ yn wahanol. At hynny, mewn llawer o achosion, mae'r gwahaniaethau o fewn y ffin cyfeiliorniad ar gyfer y ddau arolwg, felly efallai y gellir priodoli hyn i hap. Serch hynny, os tybiwn fod gwahaniaeth, ym marn y tîm gwerthuso mae hynny'n debygol o adlewyrchu gwahaniaethau yn nodweddion y rhai sy'n manteisio ar CaW a CaW+. Mae'r rhai sy'n manteisio ar CaW yn dueddol o wynebu rhwystrau mwy cymhleth, ac felly'n debygol o fod wedi bod angen mwy o gymorth yn ogystal â derbyn mwy o gymorth, a theimlo bod y cymorth wedi gwneud mwy o wahaniaeth iddynt. Gall y cyfranogwyr hefyd roi mwy o werth ar y cymorth y

maent wedi'i gael am gyfnod hwy o amser. I’r gwrthwyneb, roedd mwy o’r hyfforddiant a gyflawnwyd ganddynt yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol, tra bod mwy o’r hyfforddiant a gyflawnwyd gan gyfranogwyr CaW+, yn fwy uniongyrchol ddefnyddiol ac ymarferol ar gyfer dychwelyd i’r gwaith, felly efallai fod cyfranogwyr CaW+ yn fwy tueddol o weld pa mor uniongyrchol berthnasol a defnyddiol oedd yr hyfforddiant.

### Y cynnig Cymraeg

6.19. Awgryma'r ymchwil ansoddol, er ei fod yn bwysig, bod ‘cynnig rhagweithiol’ mewn perthynas â gwasanaethau Cymraeg yn annhebygol o fod yn ddigon i annog siaradwyr Cymraeg i fanteisio arnynt, oni bai, er enghraifft, eu bod yn cael eu darparu mewn ffordd groesawgar ac anffurfiol sy’n annog ac yn cefnogi’r rhai nad ydynt efallai’n hyderus neu’n gyfarwydd â defnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio â gwasanaethau cyhoeddus fel CaW a CaW+. Mae hyn yn ei dro yn gofyn am fwy na deunydd hyrwyddo dwyieithog, a bydd angen, er enghraifft:

- i'r cynnig Cymraeg fod yn weladwy (e.e. staff yn gwisgo laniard neu fathodyn gyda'r logo 'Iaith Gwaith' arno)[63] er mwyn annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu Cymraeg yn ddigymell. Gall hyn fod yn bwysig, oherwydd os oes rhaid iddynt ofyn am gael gwneud hynny, gallant ddewis peidio, rhag ofn, er enghraifft, iddynt ymddangos yn lletchwith drwy ofyn am gael defnyddio’r Gymraeg, yn enwedig pan fyddant yn gofyn am gymorth; a
- i staff CaW a CaW+ eu hunain fod yn hyderus ac yn rhagweithiol wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, a bod yn hyblyg hefyd, gan addasu lefel y ffurfioldeb i adlewyrchu'r person y maent yn siarad ag ef. Gallai fod yn briodol hefyd adolygu'r gwaith papur Cymraeg i sicrhau bod yr iaith yn syml ac yn glir (gweler e.e., CGCC, 2022).

### Effaith y rhaglenni

6.20. Fel yr amlinellir yn adran pump, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn arolygon CaW a CaW+ yn credu bod cymryd rhan yn y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar ba mor barod yr oeddent ar gyfer gwaith; ac mae tystiolaeth dda hefyd

[63] Mae cynllun Iaith Gwaith yn cael ei ddefnyddio i ddangos bod person yn gallu siarad Cymraeg.

bod cymryd rhan yn CaW a CaW+ wedi arwain at fanteision personol cadarnhaol i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg, o ran eu galluoedd, eu llesiant a'u gwytnwch. Mae'r effeithiau hyn, a allai fod yn drawsnewidiol, i'w gweld yn glir yn straeon y cyfranogwyr a gyflwynir yn adran 4. Yn yr un modd, roedd effaith y rhaglenni'n amrywio ar gyfer gwahanol bobl a grwpiau, ac nid yw hyn yn fawr o syndod. Ond er bod yr effeithiau o ran mynediad i gyflogaeth weithiau'n ymddangos yn fach iawn i rai unigolion, sy'n gyson â chanfyddiadau'r gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith (Llywodraeth Cymru, 2024a), hyd yn oed yn yr achosion hynny, cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd yn gyson at y manteision ehangach mewn meysydd fel llesiant ac iechyd yn sgil cymryd rhan yn y rhaglenni.

**Cyfeiriadau**


Aulampalam, W., Gregg, P. and Gregory M. (2001) Unemployment Scarring*, The Economic Journal,* 111, Oxford: Blackwell Publishers.

Yr Adran Ysgolion, Plant a Theuluoedd (2009) *Increasing Participation: Understanding Young People who do not Participate in Education or Training at 16 and 17*. Gwefan NFER

Department for Work and Pensions (2022) *Employment of disabled people: 2022* Gwefan yr Adran Gwaith a Phensiynau

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2022) *UK disability statistics: Prevalence and life experiences*, Gwefan Tŷ'r Cyffredin

Michie S., van Stralen, M. M. a West, R. (2011) The behaviour change wheel: a new method for characterising and designing behaviour change interventions, *Journal of Implementation Science 6, Article number 42 (2011)* Journal of Implementation Science 6, Rhif erthygl 42 (2011)

Institute of Employment Studies (2021) *Rapid review of employment policy and context*. Papur heb ei gyhoeddi

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) *INAC01 SA Economic inactivity by reason* (seasonally adjusted) Gwefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol

StatsCymru (2022a) *Crynodeb o weithgarwch economaidd yn ôl ardal a statws anabl, o Ebrill 2013,* Gwefan StatsCymru

StatsCymru (2022b) *Crynodeb o weithgarwch economaidd yng Nghymru yn ôl blwyddyn ac ethnigrwydd,* Gwefan StatsCymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2022) *Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGCC Meithrin y Defnydd o'r Gymraeg: Gwersi a Ddysgwyd gan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGCC*, Gwefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Llywodraeth Cymru (2022a) *Cymunedau am Waith a Mwy*, Gwefan Llywodraeth Cymru (Fel ar 9 Mehefin 2023; nid yw'r wefan yn weithredol mwyach)

Llywodraeth Cymru (2022b) *Ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth: 2018 i 2020*, Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2022c) *Datganiad Ysgrifenedig: Colli cyllid i Gymru o ganlyniad i drefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid UE* Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2022d) *Diweddariad y Prif Ystadegydd: deall data Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg*, Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2023a) *Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Cam 1 (gwerthusiad proses a theori newid)*, Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2023b) *Gwerthusiad o PaCE: Gwerthusiad o'r Rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE): adroddiad gwerthuso crynodol terfynol.* Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2023c) *Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): 2022*, Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2022d) *Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio: 2020*, Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2023e) *Y Gymraeg yn ôl nodweddion y boblogaeth (Cyfrifiad 2021)*, Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2024a) *Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Gwerthusiad Gwrthffeithiol o Effaith* Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2024b) *Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Perfformiad a gwerth am arian y rhaglenni* Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2024c) *Adolygiad Cyflym o Dystiolaeth: Cefnogi pobl ifanc NEET 'anweithgar' i oresgyn rhwystrau croestoriadol i gyrraedd a chynnal eu nodau gwaith* Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, a) *Business Plan 2014-2020: Communities for Work, East Wales Priority 1*

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, b) *Business Plan 2014-2020: Communities for Work, East Wales Priority 3*

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, c) *CfW+ application guidance*

Swyddfa Archwilio Cymru (2014). *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, SAC, gwefan

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021) *Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Cyflogaeth ac Incwm* Gwefan Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Atodiad A: Data ychwanegol ar nodweddion y rhai a gymerodd ran yn yr arolygon

Mae’r adran hon yn darparu gwybodaeth ychwanegol am nodweddion y rhai a gymerodd ran yn yr arolygon a sut yr oeddent yn cymharu â holl gleientiaid CaW neu CaW+. Mae rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu a'r strategaeth samplu ar gael mewn adroddiad technegol manwl.

### Eu hamgylchiadau yr adeg y gwnaethant ymuno â'r rhaglen

Nid oedd gan dros hanner (57 y cant) y rhai a gymerodd ran yn y rhaglen CaW lawer o sgiliau ar yr adeg y gwnaethant ymuno â'r rhaglen (yn yr ystyr bod ganddynt gymhwyster Lefel 2 neu’n is) ac roedd gan ymatebwyr Blaenoriaeth 3 i'r arolwg ychydig yn llai o gymwysterau na sampl Blaenoriaeth 1 (58 y cant o’i gymharu â 56 y cant). Roedd gan yr ymatebwyr i arolwg CaW+ gymwysterau gwell, gyda 47 y cant yn meddu ar gymhwyster Lefel 3 neu uwch a llai, 43 y cant, â lefel isel o sgiliau, fel y dangosir yn Atodiad A.1.

